# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 19EG GORFFENNAF, 2018**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 11/07/18)

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

**AELODAETH (19)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
Cemlyn Rees Williams
Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Gethin Glyn Williams
Charles Wyn Jones
Paul John Rowlinson
Sedd Wag x 2

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell
Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

## Llaf / Rhydd (1)

Sedd Wag

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Sedd Wag

## Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2018, fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18 CRONFA BENSIWN GWYNEDD** 13 - 47

Cyflwyno, er gwybodaeth, datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) ar gyfer 2017/18.

**6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18** 48 - 62

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Rheolwr Buddsoddi ar ganlyniadau gwir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018.

**7. TREFNIADAU RHEOLI RISG** 63 - 67

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**8. TREFNIADAU SGORIO RISGIAU A LEFEL SICRWYDD ARCHWILIADAU** 68 - 71

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

**9. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** 72 - 81

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**10. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** 82 - 98

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 19 Mehefin 2018.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 28/6/18

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Aled Ll. Evans, Alwyn Gruffydd, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Wyn Jones, Huw G. Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, Paul Rowlinson a Angela Russell.

**Aelod Lleyg:** Sharon Warnes

**Eraill a wahoddwyd:** Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid) a Edgar Owen (Aelod ex-officio).

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor – ar gyfer Eitem 6 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts a Gethin Glyn Williams.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol, yn eitem 5 ar y rhaglen - 'Amodau Gwaith Lleol' oherwydd bod ei wraig wedi derbyn y llythyr a bod y newidiadau yn effeithio arni yn ariannol.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mai 2018, fel rhai cywir.

## 3. AMODAU GWAITH LLEOL

Nododd y Cadeirydd bod yr eitem gerbron y Pwyllgor mewn ymateb i gais a dderbyniwyd gan ddau aelod o'r Pwyllgor, y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell, i drafod y llythyr a anfonwyd at staff y Cyngor yn eu hysbysu o benderfyniad Cabinet y Cyngor ar 13 Mawrth 2018 i fabwysiadu addasiadau i amodau gwaith y Cyngor.

Cyflwynodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yr adroddiad, gan nodi yr anfonwyd llythyr i staff ar 26 Mawrth i'w hysbysu o benderfyniad y Cabinet, yn ei enw ef fel Pennaeth yr Adran efo cyfrifoldeb am weithredu'r penderfyniad. Eglurodd yr anfonwyd llythyr dilynol ar 3 Ebrill yn ymddiheuro i staff am dôn y llythyr a'r dewis o eiriau a ddefnyddiwyd. Nododd bod yr ymddiheuriad yn un diffuant a oedd angen ei wneud. Pwysleisiodd bod gwers bwysig wedi ei ddysgu am yr angen i fod yn barchus.

Nododd y Cynghorydd Angela Russell ei diolch am onestrwydd y Pennaeth. Nododd ei bod yn poeni o ran effaith y llythyr ar forâl staff. Holodd a oedd y camgymeriad wedi ei wneud oherwydd effaith y toriadau gyda dim digon o staff i wneud y gwaith a'r pwysau arnynt. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, fel ag y bu iddo adrodd i gyfarfod herio perfformiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, nad oedd am guddio tu ôl i ddiffyg capasiti a'i fod yn cydnabod bod camgymeriad wedi ei wneud. Pwysleisiodd na fyddai'n digwydd eto a bod camau mewn lle i sicrhau hynny.

Nododd y Cynghorydd John Brynmor Hughes ei fod yn bresennol yng nghyfarfod herio perfformiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol a'i fod yn derbyn eglurhad y Pennaeth a'r ffaith bod gwersi wedi eu dysgu a'r addewid na fyddai sefyllfa o'r fath yn codi eto.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran pwy oedd wedi gweld y llythyr cyn ei anfon at staff, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod cyfreithiwr yn arbenigo yn y maes cyflogaeth, a oedd yn cynrychioli'r Swyddog Monitro, wedi edrych ar y llythyr i wirio ei fod yn ffeithiol gywir. Eglurodd bod tôn y llythyr yn fater iddo ef fel Pennaeth.

Holodd aelod os oedd y Prif Weithredwr wedi gweld y llythyr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol nad oedd y Prif Weithredwr wedi gweld y llythyr gan ei fod yn fater gweithredol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran faint o staff oedd wedi ymateb i'r llythyr, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod 50% wedi ymateb i'r llythyr. Eglurodd bod y llythyr ymddiheuriad a anfonwyd at staff yn nodi os nad oedd staff yn ymateb i'r llythyr, a'u bod yn bresennol yn y gwaith pan ddaw'r newidiadau i'r amodau gwaith i rym ar 1 Gorffennaf 2018, byddai eu presenoldeb yn cadarnhau eu bod yn derbyn y newidiadau.

Nododd aelod ei fod wedi derbyn copi o'r llythyr fel Clerc Llywodraethwyr ysgol er nad oedd yn y swydd ers 4 mlynedd. Holodd beth oedd effaith y llythyr ar forâl staff. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ei fod wedi dod i'r amlwg bod cofnodion yr Adran Addysg o ran ysgolion angen eu diweddaru. Eglurodd nad oedd rhai ysgolion yn hysbysu'r Adran Addysg pan fo newid. Nododd bod cofnodion yr Adran wedi eu diweddaru ers anfon y llythyr. O ran morâl staff, yn anorfod roedd effaith, gyda chymysgedd o ymateb gan staff gyda rhai heb eu heffeithio a rhai wedi teimlo pryder diangen oherwydd y llythyr gwreiddiol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran y gefnogaeth ar gael i staff, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol bod llinell gymorth ar gael i staff lle gallent siarad efo Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol i dderbyn sicrwydd o ran y sefyllfa a'i fod ef wedi siarad efo rhai unigolion ei hun.

Holodd aelod os oedd ymddiswyddiadau gan staff o ganlyniad i'r llythyr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol nad oedd unrhyw unigolyn wedi ymddiswyddo oherwydd y llythyr.

Nododd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'i fod yn gobeithio bod gwersi wedi eu dysgu. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth y gallai warantu nad oedd neb mwy siomedig nag ef bod hyn wedi digwydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Gosododd Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor y cyd-destun, gan nodi mai rôl y Pwyllgor oedd bodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod cynigion gwella adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion a oedd o fewn maes gwaith y pwyllgorau craffu eraill.

Cyfeiriodd at Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn cynnwys rhestr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2012/13 a 2017/18 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, a'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor yn erbyn y cynigion hynny ers i'r Pwyllgor drafod y mater yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2017. Eglurodd mai sylwadau gan yr Adran berthnasol y nodir o dan y pennawd 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella', gyda barn annibynnol swyddogion o Uned Cefnogi Busnes y Cyngor yn cael ei nodi o dan y pennawd 'Casgliad'.

Nododd mai mater i'r Pwyllgor oedd barnu os oeddent yn cytuno efo'r casgliad bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau' neu yn parhau 'ar waith'.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau:

- Bod adroddiad 'Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 2013/14' wedi ei gyflwyno gryn amser yn ôl. Pwy oedd yn cwblhau'r asesiadau iechyd ar gyfer plant oedd yn derbyn gofal ac oedd diffyg doctoriaid yn rheswm am y gostyngiad yn y ganran perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod?
- Bod y cynnydd o ran y cynigion gwella yn yr adroddiad a nodir uchod yn fater oedd angen sylw;
- Dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried craffu'r materion a amlygwyd gan adroddiadau 2013/14 a 2014/15 yr AGGCC, adroddiad 'Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?', ynghyd ag adroddiad 'Arolygiad Cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd), a'r gwaith a wnaed i ymateb i'r cynigion gwella;
- Dylid gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried craffu'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad 'Cyflawni â Llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion', a'r gwaith a wnaed i ymateb i'r cynigion gwella;
- Dylid derbyn cadarnhad o ran pa bwyllgor ddylai rhoi ystyriaeth i adroddiad 'Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau]';
- O ran yr adroddiad 'Diogelwch Cymunedol yng Nghymru', os oedd y mater yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fe ddylai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad ar y mater;
- Dylid derbyn eglurhad pam nad oedd 3 cynnig gwella o dan yr adroddiad 'Strategaeth Pobl' wedi eu cwblhau.

Holodd aelod os oedd amserlen o ran cwblhau'r gwaith i ymateb i'r cynigion gwella. Nododd Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor y byddai ystyriaeth i amserlen o ran cwblhau'r gwaith i ymateb i'r argymhellion pan gyflwynir diweddariad i'r Pwyllgor mewn 6 mis.

Cymerodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y cyfle i ddiweddaru'r aelodau o ran y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yng nghyswllt yr adroddiad 'Rheoli Risg - Asesiad sy'n seiliedig ar risg o drefniadau corfforaethol y Cyngor'. Cadarnhaodd y byddai adroddiad o ran trefniadau rheoli risg y Cyngor gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at gynnig gwella 6 o dan adroddiad 'Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm' - "Gwella'r trefniadau ar gyfer rhagfynegi incwm o daliadau drwy gynllunio senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd", a oedd wedi ei nodi "ar waith". Nododd bod yr argymhelliad yn ddyhead ond nid oedd yn fater craidd, tra rhoddir blaenoriaeth i ganolbwyntio ar waith arbedion a gwaith ynghlwm â chyllideb y Cyngor. Awgrymodd y dylid ystyried nodi bod y gwaith ynghlwm â'r argymhelliad penodol yma i'w wneud pan fo'r adnoddau ar gael a'i dynnu o'r rhestr i'w gyflwyno eto i'r Pwyllgor hwn.

Nododd aelod gan nad oedd yr argymhelliad uchod yn flaenoriaeth fe ddylid nodi ei fod 'wedi'i gwblhau'.

Cafwyd trafodaeth o ran blaen graffu achosion busnes newidiadau i wasanaethau i ymateb i gynnig gwella o adroddiad 'Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau'. Nododd aelod ei bryder o ran rôl aelodau cyffredin yn y broses ddemocrataidd gyda dyfodiad y drefn cabinet yn 2012. Ychwanegodd bod materion yn cael eu codi gan aelodau nad oedd yn derbyn ymateb. Nododd bod angen pont rhwng yr aelodau cyffredin a'r aelodau cabinet. Cyfeiriodd at gyfarfod diwethaf y Gweithgor Gwella Rheolaethau lle nad oedd yr Aelodau Cabinet perthnasol yn bresennol.

Nododd y Pennaeth Cyllid y cyflwynir adroddiad Cyllideb y Cyngor gerbron y Pwyllgor cyn i'r mater fynd gerbron y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Roedd materion megis ail-fodelu'r

Gwasanaeth Ieuenctid a datblygiadau yng nghyswllt Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi eu blaen graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Eglurodd bod cyfyngiad o ran y nifer o faterion y gellir eu hystyried.

Nododd aelod y dylid gofyn i'r Fforwm Craffu ystyried y sefyllfa o ran blaen graffu achosion busnes newidiadau i wasanaethau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad yn ddarostyngedig i nodi bod cynnig gwella 6 o dan adroddiad 'Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm' "wedi'i gwblhau";**
**(ii) gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried craffu'r materion a amlygwyd gan adroddiadau 2013/14 a 2014/15 yr AGGCC, adroddiad 'Helpu Pobl i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?', ynghyd ag adroddiad 'Arolygiad Cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu (Arolygiad ar y cyd gan AGGCC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd), a'r gwaith a wnaed i ymateb i'r cynigion gwella;**
**(iii) gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried craffu'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad 'Cyflawni â Llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion', a'r gwaith a wnaed i ymateb i'r cynigion gwella;**
**(iv) derbyn cadarnhad o ran pa bwyllgor ddylai rhoi ystyriaeth i adroddiad 'Rheoli asedau [Tir ac Adeiladau]';**
**(v) bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad yng nghyswllt yr adroddiad 'Diogelwch Cymunedol yng Nghymru', os oedd y mater yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor;**
**(vi) derbyn eglurhad pam nad oedd 3 cynnig gwella o dan yr adroddiad 'Strategaeth Pobl' wedi eu cwblhau;**
**(vii) gofyn i'r Fforwm Craffu ystyried y sefyllfa o ran blaen graffu achosion busnes newidiadau i wasanaethau.**

**5. CYFRIFON TERFYNOL 2017/18 – ALLDRO REFENIW**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid, gosododd y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Mai 2018. Nododd bod sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.

Tynnodd sylw at benderfyniad y Cabinet:

"1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2017/18.

1.2 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef –

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (100) |
| Plant a Theuluoedd | 100 |
| Addysg | 0 |
| Economi a Chymuned | (35) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amgylchedd (Rheoleiddio gynt) | (100) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (82) |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (66) |
| Cyllid | (66) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (67) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn Atodiad 2) –

- Trosglwyddo £457k, cyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol dros y gaeaf i gronfa benodol er mwyn cefnogi hyblygrwydd a hwyluso trawsffurfio yn y maes Oedolion i'r dyfodol.
- Cynaeafu (£37k) o'r tanwariant sef y swm uwchlaw (£100k) Oedolion, Iechyd a Llesiant, i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.
- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £676k i leddfu rhan helaeth o orwariant 2017/18, gan ganiatáu iddynt symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £207k ei ddileu gorwariant yr Adran Addysg, tra bod polisïau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu.
- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £203k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2018/19.
- Trosglwyddo £378k o danwariant 2017/18 yr Adran Amgylchedd i gronfa benodol, yn ymwneud â bysus a chost llwybrau, i'w ddefnyddio yn 2018/19.
- Cynaeafu (£89k) o danwariant yr Adran Amgylchedd sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario eleni.
- Cynaeafu (£894k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol (ar Ostyngiad Treth Cyngor, bidiau a chyllidebau a ddychwelwyd gan adrannau ac ar benawdau eraill), a'i drosglwyddo i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2017/18.
- Trosglwyddo £66k o'r Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol, sef y balans sydd angen, i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, sef:

- Cynaeafu (£2.915m).
- Neilltuo £2.749m ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Neilltuo £166k ar gyfer materion gwastraff."

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid bod y sefyllfa ariannol yn gyffredinol yn un derbyniol iawn. Eglurodd bod yr Aelodau Cabinet perthnasol wedi egluro'r rhesymau am y gorwariant yn yr Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yng nghyfarfod y Cabinet ar 22 Mai 2018. Cadarnhaodd y derbyniwyd sicrwydd yn y cyfarfod bod y gorwariant yn derbyn sylw.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod y tanwariant yn yr Adran Addysg, Adran Amgylchedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru yn niwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd bod yr arian grant wedi ei briodoli i ymrwymiadau ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid tra'n croesawu derbyn arian grant nid oedd yn ddelfrydol i'r Cyngor ei dderbyn yn y cyfnod cyn cau'r cyfrifon. Eglurodd y cymerir y cyfle i drafod efo Llywodraeth Cymru o ran blaen raglennu taliadau arian grant er mwyn i'r Cyngor allu blaen gynllunio.

Nododd aelod ei ddiolch am y gwaith gan ategu sylw'r Aelod Cabinet bod angen cysylltu efo Llywodraeth Cymru o ran yr angen i flaen raglennu taliadau grant oherwydd bod derbyn arian grant ar ddiwedd blwyddyn ariannol yn gwneud gwaith y swyddogion yn anodd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion a'r Aelod Cabinet i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Rhoddwyd diweddariad yn rheolaidd i'r Pwyllgor o ran y sefyllfa gorwariant ar dacsis i gludo disgyblion i ysgolion. Roedd yr Adran Addysg wedi derbyn £207k i ddileu'r

gorwariant, tra bod polisïau a threfniadau cludiant yn cael eu hadolygu. Adroddir ar y sefyllfa yn yr adroddiad adolygiad cyllideb nesaf;

- O ran y rheswm am y gorwariant o dan y pennawd 'Gwasanaeth Darparu' yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, nid oedd incwm pres cinio yn achos am y gorwariant. Roedd incwm cinio yn effeithio ar ysgolion uwchradd penodol a'r Adran Addysg yn y sector gynradd;
- O ran y golled incwm ar ffioedd parcio, cynyddwyd targed incwm ffioedd parcio 2017/18 yn fwy na'r hyn a gasglwyd yn 2017/18, er mwyn cyfrannu at arbedion yr Adran Amgylchedd. O ystyried yr incwm a gasglwyd o ran meysydd parcio o £1.795m roedd diffyg incwm o £50,000 yn ganran bach iawn;
- Yng nghyswllt gorwariant o ran Treth Cyngor o ganlyniad i Swyddfa'r Prisiwr Dosbarth ganiatáu i 282 eiddo drosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i Drethi Annomestig, bod yr Ymchwiliad Craffu Tai Gwyliau a Threthi, swyddogion a'r Aelod Cabinet wedi rhybuddio bod risg byddai colledion o ran y premiwm treth ar ail gartrefi oherwydd nad oedd y ddeddfwriaeth yn hollol gadarn. Pan amcangyfrifwyd yr incwm posib nodwyd na fyddai'r Cyngor yn derbyn £5m oherwydd y premiwm ond yn realistig mai tua £2m byddai'r Cyngor yn ei dderbyn. Nid oedd y sefyllfa yn annisgwyl, ac nid oedd rheswm ar hyn o bryd i addasu'r amcangyfrif o'r lefel incwm y disgwylir ei dderbyn ym mlwyddyn ariannol 2018/19. Gwelwyd bod nifer y trosglwyddiadau i'r rhestr trethi annomestig yn 2017/18 dros 50% yn uwch na mewn blynyddoedd blaenorol, gydag effaith ôl-ddyddio rhai o'r ceisiadau i 2010/11. Roedd yr Aelod Cabinet Cyllid wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r mater yn y mis diwethaf;
- Bod y sefyllfa o ran y premiwm treth ar ail gartrefi yn cael ei fonitro gan yr Aelod Cabinet Cyllid yn rheolaidd, ac roedd ef o'r farn bod angen deddfwriaeth i fynnu hawl cynllunio er mwyn newid tŷ i fusnes ac fe nodwyd hyn yn y llythyr a anfonwyd at Lywodraeth Cymru. Derbyniwyd cadarnhad gan y Prisiwr Dosbarth nad oedd ganddynt yr adnoddau staffio i arolygu'r drefn. Cyflwynir adroddiad i gyfarfod y Cabinet yn yr Hydref ar y sefyllfa o ran premiwm treth ar ail gartrefi.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

## 6. RHAGLEN GYFALAF 2017/18 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn rhoddi manylion ar adolygiad diwedd y flwyddyn o'r rhaglen gyfalaf.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Mai 2018. Nodwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario dros £23m yn 2017/18 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £11m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol. Cadarnhawyd y byddai £15.6m o gyllideb gwariant yn llithro o 2017/18, o'i gymharu â llithriad o £9.9m ar ddiwedd 2016/17. Ni achoswyd unrhyw golled ariannu grant i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

Holodd aelod os oedd rhaid i'r Cyngor wario'r derbyniadau grant ar gyfer adnewyddu ffyrdd a chludiant a dderbyniwyd yn chwarter olaf 2017/18 yn syth. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod cynghorau yn cael cario arian drosodd ac fe fyddai rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario yn 2018/19.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Pennaeth Cyllid bod tystiolaeth y derbynnir mwy o arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, os nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwario'r holl arian a glustnodwyd ar gyfer prosiectau penodol byddent yn trosglwyddo'r arian i'r cynghorau lleol.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid ei ddiolch am y gwaith a llongyfarchodd adrannau'r Cyngor ar eu llwyddiant i ddenu grantiau er budd trigolion Gwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

## 7. TROSOLWG ARBEDION 2017/18: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a oedd yn adrodd ar sefyllfa ddiweddaraf gwireddu cynlluniau arbedion.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 22 Mai 2018. Nododd bod 108 o 122 o gynlluniau arbedion 2017/18 wedi eu gwireddu'n llawn neu'n rhannol yn amserol. Cadarnhaodd yn nhermau ariannol bod 81% o'r arbedion wedi'u gwireddu.

Nododd bod y Cabinet ar 13 Chwefror 2018 wedi penderfynu cyfuno amryw o gynlluniau unigol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i ffrydiau gwaith oedd yn cyflawni arbedion o'r un cyllidebau. Rhagwelwyd y byddai hyn yn galluogi'r Adran yn ystod 2018/19 i wneud cynnydd sylweddol tuag at wireddu'r arbedion a oedd wedi llithro.

Adroddodd bod rhagolygon o wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 yn gyffredinol addawol.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y trosolwg arbedion.**

## 8. DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Tynnwyd sylw mai cyfrifon drafft heb eu harchwilio a gyflwynir yma er gwybodaeth, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 27 Medi 2018. Adroddwyd bod linc i'r datganiad wedi ei anfon i holl aelodau'r Cyngor ar 20 Mehefin a bod y datganiad yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, archwilwyr allan y Cyngor a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ers 18 Mehefin.

Manylodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar gynnwys y Datganiad o Gyfrifon.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Cyllid at y Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed gan nodi ei fod yn gronfa strategol ar gyfer cyflawni yn unol â Chynllun y Cyngor gydag oddeutu £5m wedi ei glustnodi eisoes. Eglurodd bod y Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol ar gyfer pontio gwariant cyn cyflawni rhai o'r cynlluniau arbedion.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt y Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed, eglurodd y Pennaeth Cyllid bod yr arian ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor. Ymhelaethodd bod £50,000 wedi ei ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 er mwyn gwireddu'r cynllun 'Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion i Wynedd'. Eglurodd bod Adrannau'r Cyngor yn dod gerbron y Cabinet efo syniadau i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun efo mwy o fanylder.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod yr Uwch Reolwr Cyllid a'r tîm o gyfrifwyr wedi gwneud llawer o'r gwaith ar y Datganiad o Gyfrifon, a'i fod ef wedi gwirio'r Datganiad. Adroddodd y byddai Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn ar gyfer 2017/18 cyn archwiliad yn dod gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Gorffennaf 2018.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Cyllid i swyddogion yr Adran Gyllid am eu gwaith cywir a manwl gan nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru yn canmol cyfrifon y Cyngor a'i fod yn obeithiol y

byddent yn gwneud eleni hefyd. Cymerodd y cyfle i ddiolch i swyddogion y Cyngor o ran eu hymateb i ofynion ariannol anodd.

Ategodd y Cadeirydd y sylwadau uchod gan ddiolch am y gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2017/18.**

## 9. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

Nodwyd bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried yr Egwyddorion Craidd a'r Is-egwyddorion yn Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government 2016*, ac wedi llunio Cofrestr Risg Llywodraethu. Tynnwyd sylw bod y Gofrestr Risg Llywodraethu yn adnabod risgiau mewn 22 o feysydd llywodraethu gwahanol, gan nodi'r rheolaethau er mwyn lliniaru'r risgiau. Nodwyd bod camau gweithredu ar gyfer y meysydd oedd â blaenoriaeth uchel neu ganolog wedi eu nodi yn y datganiad.

Nododd aelod ei diolch am y gwaith. Cyfeiriodd at yr asesiad effaith o dan y pennawd 'Cyfreithlondeb', nododd er ei bod yn cydnabod bod y ddogfen ar lefel strategol uchel ei bod o'r farn bod yr asesiad yn eithaf cyfyng gan ganolbwyntio ar rôl y Swyddog Monitro a phenderfyniadau ffurfiol. Nododd bod nifer o faterion yn cael eu codi yng nghyfarfodydd y Pwyllgor o ran cydymffurfio a deddfau ar draws y Cyngor, er enghraifft, yn y meysydd Iechyd a Diogelwch a Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y ceisir peidio dyblygu gwybodaeth o dan benawdau amrywiol. Eglurodd bod materion yn y meysydd Iechyd a Diogelwch a Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yn cael sylw o dan y pennawd 'Rheoli Risg'. Pwysleisiodd mai Datganiad Llywodraethu oedd gerbron a bod materion perfformiad yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg at y pennawd 'Rheolaeth Fewnol', gan nodi bod y ffin o ran rôl aelodau o ran craffu ac archwilio yn aneglur gyda'r angen i ddatblygu rhaglen hyfforddi er mwyn i'r aelodau dderbyn arweiniad. Nododd y byddai adroddiad ar y mater gerbron y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2017/18;**
**(ii) argymell bod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn arwyddo'r datganiad.**

## 10. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD 2017/18

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Cyllid adroddiad yng nghyswllt cyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn 2017/18 yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964. Nodwyd bod y cyfrifon yn cynnwys harbyrau Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Pwllheli.

Nodwyd yr ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol lai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Eglurwyd bod cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol ac nid oedd rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn.

Adroddwyd y byddai'r cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac os byddai newidiadau, cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod y Pwyllgor ar 27 Medi 2018.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) derbyn a chymeradwyo'r wybodaeth yn yr atodiadau, sef -**

- **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2017/18 – Atodiad A; a**
- **Ffurflen datganiadau cyfrifon 2017/18, ar gyfer archwiliad – Atodiad B.**

**(ii) awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen datganiadau cyfrifon 2017/18.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.20pm

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **19 Gorffennaf 2018** |
| TEITL | **DATGANIAD O GYFRIFON 2017/18 CRONFA BENSIWN GWYNEDD (am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018)** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD | **Derbyn Datganiad o Gyfrifon Statudol y Gronfa Bensiwn (drafft cyn archwiliad) er gwybodaeth** |
| AWDURON | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, a Caroline L Roberts, Rheolwr Buddsoddi** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Datganiad o Gyfrifon statudol y Gronfa Bensiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

1.2 Y ddogfen ddilynol yw'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol, 33 tudalen o hyd ym mhob iaith. Cyflwynwyd y Datganiad i aelodau Pwyllgor Pensiynau'r Cyngor ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn lleol ar 16 Gorffennaf.

1.3 Nid yw'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wedi'u harchwilio eto, felly bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn cyflwynir fersiwn terfynol er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 27 Medi 2018 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofynion o dan y SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) sydd yn seiliedig ar God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol sy'n berthnasol i Ddatganiad Cyfrifon y Gronfa ar gyfer 2017/18.

1.5 Eleni, am y tro cyntaf, yn unol â'r Cod Ymarfer diweddaraf, cyflwynir Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar wahân i Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Gronfa Bensiwn, ond yn dilyn addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, rhoddwyd y cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin i'r Swyddog Cyllid Statudol (ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, y Pennaeth Cyllid).

2.2 Erbyn hyn, nid oes raid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn, ond fel "arfer dda" y'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ER GWYBODAETH.

2.3 Diau y bydd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu awydd ystyried a deall y cynnwys rŵan, fel paratoad ar gyfer cymeradwyo'r fersiwn terfynol ym Medi, ac i arfogi eu hunain gyda'r wybodaeth ar gyfer ystyried risgiau perthnasol yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgorau, bydd Datganiad o Gyfrifon 2017/18 yn destun y broses archwilio blynyddol gan gwmni Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu hapwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Eleni, am y tro cyntaf, bydd Deloitte yn cyflogi archwilwyr cronfeydd pensiwn arbenigol i'r perwyl hyn.

3.2 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018, bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r cyhoedd, ar wefan y Cyngor, bod y cyfrifon ar gael i'w harolygu am gyfnod o 20 diwrnod. Fel rhan o'r broses archwilio, bydd gan etholwyr llywodraeth leol gyfle i holi'r archwiliwr allanol ynghylch cyfrifon y Gronfa Bensiwn.

3.3 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2017/18 y Gronfa Bensiwn i gyfarfod 27 Medi 2018 o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad 'ISA260' gan archwilwyr allanol Deloitte ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.4 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw darparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig y Cyngor, cyflogwyr y Gronfa, ac eraill sydd â diddordeb.

3.5 Bydd y fersiwn terfynol o Ddatganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn hefyd yn cael eu cyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 10 Hydref 2018.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn (yn amodol ar archwiliad) am 2017/18.

4.2 Bydd swyddogion Cyllid yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Gorffennaf i ymateb i unrhyw gwestiynau sydd gan aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â'r cyfrifon hyn.

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 3 |
| Cyfrifon y Gronfa | 4 - 5 |
| Nodyn 1, Disgrifiad o'r Gronfa | 6 - 8 |
| Nodyn 2, Sail Darpariaeth | 8 |
| Nodyn 3, Crynodeb o Bolisiau Cyfrifeg Arwyddocaol | 8 - 11 |
| Nodyn 4, Dyfarniad Allweddol wrth Weithredu Polisiau Cyfrifo | 11 |
| Nodyn 5, Rhagdybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Fffynonellau Pwysig Eraill sy'n rhoi Ansicrwydd wrth Amcangyfrifo | 11 - 12 |
| Nodyn 6, Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen | 12 |
| Nodyn 7, Cyfraniadau Derbyniadwy | 13 |
| Nodyn 8, Trosglwyddiadau i Mewn o Gronfeydd Pensiwn Eraill | 13 |
| Nodyn 9, Buddion a Dalwyd | 14 |
| Nodyn 10, Taliadau i Rai Sy'n Ymadael | 14 |
| Nodyn 11, Costau Rheoli | 14 |
| Nodyn 12, Costau Gweinyddol, Arolygiaeth a Llywodraethu | 15 |
| Nodyn 13, Costau Rheoli Buddsoddiadau | 15 |
| Nodyn 14, Incwm Buddsoddi | 16 |
| Nodyn 15, Treth ar Incwm | 16 |
| Nodyn 16, Buddsoddiadau | 16 – 18 |
| Nodyn 17, Offerynnau Ariannol | 19 - 21 |
| Nodyn 18, Natur a Graddfa'r Risgiau sy'n Codi o Offerynnau Ariannol | 22 – 27 |
| Nodyn 19, Trefniadau Cyllido | 28 – 29 |
| Nodyn 20, Gwerth Cyfredol Actiwaraidd y Buddion Ymddeol sydd wedi'u Haddo | 29 – 30 |
| Nodyn 21, Asedau Cyfredol | 30 |
| Nodyn 22, Ymwymiadau Cyfredol | 31 |
| Nodyn 23, Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC) | 31 |
| Nodyn 24, Trafodion Partion Cysylltiedig | 31 - 32 |
| Nodyn 25, Ymrwymiadau Dan Gontractau Buddsoddi | 32 |
| Nodyn 26, Asedau wrth Gefn | 33 |
| Nodyn 27, Colledion yn Sgil Amhariadau | 33 |
| Nodyn 28, Cyhoeddiadau'r Gronfa Bensiwn | 33 |

# ADRODDIAD NARATIF

**Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2017/18 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 4 i 33.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau eraill ar gyfer gweithwyr yr holl cyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys y Chynghorau Ynys Mon, Conwy a Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, amrwiol cynghorau tref a cymunedol a cyrff rhestredig a caniataol eraill.

Yn ystod y flwyddyn roedd gwerth y Gronfa yn codi £73.3 miliwn.

Mae gan y Gronfa dau ddatganiad pwysig sydd yn gosod y strategaethau penodol i'r gronfa er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Cyllido – mae'r datganiad yn gosod y strategaeth penodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymiadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd wrth symud ymlaen. Cynhelir adolygiad bob tair mlynedd yn dilyn y prisiad actiwaraidd ac yn cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.

- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – Mae'r datganiad yn gosod y mathau buddsoddiadau a terfynau llydan ar gyfer bob math o buddsoddiad.

Mae'r dau ddatganiad ar gael ar safle we y gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynol i gael Prisiad Actiwaraidd bob tair mlynedd er mwyn sefydlu'r lefel asedau ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Bydd y prisiad nesaf fel ar 31 Mawrth 2019 a gwneir unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwngwynedd.org.uk

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Caroline Roberts
Rheolwr Buddsoddi
01286 679128

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

# CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN**

Mae'n ofynnol ar Cyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (yn effeithiol yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID**

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2018, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**28 Mehefin 2018**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD
# 2017/18

## CYFRIF Y GRONFA AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

| 31 Mawrth 2017 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| | **Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa** | | |
| 67,695 | Cyfraniadau derbyniadwy | 7 | 82,302 |
| 7 | Llog ar gyfraniadau gohiriedig | | 1 |
| 2 | Incwm ar gyfrifo ysgariad | | 1 |
| 0 | Incwm ar gyfrifo gwerth trosglwyddo | | 1 |
| 5,893 | Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill | 8 | 4,360 |
| **73,597** | **Cyfanswm y cyfraniadau a dderbyniwyd** | | **86,665** |
| (53,982) | Buddion sy'n daladwy | 9 | (53,911) |
| (3,970) | Taliadau i rai sy'n ymadael | 10 | (2,306) |
| **(57,952)** | **Cyfanswm y buddion a dalwyd** | | **(56,217)** |
| **15,645** | | | |
| **(11,641)** | Costau rheolaeth | 11 | **(13,367)** |
| | **Enillion ar fuddsoddiadau** | | |
| 12,886 | Incwm buddsoddi | 14 | 15,155 |
| (378) | Treth ar incwm | 15 | (252) |
| 322,316 | Elw a (cholled) wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 16 | 41,758 |
| **334,824** | **Enillion net o dreth ar fuddsoddiadau** | | **56,661** |
| **338,828** | **Cynnydd yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn** | | **73,742** |
| | **Asedau net y Gronfa** | | |
| 1,525,405 | Ar 1 o Ebrill | | 1,864,233 |
| 338,828 | Cynnydd yn yr asedau net | | 73,742 |
| **1,864,233** | | | **1,937,975** |

# CYFRIF Y GRONFA AR DIWEDD Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

| 31 Mawrth 2017 | | Nodiadau | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 1,798,325 | Asedau buddsoddi | 16 | 1,859,635 |
| 49,248 | Adneuon arian parod | 16 | 44,352 |
| **1,847,573** | | | **1,903,987** |
| (235) | Ymrwymiadau buddsoddi | 16 | (4,690) |
| 20,984 | Asedau cyfredol | 21 | 42,626 |
| (4,089) | Ymrwymiadau cyfredol | 22 | (3,948) |
| **1,864,233** | | | **1,937,975** |

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymiadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymiadau'r Gronfa ym mhrisiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2016) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa eto yn gallu cwrdd â 100% o ymrwymiadau'r dyfodol. Dangosir y gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 20.

# NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd. Y Cyngor yw'r endid adrodd ar gyfer y Gronfa bensiwn hon. Crynodeb o'r Gronfa yw'r disgrifiad a ganlyn. Am fwy o fanylion, dylid cyfeirio at Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd 2017/18 a'r pwerau statudol sy'n tanategu'r cynllun, sef Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

a) **Cyffredinol**

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'n gynllun pensiwn sy'n seiliedig ar gyfraniadau a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

**b) Aelodaeth**

Mae bod yn aelod o'r CPLlL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLlL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

| Cyrff ar yr atodlen | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Ysgol Bryn Eilian |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Ysgol Emrys ap Iwan |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Ysgol Pen y Bryn |
| Grŵp Llandrillo – Menai | Ysgol Uwchradd Eirias |
| GWE | NWTRA |
| **Cyrff a benderfynir** | |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | Cyngor Tref Ffestiniog |
| Cyngor Dinas Bangor | Cyngor Tref Llandudno |
| Cyngor Tref Abergele | Cyngor Tref Llangefni |
| Cyngor Tref Bae Colwyn | Cyngor Tref Porthaethwy |
| Cyngor Tref Biwmares | Cyngor Tref Towyn a Bae Cinmel |
| Cyngor Tref Caergybi | Cyngor Tref Tywyn |
| Cyngor Tref Caernarfon | Cyngor Tref Conwy |
| Cyngor Cymuned Trefriw (ymuno 1 Mehefin 2017) | |
| **Cyrff a ganiateir** | |
| Addysg Oedolion Cymru (cynt CAG Coleg Harlech) | Cymdeithas Gogledd Cymru'r Deillion |
| CAIS | Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy |
| Canolfan Cynghori Conwy | Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin |
| Canolfan Cynghori Ynys Môn | Mantell Gwynedd |
| Cwmni Cynnal | Medrwn Môn |
| Cwmni'r Frân Wen | Menter Môn |
| Cydbwyllgor Claddu Caergybi | |
| **Cyrff cymunedol a ganiateir** | |
| Cartrefi Conwy | Cartrefi Cymunedol Gwynedd |
| **Cyrff trosglwyddai a ganiateir** | |
| ABM Catering | Caterlink |
| Superclean 1 | Dawnus (ymuno 1 Ebrill 2017) |

c) **Cyllid**

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau CPLIL (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 ac maent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy'r aelod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018. Hefyd mae'r cyflogwyr yn gwneud cyfraniadau sy'n cael eu gosod yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd a gynhelir teirblynyddol. Gweithredwyd cyfraniadau cyflogwr newydd ar gyfer y tair mlynedd o 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 yn dilyn y prisiad a wnaethpwyd ar 31 Mawrth 2016.

d) **Buddion**

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

| | Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008 | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol. | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol. |
| **Lwmp swm** | Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. | Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

## NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

O 1 Ebrill 2014, daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod.

| | Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 |
|---|---|
| **Pensiwn** | Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth<br>1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrisio (CARE) |
| **Lwmp Swm** | Dim lwmp swm awtomatig.<br>Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir. |

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

Mae'r buddion yn gysylltiedig â mynegai er mwyn glynu at y raddfa chwyddiant cyfredol.

## NODYN 2 – SAIL DARPARIAETH

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2018. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol na'r gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 20 y cyfrifon hyn.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

### Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

#### a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol, gan weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd, yn seiliedig ar groniad ar y raddfa ganrannol a argymhellir gan actiwari'r Gronfa yn y cyfnod cyflogres y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn ddaliadwy dan atodlen cyfraniadau'r cynllun actwari neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad terfyn.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymiadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus hyd flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

#### b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo'n cynrychioli'r symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd naill ai wedi ymuno neu sydd wedi gadael y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol ac maent yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler Nodiadau 8 a 10).

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn i'r Gronfa ac allan ohoni'n cael eu gwneud yn seiliedig ar dderbynion a thaliadau, ac fel arfer mae hyn yn digwydd pan dderbynnir neu pan ryddheir ymrwymiadau aelod.

**NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn i'r Gronfa gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion y cynllun ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 8).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

**c) Incwm buddsoddi**

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n berthnasol i'r offeryn ariannol ar y dyddiad pan geir y llog neu ar darddiad y llog. Mae incwm yn cynnwys amorteiddiad unrhyw ddisgownt neu bremiwm, costau trafodi neu wahaniaethau eraill rhwng swm cario cychwynnol yr offeryn a'i swm pan fo wedi aeddfedu sydd wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y raddfa llog perthnasol.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

**Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau**

**d) Buddion sy'n daladwy**

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymiadau cyfredol.

**e) Trethiant**

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran 1(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

**f) Costau rheoli**

Nid yw'r Côd yn gofyn am unrhyw ddadansoddiad o gostau gweinyddol y gronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn cael tryloywder gwell, mae'r Cyngor yn cyhoeddi costau rheoli'r gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Costs.*

**Costau gweinyddol**

Cyfrifir am yr holl gostau gweinyddol ar sail croniadau. Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Telir am gostau cysylltiol rheoli, llety a gorbenion eraill o'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

**Costau arolygu a llywodraethu**

Cyfrifir am yr holl gostau arolygu a llywodraethu ar sail croniadau. Telir am gostau staff, rheoli, llety a gorbenion eraill yn ymwneud ag arolygu a llywodraethu'r Gronfa yn unol â pholisi'r Cyngor.

**Costau rheoli buddsoddiadau**

Cyfrifir am yr holl gostau rheoli buddsoddiadau yn seiliedig ar groniad.

**NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)**

Cytunir ar ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r ceidwad allanol yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth ac felly maent yn cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid. Yn ogystal roedd y Gronfa wedi negodi gyda Fidelity International y dylai elfen o'u ffi fod yn gysylltiedig â'u perfformiad. Daeth y trefniant hwn i ben ar 30 Medi 2016, ac ers hynny mae'r ffi yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau dan eu rheolaeth.

Mae cost derbyn cyngor ar fuddsoddiadau gan ymgynghorwyr allanol wedi'i gynnwys dan ffioedd rheoli buddsoddiadau.

Mae cyfran o gostau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan swyddogion yn rheoli buddsoddiadau yn cael ei godi ar y Gronfa.

**Datganiad asedau net**

**g) Asedau ariannol**
Mae asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ased.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu fel a ganlyn:

i) Buddsoddiadau a ddyfynnir ar y farchnad
Penderfynir gwerth buddsoddiad lle bo pris marchnad ar gael yn rhwydd ar sail dyfarniad y pris marchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifo.

ii) Gwarantau llog sefydlog
Cofnodir gwarantau llog sefydlog ar werth marchnad net yn seiliedig ar eu cynhyrchion cyfredol.

iii) Buddsoddiadau heb eu dyfynnu
Mae gwerth teg buddsoddiadau ble nad yw'r dyfyniadau marchnad ar gael yn hawdd, yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Mae stociau heb eu dyfynnu yn cynnwys buddsoddiadau cydgyfrannog mewn eiddo, is adeiladwaith, stociau dyled ac ecwiti preifat. Mae'r prisiad o'r cydgyfraniadau yma neu stociau a ddelir yn uniongyrchol yn cael eu gwneud gan y rheolwr buddsoddi neu endid cyfrifol a gynghorir fel pris uned neu stoc. Mae'r safonau prisio a ddilynir yn y prisiadau yma yn cadw at ganllawiau'r diwydiant neu at safonau a osodwyd yn nogfennau cyfansoddol y pwl neu'r cytundeb rheoli.
- Caiff buddsoddiadau mewn eiddo heb eu dyfynnu eu prisio ar werth yr ased net neu ar bris unigol a gynghorir gan y rheolwr buddsoddi.
- Caiff buddsoddiadau mewn cronfeydd ecwiti preifat a phartneriaethau cofrestredig heb eu dyfynnu eu prisio ar sail rhaniad y Gronfa o'r asedau net yn y Gronfa ecwiti preifat neu'r bartneriaeth gyfyngedig gan ddefnyddio'r datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddir gan y rheolwyr buddsoddi priodol mewn cydymffurfiad ag arweiniad SAARh. Mae'n bwysig adnabod natur oddrychol uchel o bennu gwerth teg ar fuddsoddiadau ecwiti preifat. Maent yn reddfol seiliedig ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych ymlaen ac sy'n cynnwys nifer fawr o ffactorau.

iv) Offerynnau buddsoddi cydgyfrannog
Mae offerynnau buddsoddi cydgyfrannog yn cael eu prisio ar bris bid cau'r farchnad os yw prisiau bid a chynnig yn cael eu cyhoeddi; neu os mai dim ond un pris sydd ar gael, yna'r pris unigol adeg cau'r farchnad. Yn achos offerynnau buddsoddi cydgyfrannog sydd yn gronfeydd croniad, mae'r newid yng ngwerth y farchnad yn cynnwys incwm sydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gronfa, net o unrhyw dreth atal berthnasol.

**h) Trafodion arian tramor**
Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cynrychioli'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balasau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian parod, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

**i) Arian a chywerthoedd arian**
Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw. Mae'r hyn a ddisgrifir fel 'Cyfwerth ag Arian Parod' yn cael eu diffinio fel buddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

**j) Ymrwymiadau ariannol**
Mae'r Gronfa'n cydnabod ymrwymiadau ariannol fel gwerth teg ohonynt ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn agored i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwn, bydd y Gronfa'n cydnabod unrhyw enillion neu golledion a ddaw yn sgil newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad.

**k) Gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo**
Asesir gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion SCC19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan SCC26, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraidd cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 20).

**l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol**
Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, The Equitable Life Assurance Society a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag adran 4(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (OS 2009/3093); yn hytrach fe'u datgelir fel nodyn (Nodyn 23).

## NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISÏAU CYFRIFO

**Buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith heb eu dyfynnu**
Mae'n bwysig cydnabod natur hynod oddrychol pennu gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith. Maent yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu ac is adeiladwaith gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2018 yn £104 miliwn (£110 miliwn ar 31 Mawrth 2017).

**Ymrwymiadau'r gronfa bensiwn**
Cyfrifir ymrwymiadau'r gronfa bensiwn teirblynyddol gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 19. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y datganiad asedau net ar 31 Mawrth 2018, ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

## NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY'N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO (parhad)

| Eitem | Ansicrwydd | Effaith os yw'r gwir ganlyniadau'n wahanol i'r rhagdybiaethau |
|---|---|---|
| Dyledwyr | Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Gronfa falans amrywiol ddyledwyr o £5.6m. Awgrymodd adolygiad o falansau arwyddocaol nad oedd hi'n briodol i wneud unrhyw amhariad o'r dyledion. | Pe byddai'r graddfeydd casglu'n dirywio, byddai angen ail-ystyried y penderfyniad hwn. |
| Ecwiti preifat ac is adeiladwaith | Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn cael ei bennu'n unol â arweiniad y British Venture Capital Association. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru'n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad. | Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith yn y datganiadau ariannol yn £104 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi'i nodi'n rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon. |

## NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl dyddiad y fantolen i'w adrodd.

## NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIWYD

### Yn ôl categori

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 52,439 | Cyflogwyr | 66,372 |
| 15,256 | Gweithwyr/Aelodau | 15,930 |
| **67,695** | | **82,302** |

### Yn ôl awdurdod

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 23,210 | Cyngor Gwynedd | 29,868 |
| 40,231 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 48,301 |
| 1,514 | Cyrff a ganiateir | 1,674 |
| 2,215 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 1,957 |
| 252 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 206 |
| 219 | Cyrff a benderfynir | 242 |
| 54 | Cronfa gaeedig* | 54 |
| **67,695** | | **82,302** |

*Cronfa gaeedig - Dyma'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan Bwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn a oedd yn arfer bod yn gyrff a ganiateir ond bellach sydd yn gronfa gaeedig.

### Yn ôl cyfraniad

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 15,256 | Cyfraniadau arferol gweithwyr | 15,930 |
| 46,570 | Cyfraniadau arferol cyflogwyr | 47,186 |
| 5,869 | Cyfraniadau adfer diffyg cyflogwyr | 19,186 |
| **67,695** | | **82,302** |

## NODYN 8 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 1,315 | Trosglwyddiadau grŵp | 0 |
| 4,578 | Trosglwyddiadau unigol | 4,360 |
| **5,893** | | **4,360** |

## NODYN 9 – BUDDION A DALWYD

### Yn ôl categori

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 41,081 | Pensiynau | 42,708 |
| 11,093 | Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm | 9,670 |
| 1,808 | Buddion marwolaeth – lwmp swm | 1,533 |
| **53,982** | | **53,911** |

### Yn ôl awdurdod

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 15,233 | Cyngor Gwynedd | 15,454 |
| 25,701 | Cyrff eraill ar yr atodlen | 26,173 |
| 1,561 | Cyrff a ganiateir | 1,615 |
| 1,095 | Cyrff cymunedol a ganiateir | 812 |
| 173 | Cyrff trosglwyddo a ganiateir | 42 |
| 58 | Cyrff a benderfynir | 70 |
| 10,161 | Cronfa gaeedig | 9,745 |
| **53,982** | | **53,911** |

## NODYN 10 – TALIADAU I RAI SY'N YMADAEL

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 103 | Ad-daliadau i aelodau sy'n ymadael â'r gwasanaeth llai ad-daliadau treth | 143 |
| 11 | Taliadau i aelodau sy'n ymuno â chynllun y wladwriaeth | 5 |
| 3,856 | Trosglwyddiadau unigol | 2,158 |
| **3,970** | | **2,306** |

## NODYN 11 – COSTAU RHEOLI

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 1,242 | Costau gweinyddol | 1,261 |
| 10,343 | Costau rheoli buddsoddiadau (Nodyn 13) | 12,046 |
| 56 | Costau arolygaeth a llywodraethu | 60 |
| **11,641** | | **13,367** |

Paratowyd y dadansoddiad hwn o gostau rheoli Cronfa Pensiwn Gwynedd yn ystod y cyfnod yn unol â chanllawiau CIPFA.

## NODYN 12 – COSTAU GWEINYDDOL, AROLYGIAETH A LLYWODRAETHU

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Costau gweinyddol** | |
| 486 | Costau staff uniongyrchol | 514 |
| 293 | Costau uniongyrchol eraill | 264 |
| 303 | Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG | 357 |
| 33 | Ffioedd archwilio allanol | 34 |
| 128 | Ffioedd actiwaraidd | 92 |
| **1,243** | | **1,261** |
| | **Costau arolygaeth a llywodraethu** | |
| 55 | Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol | 60 |
| **1,298** | | **1,321** |

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety. Gweler manylion pellach yn Nodyn 24.

## NODYN 13 – COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| 2016/17 | | 2017/18 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 10,258 | Ffioedd rheoli | 11,933 |
| 45 | Ffioedd gwarchodaeth | 50 |
| 3 | Gwasanaeth monitro perfformiad | 8 |
| 37 | Ffioedd ymgynghoriaeth buddsoddi | 55 |
| **10,343** | | **12,046** |

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiad a grëwyd yn uniongyrchol gan y Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno.

Mae'r costau rheoli buddsoddiad uchod yn cynnwys £22,562 (2016/17 £322,972) mewn perthynas â ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad a delir i un o reolwyr buddsoddi'r Gronfa. Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau (gweler Nodyn 16a).

## NODYN 14 – INCWM BUDDSODDI

| 2016/17<br>£'000 | | 2017/18<br>£'000 |
|---|---|---|
| 427 | Ecwiti'r DU | 914 |
| 6,405 | Ecwiti tramor | 6,748 |
| 1,239 | Ecwiti preifat | 544 |
| 207 | Is adeiladwaith | 1,201 |
| 4,475 | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 5,256 |
| 133 | Llog ar adneuon arian parod | 492 |
| **12,886** | | **15,155** |

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r nifer a chostau cyfnewid trafodion.

## NODYN 15 – TRETH AR INCWM

| 2016/17<br>£'000 | | 2017/18<br>£'000 |
|---|---|---|
| 378 | Treth ataliedig – ecwiti | 252 |
| **378** | | **252** |

## NODYN 16 – BUDDSODDIADAU

| 2016/17<br>£'000 | | 2017/18<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau buddsoddi** | |
| 236,625 | Llog sefydlog dychweliad absoliwt | 292,050 |
| 345,284 | Ecwiti | 337,188 |
| 963,262 | Buddsoddiadau ecwiti wedi'u cyfuno | 961,610 |
| 142,448 | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 159,044 |
| 82,023 | Ecwiti preifat | 76,137 |
| 28,053 | Is adeiladwaith | 28,174 |
| **1,797,695** | | **1,854,203** |
| 49,248 | Adneuon arian parod | 44,352 |
| 630 | Symiau derbyn | 5,431 |
| **1,847,573** | **Cyfanswm asedau buddsoddi** | **1,903,986** |
| | **Ymrwymiadau buddsoddi** | |
| (235) | Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau | (4,690) |
| **(235)** | **Cyfanswm ymrwymiadau buddsoddi** | **(4,690)** |
| **1,847,338** | **Asedau buddsoddi net** | **1,899,296** |

## Nodyn 16a – Cysoni symudiadau mewn buddsoddiadau a deilliadau

| 2017/18 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2017 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 236,625 | 55,000 | 0 | 425 | 292,050 |
| Ecwiti | 345,284 | 79,717 | (89,656) | 2,072 | 337,418 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 963,262 | 4,770 | (22,567) | 16,146 | 961,610 |
| Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 142,448 | 13,489 | (6,409) | 9,517 | 159,045 |
| Ecwiti preifat / Is adeiladwaith | 110,076 | 13,778 | (18,761) | (783) | 104,310 |
| | 1,797,695 | 166,754 | (137,393) | 27,377 | 1,854,433 |
| Adneuon arian parod | 49,248 | | | 326 | 44,603 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau | 630 | | | | 5,431 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (235) | | | 7,822 | (4,690) |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,847,338** | **166,754** | **(137,393)** | **35,525** | **1,899,297** |

| 2016/17 | Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2016 | Pryniannau yn ystod y flwyddyn | Gwerthia-nnau yn ystod y flwyddyn | Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn | Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Stociau llog sefydlog dychweliad absoliwt | 198,845 | 30,000 | 0 | 7,780 | 236,625 |
| Ecwiti | 269,784 | 73,681 | (76,100) | 77,919 | 345,284 |
| Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 746,944 | 15,347 | (13,492) | 214,463 | 963,262 |
| Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 157,734 | 18,373 | (31,465) | (2,194) | 142,448 |
| Ecwiti preifat / Is adeiladwaith | 81,540 | 29,118 | (18,212) | 17,630 | 110,076 |
| | 1,454,847 | 166,519 | (139,269) | 315,598 | 1,797,695 |
| Adneuon arian parod | 42,631 | | | (387) | 49,248 |
| Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiant buddsoddiadau | 383 | | | (4) | 630 |
| Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau | (64) | | | (1) | (235) |
| Ffioedd o fewn cerbydau wedi'u cyfuno | | | | 7,110 | |
| **Asedau buddsoddi net** | **1,497,797** | **166,519** | **(139,269)** | **322,316** | **1,847,338** |

Cynhwysir costau trafodion, fel comisiwn, treth stamp a ffioedd trafodion eraill, yng nghost y pryniant a derbyniadau gwerthiant. Cyfanswm costau trafodion yn ystod y flwyddyn oedd £103,937 (2016/17 £171,393). Yn ogystal â'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau.

## Nodyn 16b – Dadansoddiad o fuddsoddiadau

| 31 Mawrth 2017 £'000 | | 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| | **Ecwiti** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 37,453 | Wedi'u dyfynnu | 35,413 |
| | **Tramor** | |
| 307,832 | Wedi'u dyfynnu | 301,775 |
| | **Cronfeydd wedi'u cyfuno** | |
| | **Y Deyrnas Unedig** | |
| 301,034 | Ymddiriedolaethau uned | 305,110 |
| | **Byd-eang (yn cynnwys y DU)** | |
| 236,625 | Incwm sefydlog | 292,050 |
| 355,661 | Ymddiriedolaethau uned | 337,295 |
| | **Tramor** | |
| 306,567 | Ymddiriedolaethau uned | 319,205 |
| 142,447 | **Ymddiriedolaethau uned eiddo** | 159,044 |
| 82,023 | **Ecwiti preifat** | 76,137 |
| 28,053 | **Is adeiladwaith** | 28,174 |
| **1,797,695** | | **1,854,203** |

### Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

| Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2017 £'000 | % | | Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2018 £'000 | % |
|---|---|---|---|---|
| 601,837 | 32.6 | BlackRock | 618,768 | 32.6 |
| 399,686 | 21.6 | Fidelity | 384,762 | 20.3 |
| 236,632 | 12.8 | Insight | 292,052 | 15.4 |
| 39,599 | 2.1 | Lothbury | 50,372 | 2.6 |
| 110,076 | 6.0 | Partners Group | 104,310 | 5.5 |
| 16,476 | 0.9 | Threadneedle | 18,149 | 1.0 |
| 48,112 | 2.6 | UBS | 48,604 | 2.5 |
| 394,920 | 21.4 | Veritas | 382,279 | 20.1 |
| **1,847,338** | **100.0** | | **1,899,296** | **100.0** |

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y cynllun:

| Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2017 £'000 | % cyfanswm y Gronfa | Gwarantau | Gwerth Marchnad 31 Mawrth 2018 £'000 | % cyfanswm y Gronfa |
|---|---|---|---|---|
| 355,661 | 19.08 | Fidelity Institutional Select Global Equity | 337,295 | 17.40 |
| 301,033 | 16.15 | Aquila Life UK Equity Index Fund | 305,110 | 15.74 |
| 236,625 | 12.69 | Insight Umbrella Holdings | 0 | 0 |
| 0 | 0 | Insight LDI Solutions Plus Bonds | 292,050 | 15.07 |
| 129,078 | 6.92 | Aquila Life Global Dev Fundamental Fund | 129,689 | 6.69 |

## Nodyn 16c – Benthyca stoc

Mae'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DoEB) yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Ar hyn o bryd, nid yw'r gronfa'n benthyca unrhyw stoc.

## NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL

### Nodyn 17a – Dosbarthiad offerynnau ariannol

Mae polisïau cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymiadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

| Fel ar 31 Mawrth 2017 | | | | Fel ar 31 Mawrth 2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | **Benthyciadau ac arian a dderbynnir** | **Costau ymrwymiadau ariannol** | | **Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled** | **Benthyciadau ac arian a dderbynnir** | **Costau ymrwymiadau ariannol** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | **Asedau ariannol** | | | |
| 236,625 | | | Gwarantau llog sefydlog | 292,050 | | |
| 345,284 | | | Ecwiti | 337,188 | | |
| 963,262 | | | Buddsoddiadau wedi'u cyfuno | 961,610 | | |
| 142,448 | | | Buddsoddiadau eiddo wedi'u cyfuno | 159,044 | | |
| 82,023 | | | Ecwiti preifat | 76,137 | | |
| 28,053 | | | Is adeiladwaith | 28,174 | | |
| | 64,623 | | Arian Parod | | 79,922 | |
| | 0 | | Arian Tramor | | 1,468 | |
| | 6,239 | | Dyledwyr | | 11,019 | |
| **1,797,695** | **70,862** | **0** | | **1,854,203** | **92,409** | **0** |
| | | | **Ymrwymiadau ariannol** | | | |
| | | (4,324) | Credydwyr | | | (8,637) |
| | | **(4,324)** | | | | **(8,637)** |
| **1,797,695** | **70,862** | **(4,324)** | | **1,854,203** | **92,409** | **(8,637)** |

### Nodyn 17b - Enillion a cholledion net ar offerynnau ariannol

| 31 Mawrth 2017 | | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| **Gwerth teg** | | **Gwerth teg** |
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Asedau ariannol** | |
| 315,598 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 27,377 |
| (392) | Benthyciadau a derbyniadau | 326 |
| **315,206** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **27,703** |
| | **Ymrwymiadau ariannol** | |
| 0 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 0 |
| 0 | Cost ymrwymiadau ariannol | 0 |
| **0** | **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol** | **0** |
| **315,206** | **Asedau ariannol net** | **27,703** |

## Nodyn 17c – Gwerth teg offerynnau ag ymrwymiadau ariannol

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymiadau ariannol fesul dosbarth o offeryn o'i gymharu â'u gwerth teg.

| 31 Mawrth 2017 Gwerth cario | 31 Mawrth 2017 Gwerth teg | | 31 Mawrth 2018 Gwerth cario | 31 Mawrth 2018 Gwerth teg |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** |
| | | **Asedau ariannol** | | |
| 1,120,845 | 1,797,695 | Gwerth teg drwy elw a cholled | 1,210,252 | 1,854,203 |
| 70,815 | 70,811 | Benthyciadau a derbyniadau | 92,372 | 92,409 |
| **1,191,660** | **1,868,506** | **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **1,302,624** | **1,946,612** |
| | | **Ymrwymiadau ariannol** | | |
| (235) | (235) | Gwerth teg drwy elw a cholled | (4,675) | (4,689) |
| (4,038) | (4,038) | Cost ymrwymiadau ariannol | (3,948) | (3,948) |
| **(4,273)** | **(4,273)** | **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol** | **(8,623)** | **(8,637)** |
| **1,187,387** | **1,864,233** | **Asedau ariannol net** | **1,294,001** | **1,937,975** |

Nid yw'r Gronfa wedi ymrwymo i unrhyw warantau ariannol sydd angen cyfrifo amdanynt fel offerynnau ariannol.

## Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario

Mae prisiad yr offerynnau ariannol wedi'i ddosbarthu'n dri lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

**Lefel 1**

Offerynnau ariannol Lefel 1 yw rhai ble mae eu gwerth teg wedi'i bennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rwymedigaethau cyfwerth. Mae cynhyrchion sydd wedi'u dosbarthu fel rhai Lefel 1 yn cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, gwarantau sefydlog wedi'u dyfynnu, gwarantau cysylltiedig â mynegai wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned. Mae'r buddsoddiadau a restrir yn cael eu harddangos am y pris a gynigwyd amdanynt. Mae gwerth y pris a gynigir am y buddsoddiad yn seiliedig ar ddyfyniad marchnad cynigion y farchnad stoc dan sylw.

**Lefel 2**

Mae offerynnau ariannol Lefel 2 yn rhai ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael; er enghraifft, pan fo offeryn yn cael ei fasnachu mewn marchnad nad yw'n cael ei hystyried yn un weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu gwerth teg a ble mae'r technegau hyn yn defnyddio mewnbwn sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau data'r farchnad.

**Lefel 3**

Mae offerynnau ariannol Lefel 3 yn rhai ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ganfyddiadau data'r farchnad. Gallai offerynnau o'r fath gynnwys buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu a chronfa o gronfeydd rhagfantoli, sy'n cael eu prisio gan ddefnyddio technegau prisio amrywiol sy'n gofyn am ddyfarniadau sylweddol wrth bennu rhagdybiaethau priodol.

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi dadansoddiad o asedau ag ymrwymiadau ariannol y gronfa bensiwn wedi'i grwpio i Lefelau 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel sy'n cael ei rhagweld fel gwerth teg.

## Nodyn 17d – Prisiad gwerth teg yr offerynnau ariannol sy'n cael eu cario (parhad)

| Gwerth ar 31 Mawrth 2018 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd<br>Lefel 1 | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn<br>Lefel 2 | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono<br>Lefel 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 809,552 | 940,340 | 104,311 | 1,854,204 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 92,409 | 0 | 0 | 92,409 |
| **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **901,961** | **940,340** | **104,311** | **1,946,613** |
| **Ymrwymiadau ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (4,689) | 0 | (4,689) |
| Costau ymrwymiadau ariannol | (3,948) | 0 | 0 | (3,948) |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol** | **(3,948)** | **(4,689)** | **0** | **(8,637)** |
| **Asedau ariannol net** | **898,013** | **935,651** | **104,311** | **1,937,975** |

| Gwerth ar 31 Mawrth 2017 | Pris y farchnad a ddyfynnwyd<br>Lefel 1 | Gan ddefnyddio canfyddiadau am y mewnbwn<br>Lefel 2 | Gan ddefnyddio mewnbwn sylweddol ble na cheir canfyddiad ohono<br>Lefel 3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau ariannol** | | | | |
| Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 822,831 | 864,788 | 110,076 | 1,797,695 |
| Benthyciadau a derbyniadau | 70,811 | 0 | 0 | 70,811 |
| **Cyfanswm yr asedau ariannol** | **893,642** | **864,788** | **110,076** | **1,868,506** |
| **Ymrwymiadau ariannol** | | | | |
| Ymrwymiadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled | 0 | (235) | 0 | (235) |
| Costau ymrwymiadau ariannol | (4,038) | 0 | 0 | (4,038) |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol** | **(4,038)** | **(235)** | **0** | **(4,273)** |
| **Asedau ariannol net** | **889,604** | **864,553** | **110,076** | **1,864,233** |

## NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

**Risg a rheoli risg**

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiadau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau fel ei fod yn cadw lefel risg y farchnad y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae rhaglen reoli risg gyffredinol y Gronfa Bensiwn yn canolbwyntio ar ba mor anwadal yw'r marchnadoedd ariannol ac yn ceisio isafu'r effeithiau andwyol posib ar yr adnoddau sydd ar gael i dalu pensiynau. Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ar y cyd ag Actiwari'r Gronfa yn nodi sut bydd hydaledd a risg yn cael eu rheoli mewn perthynas ag ymrwymiadau. Mae'r Awdurdod Gweinyddu wedi cynhyrchu'r Datganiad Strategaeth Gyllido hwn gan roi ystyriaeth gyffredinol i lefel y risg yn y polisi buddsoddi sydd wedi'i nodi yn y Datganiad Egwyddorion Buddsoddi a gyhoeddwyd dan Reoliad 12 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (y Rheoliadau Buddsoddi) a'r polisi cyllido sydd wedi'i nodi yn y Datganiad hwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n parhau i adolygu'r ddwy ddogfen i sicrhau bod y proffil risg cyffredinol yn parhau'n briodol.

**a) Risg y farchnad**

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, tra gwneud y mwyaf o'r enillion a geir wrth gymryd risg.

Yn gyffredinol, rheolir anweddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Cyngor a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol,
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

**Risg prisiau eraill**

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn codi o fuddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa ble bo ansicrwydd ynghylch eu pris yn y dyfodol. Mae pob buddsoddiad gwarantau yn cyflwyno risg o golli cyfalaf. Ac eithrio cyfranddaliadau a werthir am bris is, pennir y risg fwyaf sy'n deillio o offerynnau ariannol gan werth teg yr offerynnau ariannol. Mae'r colledion posib yn sgil cyfranddaliadau a werthir am bris is yn anghyfyngedig.

Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau a theclynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth y Gronfa fuddsoddi.

**Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd**

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Cyngor wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn yn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2017/18.

## NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gan ddilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol ar enillion ar fuddsoddiadau, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae newidiadau pris posib wedi cael eu pennu ar gyfer y gwahanol gategorïau o asedau sy'n cael ei ddal gan y Gronfa. Mae'r cyfraddau i'w defnyddio ar gyfer categorïau asedau'r Gronfa fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Newid posib yn y farchnad (+/-)** | |
|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2017** | **31 Mawrth 2018** |
| | % | % |
| Ecwiti'r DU | 15.8 | 16.8 |
| Ecwiti Byd-eang | 18.4 | 17.9 |
| Ecwiti Preifat | 28.5 | 28.3 |
| Incwm Sefydlog | 2.9 | 2.8 |
| Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd) | 11.3 | 20.1 |
| Eiddo | 14.2 | 14.3 |
| Arian | 0.0 | 0.0 |
| Y Gronfa Gyfan | 12.8 | 12.6 |

Mae'r anweddolrwydd a nodir uchod yn gyson ag un gwyriad safonol yn newid gwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid arian tramor a chyfraddau llog, yn parhau'r un fath.

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2018 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 340,523 | 16.8 | 397,732 | 283,316 |
| Ecwiti Byd-eang | 958,275 | 17.9 | 1,129,806 | 786,744 |
| Ecwiti Preifat | 76,137 | 28.3 | 97,683 | 54,590 |
| Incwm sefydlog | 292,050 | 2.8 | 300,227 | 283,873 |
| Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd) | 28,174 | 20.1 | 33,836 | 22,511 |
| Eiddo | 159,044 | 14.3 | 181,787 | 136,300 |
| Arian | 44,352 | 0.0 | 44,352 | 44,352 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,898,555** | **12.6** | **2,137,773** | **1,659,337** |

* Mae gwerth yr holl gronfa yn y tabl uchod yn seiliedig ar 12.6% yn hytrach cyfanswm y mathau asedau unigol.

| **Math o ased** | **Gwerth fel ar 31 Mawrth 2017 £'000** | **Canran newid %** | **Gwerth ar ôl cynnydd £'000** | **Gwerth ar ôl gostyngiad £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 338,486 | 15.8 | 391,966 | 285,005 |
| Ecwiti Byd-eang | 970,060 | 18.4 | 1,148,552 | 791,569 |
| Ecwiti Preifat | 82,023 | 28.5 | 105,399 | 58,646 |
| Incwm sefydlog | 236,625 | 2.9 | 243,487 | 229,763 |
| Buddsoddiadau Amgen (Isadeiladedd) | 28,053 | 11.3 | 28,867 | 27,240 |
| Eiddo | 142,448 | 14.2 | 158,545 | 126,351 |
| Arian | 49,248 | 0.0 | 56,241 | 42,255 |
| **Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion** | **1,846,943** | **12.8** | **2,083,352** | **1,610,534** |

* Mae gwerth yr holl gronfa yn y tabl uchod yn seiliedig ar 12.8% yn hytrach cyfanswm y mathau asedau unigol.

### Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

**NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

| Math o ased | Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000 | Fel ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth | 15,375 | 37,038 |
| Balansau arian parod | 49,248 | 42,884 |
| Gwarantau llog sefydlog | 236,625 | 292,050 |
| **Cyfanswm** | **301,248** | **371,972** |

**Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog**

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

| Math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2018 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | +1% | -1% |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb | 37,038 | 370 | (370) |
| Balansau arian parod | 44,352 | 444 | (444) |
| Gwarantau llog sefydlog* | 292,050 | 2,658 | (2,658) |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **373,440** | **3,472** | **(3,472)** |

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

| Math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | +1% | -1% |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb | 15,375 | 154 | (154) |
| Balansau arian parod | 49,248 | 492 | (492) |
| Gwarantau llog sefydlog* | 236,625 | (1,538) | 1,538 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **301,248** | **(892)** | **892** |

Minimol fyddai'r effaith wedi bod o newid 1% mewn cyfraddau llog ar y llog a dderbyniwyd gan mai 0.43% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £127,666 am y flwyddyn.

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar warantau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nad yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

**Risg arian tramor**

Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£UK). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

## NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae gan y Gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith mewn arian tramor, (€214 miliwn a $88.6 miliwn). Mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymiadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 25. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymiadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymiadau ers 2005 felly mae'r ymrwymiadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r Gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2018 ac fel ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol:

| **Agored i newidiadau mewn arian – math o ased** | **Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000** | **Fel ar 31 Mawrth 2018 £'000** |
|---|---|---|
| Ecwiti tramor a byd-eang | 970,060 | 958,275 |
| Incwm Sefydlog byd-eang | 236,625 | 292,050 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd) | 110,076 | 104,310 |
| Eiddo tramor | 3,636 | 3,636 |
| Arian dramor | 0 | 1,468 |
| **Cyfanswm yr asedau tramor** | **1,320,397** | **1,359,739** |

**Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd**

Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Ystyrir bod newid o 10% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y Gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2018. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2017 oedd 10%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2018 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

| **Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased** | **Swm cario fel ar 31 Mawrth 2018** | **Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion** | |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **Gwerth ar gynnydd £'000** | **Gwerth ar leihad £'000** |
| Ecwiti tramor a byd-eang | 958,275 | 1,054,103 | 862,448 |
| Incwm Sefydlog byd-eang | 292,050 | 321,255 | 262,845 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) | 104,310 | 114,741 | 94,059 |
| Eiddo tramor | 3,636 | 4,000 | 3,272 |
| Arian dramor | 1,468 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **1,359,739** | **1,494,099** | **1,222,624** |

| Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased | Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 | Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion | |
|---|---|---|---|
| | | Gwerth ar gynnydd | Gwerth ar leihad |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ecwiti tramor a byd-eang | 970,060 | 1,067,066 | 873,054 |
| Incwm Sefydlog byd-eang | 236,625 | 260,288 | 212,963 |
| Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) | 110,076 | 121,084 | 99,068 |
| Eiddo tramor | 3,636 | 4,000 | 3,273 |
| **Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael** | **1,320,397** | **1,452,438** | **1,188,358** |

**b) Risg credyd**

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymiadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i beth risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartïon, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

| Rheolwr Buddsoddi | Canran o'r Portffolio |
|---|---|
| BlackRock | 29.5% |
| Fidelity | 19.0% |
| Veritas | 19.0% |
| Insight | 15.0% |
| Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock) | 10.0% |
| Partners Group | 7.5% |

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisïau yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdalu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adnau Arian, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Elfen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2018 oedd £37.1m (£15.7m ar 31 Mawrth 2017).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddiffygdalu neu adneuon nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 27.

**NODYN 18 – NATUR A GRADDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)**

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 26 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiadau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir teirblynyddol.

**c) Risg hylifedd**

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiadau i dalu pensiynwyr; ac i fodloni ymrwymiadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £152m, sy'n cynrychioli 7.9% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2017: £158m, a oedd yn cynrychioli 8.5% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2018 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2017.

**Risg ail ariannu**

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei Gronfa Bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

## NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrisiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2016.

**Disgrifiad o'r Polisi Cyllido**
Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido, yr Awdurdod Gweinyddu, gafodd ei adolygu fel rhan o Brisiad 2016.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y Gronfa dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd a buddion holl aelodau/dibynyddion wrth iddynt ddod daladwy.
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog os yw'n rhesmol i wneud hynny.
- lleihau'r cyfraniadau ariannol tymor hir mae'r cyflogwyr yn dalu i'r Cynllun drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau a rhwymedigaethau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwyso risg ac elw.
- i adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwahanol gyflogwyr i bennu cyfraddau cyfraniadau drwy gael strategaeth cyllido clir a thryloyw sy'n dangos sut y gall pob cyflogwr gyfarfod a'u rhwymedigaethau dros y blynyddoedd i ddod.
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r Dreth Cyngor yn sgil cyflogwyr yn diffygdalu ei rwymedigaethau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwyso'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi yn is na'r gyfradd ddamcaniaethol sydd ei hangen i sicrhau bod eu cyfran nhw o'r Gronfa yn dychwelyd i gael ei ariannu'n llawn dros 20 mlynedd os yw'r rhagdybiaethau prisio yn cael eu cadarnhau. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymiadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna siawns gwell na 66% o hyd y bydd y Gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 20 mlynedd.

**Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf**
Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2016. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £1,525 miliwn ar 31 Mawrth 2016, yn ddigon i dalu 91% o'r ymrwymiadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y diffyg ym mhrisiad 2016 oedd £145 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol a'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 eu pennu yn unol a pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

**Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymiadau**
Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio 2016.

**Dull**
Aseswyd yr ymrwymiadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwyliedig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwyliedig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

**Rhagdybiaethau**
Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymiadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa o'u gwerth ar y farchnad.

## NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2016 fel a ganlyn:

| Rhagdybiaethau Ariannol | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|
| Cyfradd disgownt | 3.9% |
| Cynnydd mewn cyflog | 2.1% |
| Cynnydd mewn pensiwn | 2.1% |

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes yn seiliedig ar V*itaCurves y Gronfa* gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2013, sy'n tybio bod y gyfradd bresennol o welliannau wedi cyrraedd y brig a bydd yn cydgyfeirio at gyfradd hirdymor o 1.25% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

| Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed | Gwryw Blynyddoedd | Benyw Blynyddoedd |
|---|---|---|
| Pensiynwyr cyfredol | 22.0 | 24.2 |
| Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2016) | 24.0 | 26.4 |

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2016 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk

**Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2016**
Ers y prisiant ffurfiol diwethaf, mae'r gwir ddychweliadau ar fondiau wedi disgyn gan gynyddu gwerth y rhwymedigaethau. Effaith hyn wedi cael ei gorchuddio gan enillion cryf yr asedau. Mae'r ddau ddigwyddiad gyda maint tebyg ynglyn a effaith ar y sefyllfa cyllido ar 31 Mawarth 2018.

Cynhelir y prisiad actiwaraidd nesaf fel ar 31 Mawrth 2019. Adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido ar yr un adeg.

## NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddaru rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddaru'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 19) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19, SAA17 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisio buddion salwch a marwolaeth yn unol ag SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2018 ac 2017, fel a ganlyn:

| Rhagdybiaeth | 31 Mawrth 2017 £'m | 31 Mawrth 2018 £'m |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 1,214 | 1,378 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflog | 246 | 385 |
| Cyfradd ddisgownt | 514 | 718 |
| **Cyfanswm** | **1,974** | **2,481** |

Fel y nodir uchod mae'r ymrwymiadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido teirblynyddol a gynhaliwyd yn 2016 (gweler Nodyn 19) gan fod SCC 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

## NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO (parhad)

### Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadau ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn:

| Rhagdybiaeth | 31 Mawrth 2017<br>% | 31 Mawrth 2018<br>% |
|---|---|---|
| Chwyddiant/cyfradd cynnydd mewn pensiwn | 2.4 | 2.4 |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflog | 2.4 | 2.4 |
| Cyfradd ddisgownt | 2.6 | 2.7 |

Defnyddiwyd yr un dybiaeth hirhoedledd fel ar gyfer asesu'r sefyllfa cyllido fel y dangosir yn Nodyn 19 uchod.

Mae'r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008.

Mae'r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi'u nodi isod:

| Sensitifrwydd i'r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy'n gorffen 31 Mawrth 2018 | Amcan % y Cynnydd mewn Rhwymedigaethau<br>% | Amcan Swm Ariannol<br>£m |
|---|---|---|
| 0.5% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant / pensiwn | 8 | 208 |
| 0.5% y.f. o gynnydd mewn cyflog | 2 | 52 |
| 0.5% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt | 11 | 278 |

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r tybiaeth hirhoedledd. At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%.

## NODYN 21 – ASEDAU CYFREDOL

| 2016/17<br>£'000 | | 2017/18<br>£'000 |
|---|---|---|
| 820 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr | 842 |
| 2,845 | Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr | 2,508 |
| 1,944 | Amrywiol ddyledwyr | 2,238 |
| **5,609** | **Cyfanswm dyledwyr** | **5,588** |
| 15,375 | Arian | 37,038 |
| **20,984** | **Cyfanswm** | **42,626** |

### Dadansoddiad o ddyledwyr

| 2016/17<br>£'000 | | 2017/18<br>£'000 |
|---|---|---|
| 2,352 | Cyngor Gwynedd | 2,111 |
| 560 | Cyrff llywodraeth ganolog | 713 |
| 1,209 | Awdurdodau lleol eraill | 1,074 |
| 3 | Cyrff GIG | 7 |
| 1,485 | Endidau ac unigolion eraill | 1,683 |
| **5,609** | **Cyfanswm** | **5,588** |

## NODYN 22 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 2,591 | Amrywiol gredydwyr | 2,370 |
| 282 | Gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy (rhai sy'n ymadael) | 0 |
| 1,216 | Buddion sy'n daladwy | 1,578 |
| **4,089** | **Cyfanswm** | **3,948** |

**Dadansoddiad o gredydwyr**

| 2016/17 £'000 | | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|
| 1,051 | Cyngor Gwynedd | 1,317 |
| 37 | Cyrff llywodraeth ganolog | 70 |
| 138 | Awdurdodau Lleol eraill | 69 |
| 58 | Cyrff GIG | 0 |
| 2,805 | Endidau ac unigolion eraill | 2,492 |
| **4,089** | **Cyfanswm** | **3,948** |

## NODYN 23 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

| | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2017 £'000 | Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 3,349 | 3,506 |
| Equitable Life | 229 | 226 |
| Standard Life | 53 | 70 |
| **Cyfanswm** | **3,631** | **3,802** |

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

| | 2016/2017 £'000 | 2017/2018 £'000 |
|---|---|---|
| Clerical Medical | 561 | 591 |
| Equitable Life | 0 | 0 |
| Standard Life | 0 | 13 |
| **Cyfanswm** | **561** | **604** |

## NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

**Cyngor Gwynedd**
Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,056,813 (£1,008,589 yn 2016/17) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa bensiwn a chyfrannodd £23.79m tuag at y Gronfa yn 2017/18 (£17.63m yn 2016/17). Ar ddiwedd y flwyddyn £2.11m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa (gweler Nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2018 a £1.32m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor (gweler Nodyn 22) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

## NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd bedwar cyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2017/18, roedd y Gronfa yn derbyn llog o £127,666 (£132,567 yn 2016/17) gan Gyngor Gwynedd.

**Llywodraethu**

Roedd tri aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2017/18 (yr aelodau pwyllgor J.B. Hughes, P. Jenkins a'r diweddar T.O. Edwards). Yn ogystal, roedd aelodau'r pwyllgor S. W. Churchman, D. Cowans, S. Glyn, J. B. Hughes, A.W.Jones, H.E. Jones, W.T. Owen a P. Read yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2017/18 (yr aelodau bwrdd H. E. Jones a S.Warnes). Yn ogystal, roedd aelodau Bwrdd A.W. Deakin, A.L Lloyd Evans, O. Richards and H. Trainor yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

**Staff Rheoli Allweddol**

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn eithrio awdurdodau lleol rhag gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24, ar y sail bod y gofynion datgelu ar gyfer tal swyddogion a lwfansau aelodau yn y Cod yn bodloni gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Gweler y dadleniadau gofynnol yng nghyfrifon Cyngor Gwynedd.

## NODYN 25 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymiadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

| | Cyfanswm ymrwymiadau | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2017 | Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| | **€'000** | **€'000** | **€'000** |
| P.G. Direct 2006 | 20,000 | 776 | 776 |
| P.G. Global Value 2006 | 50,000 | 3,477 | 3,477 |
| P.G. Secondary 2008 | 15,000 | 1,960 | 1,960 |
| P.G. Global Value 2011 | 15,000 | 3,372 | 2,712 |
| P.G. Global Infrastructure 2012 | 40,000 | 15,894 | 12,133 |
| P.G. Direct 2012 | 12,000 | 1,181 | 1,181 |
| P.G. Global Value 2014 | 12,000 | 4,638 | 4,109 |
| P.G Direct 2016 | 50,000 | 34,373 | 29,374 |
| **Cyfanswm Ewro** | **214,000** | **65,671** | **55,722** |
| | **$'000** | **$'000** | **$'000** |
| P.G. Emerging Markets 2011 | 7,000 | 1,623 | 1,225 |
| P.G Secondary 2015 | 38,000 | 32,723 | 29,150 |
| P.G Direct Infrastructure 2015 | 43,600 | 35,219 | 30,896 |
| **Cyfanswm Doleri** | **88,600** | **69,565** | **61,271** |

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Partners Group, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac is adeiladwaith ) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

## NODYN 26 - ASEDAU WRTH GEFN

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa bensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffygdalu.

## NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

**a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus**
Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

**b) Amhariad yr adneuon ym Manc Gwlad yr Iâ**
Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r Gronfa Bensiwn. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2018.

## NODYN 28 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN

Cynhyrchir Adroddiad Flynyddol ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Egwyddorion Buddsoddi
Datganiad Strategaeth Gyllido
Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Llywodraethu
Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk ar dudalen buddsoddiadau neu drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **19 GORFFENNAF 2018** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 arhosodd gweithgaredd benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £211,000 o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £172,750 a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda fethu â thalu.

**1. Cyflwyniad a Chefndir**

Cafodd Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2011 ac mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae'n ofynnol yn y Côd i mi adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn erbyn yr hyn a ddisgwylir. Ystyrir mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r corff priodol i ystyried yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad y flwyddyn ariannol 2017/18 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd ym mis Chwefror 2018. Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cyngor llawn ar y 8fed o Fawrth 2018 a gellir ei weld ar:
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16298/Rheolaeth%20Trysorlys.pdf?LLL=1

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- y cefndir economaidd;
- y gofyn benthyca a rheoli dyledion;
- gweithgarwch buddsoddi; â
- chydymffurfiaeth â Dangosyddion Darbodus.

Mae'r adroddiad yma yn cyflawni dyletswydd cyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o Gôd CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

Roedd 2017-18 yn flwyddyn o wthio a thynnu oherwydd y disgwyliad i lai o arian gael ei ryddhau i'r economi (*Quantitative Easing*) a'r posibilrwydd o gael cyfraddau polisi uwch yn UDA ac Ewrop ac o densiynau geowleidyddol, a gafodd effaith hefyd.

Dangosodd economi'r DU arwyddion ei fod yn arafu gyda'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos, diolch i economi gwell yn fyd-eang, fod GDP wedi cynyddu 1.8% yng nghalendr 2017, sef yr un lefel â 2016. Roedd hyn yn ganlyniad llawer gwell na'r hyn yr oedd llawer wedi'i ragweld yn dilyn Refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016, ond yr oedd hefyd yn adlewyrchu'r momentwm o dwf rhyngwladol yn deillio o economi fwy bywiog yn UDA a gwelliant eto yn economïau Ardal yr Ewro.

Roedd effaith chwyddiannol prisiau mewnforio uwch, o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerth y bunt yn sgil canlyniad Refferendwm yr UE, wedi peri i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gynyddu o un flwyddyn i'r llall i 3.1% ym mis Tachwedd cyn gostwng yn ôl i 2.7% ym mis Chwefror 2018. Effeithiodd hyn ar ddefnyddwyr wrth i dwf gwirioneddol enillion cyfartalog, h.y. ar ôl chwyddiant, droi'n negyddol cyn adfer yn araf. Dangosodd y farchnad lafur ei bod yn wydn wrth i'r gyfradd ddiweithdra ostwng yn ôl i 4.3% ym mis Ionawr 2018. Ni chafodd sefyllfa wan buddsoddiadau busnesau'r DU lawer o help oherwydd yr ansicrwydd gwleidyddol yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Mehefin ac oherwydd ddiffyg eglurder ar *Brexit*, ac ni chafwyd cytundeb rhwng y DU a'r UE tan fis Mawrth 2018 ar drosglwyddiad fydd bellach yn para o Ch2 2019 hyd Ch4 2020. Mae Senedd y DU eto i gadarnhau'r Cytundeb Gadael ac mae angen negodi a chytuno ar rai'r 27 gwlad arall sy'n aelodau o'r UE yn ogystal â'r threfniadau masnach rhyngwladol newydd.

Cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) y Gyfradd Banc 0.25% ym mis Tachwedd 2017. Roedd hyn yn arwyddocaol am mai dyma'r tro cyntaf i'r gyfradd godi ers deng mlynedd, er, mewn gwirionedd gwrthdroi ei benderfyniad i dorri'r gyfradd ym mis Awst 2016 oedd yr MPC yn sgil canlyniad y refferendwm. Dangosodd Adroddiad Chwyddiant mis Chwefror fod yr MPC yn awyddus i chwyddiant dychwelyd i'r targed 2% dros gyfnod mwy confensiynol (18 - 24 mis) gan dynhau polisi mewn modd 'graddol' a 'chyfyngedig'. Er fod dau aelod o'r MPS wedi pleidleisio ym mis Mawrth i gynyddu'r cyfraddau polisi yn syth a bod yr MPC ond y dim ag ymrwymo ei hun i ddweud pryd fyddai'r cynnydd nesaf, roedd cofnodion y cyfarfod yn awgrymu y byddai cynnydd ym mis Mai 2018 yn debygol iawn.

I'r gwrthwyneb, roedd gweithgarwch economaidd Ardal yr Ewro yn magu momentwm ac er bod Banc Canolog Ewrop (ECB) wedi rhoi'r gorau i gyfeirio at *'easing bias'* yn ei gyfathrebiadau a'r farchnad a'i fod eto i gadarnhau ei fwriad o ran QE pan ddaw pryniannau asedau i ben ym mis Medi 2018, ymddengys nad oedd y banc canolog yn barod i normaleiddio cyfraddau llog. Tyfodd economi UDA yn raddol, a gydag amcanion polisi o sefydlogi prisiau ac uchafu cyflogaeth yn parhau i weithio, cynyddodd Pwyllgor y Farchnad Agored y Gronfa Ffederal (*Federal Reserve Open Market Committee*) gyfraddau llog ym mis Rhagfyr 2017 o 0.25% ac eto wedyn ym mis Mawrth, gan gynyddu'r amrediad cyfradd polisi i 1.50% - 1.75%. Disgwylir i'r Ffed gynyddu'r cyfraddau ddwywaith eto yn 2018 a dwywaith eto wedyn yn 2019. Fodd bynnag, gall penderfyniad UDA i gynnwys tariffiau ar amrediad cynyddol o nwyddau, sydd wedi arwain at ddial gan Tsieina, ddwysáu yn ryfel masnach gydag effaith economaidd ehangach gan gynnwys cynnydd cyflym mewn chwyddiant, fydd yn golygu fod angen cynyddu cyfraddau llog eto.

**Marchnadoedd ariannol**

Fe arweiniodd y cynnydd yn y Gyfradd Banc at gyfraddau marchnadoedd ariannol uwch: Roedd cyfraddau Libid 1 mis, 3 mis a 12 mis yn 0.32%, 0.39% a 0.69% ar gyfartaledd ac ar 31 Mawrth 2018, roeddynt yn 0.43%, 0.72% a 1.12% yn ôl eu trefn.

Bu enillion gilt yn gyfnewidiol iawn yn ystod y cyfnod deuddeg mis gyda Banc Lloegr yn newid ei feddwl ynghylch ei ragolygon ar gyfraddau llog. Roedd yr enillion ar giltiau pum mlynedd wedi gostwng i 0.35% yng nghanol mis Mehefin ac wedi cynyddu wedyn i 1.65% erbyn diwedd mis Mawrth. Fe wnaeth enillion giltiau deng mlynedd hefyd godi o'u hisel fannau o 0.935% ym mis Mehefin i 1.65% erbyn canol mis Chwefror cyn gostwng eto i 1.35% erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd hynt y giltiau ugain mlynedd hyd yn oed yn fwy anwadal ac wedi amrywio o 1.62% ym mis Mehefin i 2.03% ym mis Chwefror, cyn gostwng yn ôl wedyn i 1.70% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Gorffennodd yr FTSE flwyddyn galendr 2017 mewn sefyllfa gref, gan gyrraedd record arall o 7688, cyn disgyn o dan 7000 ar ddechrau 2018 yng nghywiriad a gwerthiant ecwiti byd-eang.

**Cefndir credyd**

**Mesur credyd**
Yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol, cyrhaeddodd cyfnewidiau diffygdalu credyd banciau'r DU eu pwynt isaf ers tair blynedd yn sgil y datganiad fod Cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca'r Llywodraeth (FLS), a oedd yn rhoi mynediad i arian rhatach i'r banciau, yn cael ei ymestyn i 2018. Ar gyfer gweddill y flwyddyn, arhosodd prisiau CDS yn weddol gyson.

Cadarnhaodd y *Prudential Regulation Authority* y rheolau ar gyfer neilltuo banciau'r DU a dechreuodd y banciau'r broses gymhleth o'u gweithredu cyn y dyddiad cau statudol, sef 1 Ionawr, 2019. Roedd peth ansicrwydd ynghylch pa endidau bancio fyddai'r Awdurdod yn ymdrin â hwy unwaith y byddai'r neilltuo ar waith a sut fyddai mantolenni'r endidau yn edrych - y rhai wedi'u neilltuo a'r rhai fydd ddim wedi'u neilltuo. Ym mis Mai 2017 cynghorodd Arlingclose y dylid addasu a gostwng y terfyn aeddfedrwydd ar gyfer buddsoddiadau heb eu gwarantu i uchafswm o chwe mis. Roedd gwahaniaeth barn rhwng yr asiantaethau statws credyd o ran teilyngdod credyd yr endidau fydd wedi'u hailstrwythuro.

Barclays oedd y cyntaf i gwblhau ei ailstrwythuro i neilltuo arian yn ystod penwythnos y Pasg, 2018; o hyn ymlaen bydd Barclays Bank plc (Barclays International), y banc sydd heb ei neilltuo, fydd yn derbyn adneuon cyfanwerthol gan gynnwys adneuon awdurdodau lleol.

**Datblygiadau Statws Credyd**
Y newid mwyaf arwyddocaol oedd Moody's yn gostwng statws sofren y DU ym mis Medi o Aa1 i Aa2 a arweiniodd at ostwng endidau is-sofren gan gynnwys awdurdodau lleol.

Roedd y newidiadau i'r statws credyd yn cynnwys Moody's yn gostwng statws hirdymor Standard Chartered Bank i A1 o Aa3 a gosod statws credyd hirdymor banciau'r DU dan adolygiad i adlewyrchu'r broses o neilltuo gweithgarwch manwerthu oddi wrth fancio buddsoddi (roedd Barclays, HSBC ac RBS yn cael eu hadolygu gyda'r bwriad o'u hisraddio; roedd Lloyds Bank, Bank of Scotland a National Westminster Bank yn cael eu hadolygu i gael eu huwchraddio).

Fe wnaeth Standard & Poor's (S&P) gynyddu rhagolygon amryw o fanciau a chymdeithasau adeiladu'r DU i bositif neu sefydlog ac ar yr un pryd cadarnhodd eu statws hirdymor a

byrdymor, gan adlewyrchu gwytnwch y sefydliadau, eu cynnydd wrth gyflawni gofynion cyfalaf rheoleiddiol a bod mewn gwell sefyllfa i ymdrin ag ansicrwydd a chynnwrf yn y cyfnod hyd at pan fydd y DU yn gadael yr UE ym mis Mawrth 2019. Cynyddodd yr asiantaeth statws credyd hirdymor Barclays Banc o A i A- ar ôl i'r banc ddatgan ei gynlluniau ar gyfer ei endidau wedi'r broses neilltuo.

Adolygodd Fitch y rhagolygon ar gyfer Nationwide Building Society i negatif gan ostwng statws credyd hirdymor y sefydliad wedi hynny oherwydd bod ei fyffer rhag dyled iau yn crebachu. Adolygodd S&P ragolygon y gymdeithas o bositif i sefydlog.

Gostyngodd S&P statws Transport for London i AA- o AA wedi i'w sefyllfa ariannol ddirywio.

Mae Moody's wedi gostwng statws hirdymor Rabobank oherwydd ei farn ar allu'r banc i wneud elw a statws credyd y banciau Awstralaidd mawr oherwydd ei farn ar y risgiau cynyddol oherwydd marchnad dai Awstralia a'r gyfran uwch o fenthyciadau i fuddsoddwyr eiddo preswyl.

**Datblygiadau eraill**
Ym mis Chwefror, cynghorodd Arlingclose yn erbyn benthyca i Northamptonshire County Council (NCC). Cyhoeddodd NCC rybudd adran 114 yn sgil her ariannol ddifrifol a'r risg na fyddai mewn sefyllfa i gyflawni cyllideb gytbwys.

Ym mis Mawrth, ar ôl derbyn cyngor Arlingclose, tynnodd yr Awdurdod RBS plc a National Westminster Bank o'i restr o wrthbartïon. Nid oedd hyn yn adlewyrchu unrhyw newid yn nheilyngdod credyd y naill fanc na'r llall, ond fod Arlingclose wedi argymell tynhau'r meini prawf statws credyd gofynnol o i A- p BBB+ ar gyfer 2018-19. Nid yw statws hirdymor presennol RBS a NatWest yn diwallu'r maen prawf gofynnol hwn, fodd bynnag os caiff NatWest ei uwchraddio ar ôl cael ei neilltuo, byddai'r banc yn cael ei gynnwys yn ôl ar restr fenthyca'r Awdurdod.

**Newidiadau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol**

**Codau CIPFA Diwygiedig**
Cyhoeddodd CIPFA fersiynau diwygiedig o'r Cod Rheoli Trysorlys a'r Cod Darbodus ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r newidiadau gofynnol ers Cod 2011 wedi cael eu hymgorffori mewn Strategaethau Rheoli Trysorlys ac adroddiadau monitro.

Mae Cod Darbodus 2017 yn cyflwyno'r gofyn am Strategaeth Gyfalaf i ddarparu trosolwg lefel uchel o gyd-destun hirdymor penderfyniadau gwariant a buddsoddiad cyfalaf a'r risgiau a'r enillion cysylltiedig gyda throsolwg o sut caiff risg ei reoli ar gyfer cynaladwyedd ariannol y dyfodol. Os mai'r Cyngor Llawn sy'n llunio a chymeradwyo'r strategaeth hon, mae modd dirprwyo'r Strategaeth Rheoli Trysorlys i bwyllgor. Mae'r Cod hefyd yn ehangu ar faterion prosesu a llywodraethu penderfyniadau gwariant a buddsoddiad cyfalaf.

Yng Nghod Rheoli Trysorlys 2017, mae'r diffiniad o 'fuddsoddiadau' wedi cael ei ymestyn i gynnwys asedau ariannol yn ogystal ag asedau anariannol a ddelir yn bennaf i gael enillion ariannol megis buddsoddi mewn eiddo. Rhaid trafod y rhain, ynghyd â buddsoddiadau eraill a wneir ar gyfer dibenion nad ydynt yn ymwneud â rheoli trysorlys megis benthyciadau i gefnogi deilliannau cefnogi gwasanaeth a buddsoddi mewn is-gwmnïau, yn y Strategaeth Gyfalaf neu'r Strategaeth Fuddsoddi. Rhaid amlinellu risgiau ychwanegol buddsoddiadau o'r fath yn glir yn ogystal â nodi ac adrodd ar yr effaith ar gynaliadwyedd ariannol.

Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi gweithredu ar newidiadau arfaethedig i'r Canllawiau ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ymwybodol o newidiadau MHCLG i'r Canllawiau Buddsoddi ar gyfer awdurdodau Lloegr.

**Diwygiadau i Ddeddfwriaeth Cyllid Cyfalaf**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg)(Cymru)(fel y'i diwygiwyd) 2018 ym mis Mawrth 2018. Mae'r rhain yn diwygio ac yn egluro rheoliadau blaenorol fel nad yw buddsoddiadau mewn bondiau corfforaethol a chyfranddaliadau mewn cronfeydd UCITS (*Undertakings for the Collective Investment of Transferable Securities*) sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), *Real Estate Investment Trusts* (REITs) a chynlluniau buddsoddi a gymeradwyir gan Drysorlys ei Mawrhydi yn cael eu trin mwyach fel gwariant cyfalaf. Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18. Mae'n galluogi i'r Awdurdod fuddsoddi yn yr offerynnau hyn, os yw'n briodol i amgylchiadau ac amcanion yr Awdurdod, heb gost refeniw posib MRP (*Minimum Revenue Provision*) a heb ystyried elw unrhyw werthiant fel enillion cyfalaf.

**MiFID II**

O ganlyniad i'r ail MiFID (*Markets in Financial Instruments Directive*), ar ôl 3 Ionawr 2018, roedd awdurdodau lleol yn cael eu trin yn awtomatig fel cleientiaid manwerthu ond bod modd iddynt ddewis uwchraddio i statws cleient proffesiynol, cyn belled â'u bod yn diwallu meini prawf penodol sy'n cynnwys cael balans buddsoddi o leiaf £10 miliwn a bod gan y person sydd wedi'i awdurdodi i wneud penderfyniadau buddsoddi ar ran yr awdurdod o leiaf blwyddyn o brofiad proffesiynol perthnasol. Yn ogystal, mae'r cwmnïau gwasanaethau ariannol a reoleiddir sy'n destun y gyfarwyddeb hon wedi gorfod asesu fod gan y person hwnnw'r gallu, y profiad a'r wybodaeth i wneud penderfyniadau buddsoddi a'u bod yn deall y risgiau cysylltiedig.

Mae'r Awdurdod wedi diwallu'r amodau i ddewis statws proffesiynol ac wedi gwneud hynny er mwyn cynnal y statws MiFID II oedd ganddo cyn mis Ionawr 2018. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gael mynediad i gynnyrch gan gynnwys cronfeydd arian marchnad, cronfeydd wedi'u cyfuno, biliau'r trysorlys, bondiau, cyfranddaliadau a chyngor ariannol.

**Y Cyd-destun Lleol**

Ar 31 Mawrth 2018 roedd gan y Cyngor fenthyciadau net o £74m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf, mae hyn yn lleihad yn erbyn £82m yn 2017. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a cyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

Mae gan y Cyngor CFR fydd yn lleihau dros y 2 flynedd nesaf a lefel o fuddsoddiadau sydd yn gostwng ac felly mae'n bosib bydd angen benthyg yn ystod y cyfnod hwn.

**Crynodeb Mantolen**

| | 31.3.17 Gwir £m | 2017/18 Symudiad £m | 31.3.18 Gwir £m |
|---|---|---|---|
| CFR | 177 | 0 | 177 |
| Llai : Ymrwymiadau dyled eraill | (2) | 0 | (2) |
| **CFR Benthyciadau** | **175** | **0** | **175** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (57) | 1 | (56) |
| Llai: Cyfalaf Gweithredol | (36) | (12) | (48) |
| **Benthyciadau net** | **82** | **(11)** | **71** |

Strategaeth yr Awdurdod oedd cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel. Gwelir y sefyllfa rheoli trysorlys fel oedd ar 31 Mawrth 2018 a'r newid o flwyddyn i flwyddyn yn y tabl isod.

**Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | 31.3.17 Balans £m | 31.3.17 Cyfradd % | 31.3.18 Balans £m | 31.3.18 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau tymor hir | (108,143) | 5.71 | (107,810) | 5.6 |
| Benthyciadau tymor byr | (2,645) | 10.63 | (10,865) | 0.5 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **(110,788)** | **5.98** | **(118,675)** | **5.2** |
| Buddsoddiadau tymor hir | 2,171 | 1.59 | 17 | 4.0 |
| Buddsoddiadau tymor byr | 25,810 | 0.51 | 35,028 | 0.4 |
| Arian a Chywerthydd arian | 1,384 | 0.15 | 12,403 | 0.4 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **29,365** | **0.53** | **47,448** | **0.4** |
| **Benthyciadau net** | **81,423** | **5.95** | **71,227** | **5.2** |

Noder: mae'r ffigwr yn y tabl yn dod o'r Fantolen yn Natganiad o'r Cyfrifon y Cyngor, gyda newidiadau er mwyn eithrio'r arian gweithredol, croniad llog ac addasiadau cyfrifeg eraill.

## 3. Gweithgaredd Benthyca yn 2017/18

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cyngor £117.8m o fenthyciadau, cynydd o £9.1m ers y flwyddyn cynt.

Gweler y sefyllfa a symudiadau benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y tabl isod.

**Sefyllfa Benthyciadau**

| | 31.3.17 Balans £m | 2017/18 Symudiad £m | 31.3.18 Balans £m | 31.3.18 Cyfradd % | 31.3.18 WAM* blynyddoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Public Works Loan Board | 92.5 | (0.9) | 91.6 | 5.8 | 21 |
| Banciau (tymor sefydlog) | 16.2 | 10.0 | 26.2 | 4.2 | 60 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **108.7** | **9.1** | **117.8** | **5.62** | **27** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Prif amcan y Cyngor pan yn benthyca arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Ymhellach i'r amcanion yma, ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2017/18 gyda'r benthyciadau presennol yn aeddfedu heb gymryd benthyciad newydd yn eu lle. Wnaeth y strategaeth yma alluogi'r Cyngor i leihau eu costau benthyca net (er colli incwm buddsoddi) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol.

Ni wnaeth y dadansoddiad "cost cario" a wnaed gan Arlingclose (ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor) nodi unrhyw werth mewn benthyca tymor hir ar gyfer y gwariant sydd wedi ei gynllunio at y dyfodol, felly ni chymerwyd dim.

Cymerodd y Cyngor fenthyciad tymor byr er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael yn ystod y cyfnod o Ionawr i Fawrth 2018 yn hytrach na cymeryd benthyciad tymor hir a fyddai wedi cynyddu costau llog taladwy am nifer o flynyddoedd yn y dyfodol.

## 4. Gweithgaredd Buddsoddi

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn cronfeydd sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod 2017/18, amrywiodd balansau buddsoddi'r Cyngor rhwng £28.5 a £68.5 miliwn.

Mae Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd a nôd y Cyngor ydi sicrhau enillion sy'n gymesur â'r egwyddorion hyn.

**Sefyllfa Buddsoddi**

| | 31.3.17 Balans £m | 2017/18 Symudiad £m | 31.3.18 Balans £m | 31.3.18 Cyfradd % | 31.3.18 WAM* days |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei sicrhau) | 21.3 | (10.0) | 11.3 | 0.55 | 204 |
| Bondiau Gorchuddiedig (wedi'i sicrhau) | 2.1 | (0.1) | 2.0 | 0.7 | 148 |
| Llywodraeth Leol (gan gynnwys awdurdodau lleol) | 6.0 | 19.0 | 25.0 | 0.50 | 161 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 0.0 | 9.2 | 9.2 | 0.30 | 3 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **29.4** | **18.1** | **47.5** | **0.44** | **137** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Mae Côd Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

**Meincnodi Buddsoddiadau**

| | Sgor Credyd | Graddfa Credyd | Amlygiad 'Bail-in' | WAM* (diwrnodau) | Cyfradd Dychwelyd |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2017 | 3.27 | AA- | 64% | 70 | 0.47% |
| 30.06.2017 | 3.30 | AA- | 54% | 72 | 0.48% |
| 30.09.2017 | 3.97 | AA- | 57% | 86 | 0.44% |
| 31.12.2017 | 3.76 | AA- | 54% | 77 | 0.47% |
| 31.03.2018 | 3.96 | AA- | 43% | 48 | 0.55% |
| **A.Ll Tebyg** | **4.17** | **AA-** | **48%** | **115** | **0.47%** |
| **Pob A.Ll** | **4.03** | **AA-** | **55%** | **35** | **1.08%** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Yn ystod y flwyddyn mae'r amlygiad at 'bail-in' wedi lleihau tra bod y sgor credyd yn aros rhwng 3 a 4.

**Goblygiadau Ariannol**

Yr allbwn ar gyfer llog a dalwyd yn ystod 2017/18 oedd £6.0 miliwn ar portffolio benthyciadau gyda cyfartaledd o £106.8 miliwn a cyfradd llog cyfartalog o 5.6%.

Roedd y balansau arian cyfartalog yn £58.7m yn ystod y flwyddyn. Mae Cyfradd Banc y DU wedi bod rhwng 0.25% a 0.5% ers Mawrth 2009. Mae cyfraddau byrdymor y farchnad arian wedi parhau ar lefelau cymharol isel. Gwnaed adneuon newydd ar gyfradd gyfartalog o 0.55%. Cynhyrchodd buddsoddiadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian gyfraddau cyfartalog o 0.45%.

Roedd amcan y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi y Cyngor yn £0.17m am y flwyddyn, ond llwyddodd y Cyngor i ennill incwm o £0.21m am y flwyddyn.

**Adroddiad Cydymffurfiad**

Mae'r Pennaeth Cyllid yn falch o adrodd bod yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys a ymgymerwyd yn ystod 2017/18 yn cydymffurfio gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor. Mae'r cydymffurfiad gyda cyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **2017/18 Uchafswm** | **31.3.18 Gwir** | **2018/19 Terfyn** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, heblaw Llywodraeth y DU | £8m yr un | £6m ac is | £6m yr un | ✓ |
| Unrhyw grŵp cronfeydd o dan yr un rheolaeth | £8m y grwp | £4m ac is | £6m y grŵp | ✓ |
| Gwledydd tramor | £8m y wlad | £3m ac is | £6m y wlad | ✓ |
| Buddsoddiadau heb eu gwarantu mewn Cymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £6m | Cyfanswm o £6m | Cyfanswm o £6m | ✓ |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £40m | Cyfanswm o £12m | Cyfanswm o £30m | ✓ |

Mae'r cydymffurfiad gyda cyfyngiad awdurdodi a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn cael ei ddangos yn y tabl isod.

**Cyfyngiadau Dyled**

| | **2016/17 Uchafswm** | **31.3.17 Gwir** | **2016/17 Ffin Weithredol** | **2016/17 Ffin Awdurdodol** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £113m | £111m | £180m | £190m | ✓ |

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio’r mesuryddion canlynol.

**Diogelwch**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartal wedi’i bwyso ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi’i bwyso yn ôl hyd pob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb ei graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfyddedig.

| | **31.3.18 Gwir** | **2017/18 Targed** | **Cydymffurfwyd** |
|---|---|---|---|
| Sgor credyd cyfartal y portffolio | 3.96 | scor 7 neu is | ✓ |

**Hylifedd**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd a taliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol**.**

| | **31.3.18 Gwir** | **2017/18 Targed** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £47.4m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o’r prif swm net a fenthyciwyd, yn:

| | **31.3.18 Gwir** | **2017/18 Terfyn** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog | 100% | 100% | ✓ |
| Terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau cyfnewidiol | 0 | 50% | ✓ |

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Mae’r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad y Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn:

| | **31.3.18 Gwir** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Cydymffurfiwyd** |
|---|---|---|---|---|
| dan 12 mis | 8.8% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 1.9% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.9% | 50% | 0% | ✓ |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 14.5% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 27.7% | 100% | 0% | ✓ |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 6.4% | 100% | 0% | ✓ |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 15.2% | 100% | 0% | ✓ |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 7.9% | 100% | 0% | ✓ |
| 50 mlynedd ac uwch | 13.7% | 100% | 0% | ✓ |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad.

**Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

| | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £2.1m | £0 | £0 |
| Terfyn ar gyfer prifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £10m |
| Cydymffurfiwyd | ✓ | ✓ | ✓ |

## Dangosyddion Darbodus 2017/18

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Cyngorau Lleol (y Côd Darbodus) wrth bennu faint o arian y gall fforddio ei fenthyg. Amcanion y Côd Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer proffesiynol da. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Côd Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn cymharu'r dangosyddion cymeradwy yn erbyn y sefyllfa allbwn ar gyfer 2017/18. Mae'r gwir ffigurau wedi cael eu paratoi ar sail sy'n gyson gyda datganiad y cyfrifon y Cyngor.

**Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf:** Gellir crynhoi cynlluniau gwariant cyfalaf a chyllido'r Cyngor fel hyn:

| Gwariant a Chyllido Cyfalaf | 2017/18 Amcangyfrif £m | 2017/18 Gwir £m | Gwahaniaeth £m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cronfa Cyffredinol** | **27.7** | **23.4** | **1.6** |
| Derbyniadau cyfalaf | 0.7 | 1.4 | 0.1 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 10.7 | 11.5 | 0.8 |
| Cyfraniadau Refeniw | 5.5 | 5.9 | 0.4 |
| Benthyca gyda cefnogaeth | 4.1 | 4.1 | 0.0 |
| Benthyca Darbodus | 6.7 | 7.0 | 0.3 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **27.7** | **23.4** | **1.6** |

**Amcangyfrifon Gofyn Cyllido Cyfalaf**
Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 31/03/18 Amcangyfrif £m | 31/03/18 Gwir £m | Gwahaniaeth £m |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 182.1 | 177.0 | 5.1 |

Nid oedd codiad yn y CFR oherwydd bod gwariant cyfalaf a ariannir trwy ddyled yr un fath a'r adnoddau a defnyddiwyd i ad-dalu'r ddyled.

**Gwir Ddyled**: Roedd gwir ddyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:

| **Dyled** | **31/03/18 Amcangyfrif £m** | **31/03/18 Gwir £m** | **Gwahaniaeth £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 113.4 | 113.4 | 0 |
| Lesau Cyllidol | 0.0 | 2.3 | 2.3 |
| **Cyfanswm Dyled** | **113.4** | **115.7** | **2.3** |

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf:** Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd dyled dros tymor canolig yn cael ei ddefnyddio, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd darbodus allweddol.

| **Dyled and Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31/03/18 Amcangyfrif £m** | **31/03/18 Gwir £m** | **Gwahaniaeth £m** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm benthyciadau | 113.4 | 113.4 | 0 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 175 | 177 | 2 |
| **Ar gael i'w defnyddio** | **61.6** | **63.6** | **2** |

Arhosodd cyfanswm y ddyled islaw'r GCC drwy'r flwyddyn.

**Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol:** Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif y Cyngor o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus ond dim y sefyllfa gwaethaf posib ar gyfer dyledion allanol.

| **Ffin Weithredol a Cyfanswm Dyled** | **31/03/18 Ffin £m** | **31/03/18 Gwir Ddyled £m** | **Gwahaniaeth £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyca | **175** | **113.4** | **61.6** |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | **0** | **2.3** | **(2.3)** |
| **Cyfanswm** | **175** | **115.7** | **59.3** |

**Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol**: Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all y Cyngor fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Ffin Awdurdodol a Cyfanswm Dyled** | **31/03/18 Ffin £m** | **31/03/18 Gwir £m** | **Gwahaniaeth £m** |
|---|---|---|---|
| Benthyca | **195** | **113.4** | **81.6** |
| Ymrwymiadau tymor hir eraill | **0** | **2.3** | **(2.3)** |
| **Cyfanswm Dyled** | **195** | **115.7** | **79.3** |

**Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net**

Dangosydd yng nghyswllt pa mor fforddiadwy yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig drwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido, llai incwm o fuddsoddiadau.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **31/03/18 Amcangyfrif %** | **31/03/18 Gwir %** | **Gwahaniaeth %** |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **5.91** | **5.20** | **0.71** |

**Dadansoddiad o'r Sgôr Credyd**

Sgorio:

| Statws Credyd Tymor Hir | Sgôr |
|---|---|
| AAA | 1 |
| AA+ | 2 |
| AA | 3 |
| AA- | 4 |
| A+ | 5 |
| A | 6 |
| A- | 7 |
| BBB+ | 8 |
| BBB | 9 |
| BBB- | 10 |

Mae'r gwerth cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl maint y buddsoddiad. Mae'r amser cyfartalog pwysol yn adlewyrchu ansawdd credyd buddsoddiadau yn ôl aeddfedrwydd y buddsoddiad.

Roedd y Cyngor yn anelu at sgôr o 7 neu is, er mwyn adlewyrchu'r prif flaenoriaeth o am ddiogelu yr arian a fuddsoddir ac y trothwy isaf cyfradd credyd A- ar gyfer gwrthbartion buddsoddi.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **19 GORFFENNAF 2018** |
| TEITL | **TREFNIADAU RHEOLI RISG** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU I'R TREFNIADAU RHEOLI RISG, Y CAMAU GWEITHREDU NESAF, AC YSTYRIED OS YW'R YMATEB YN MYND I'R AFAEL Â'R MATERION A GODWYD YN LLYTHYR YR ARCHWILIWR** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, yn unol â Rhan 81(1)(c) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

1.2 Fel rhan o waith ehangach i adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor, adolygwyd trefniadau rheoli risg y Cyngor gan Swyddfa Archwilio, a mynegwyd eu barn mewn llythyr i'r Prif Weithredwr gan Reolwr Archwilio Perfformiad (SAC).

1.3 Cyflwynwyd y llythyr yma, ac ymateb y Cyngor iddo, i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 9 Chwefror 2017.

Llythyr:
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s10387/10i%20Llythyr%20Swyddfa%20Archwilio%20Cymru.pdf?LLL=1

Ymateb:
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s10388/10ii%20Adroddiad%20yr%20Uwch%20Reolwr%20Refeniw%20a%20Risg.pdf?LLL=1

**1.4 Prif ganlyniad yr archwiliad oedd fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cryfhau ei drefniadau rheoli risg, sy'n galluogi iddo gefnogi proses benderfynu gadarn ac effeithiol yn well.**

## 2. AWGRYMIADAU'R ARCHWILIWR

2.1 Er nad welodd yr archwiliwr yr angen i ryddhau adroddiad ffurfiol am ganlyniadau'r gwaith, nac ychwaith wedi cyflwyno argymhellion ffurfiol, roedd y llythyr yn nodi 5 cyfle i wella, sef:

- Datblygu dogfen crynhoi risgiau neu olrhain risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol;
- Cyflwyno mwy o gysondeb o ran nodi a rheoli risg mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i Aelodau;
- Rhoi mwy o ystyriaeth i'r cysyniad o 'ysfa risg' yn ei ddull o reoli risg;
- Cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau newydd y Cyngor; a
- Hyfforddi swyddogion ac Aelodau ar reoli risg fel rhan o fenter ehangach o godi ymwybyddiaeth.

2.2 Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi diweddariad yr y cynnydd wrth ymateb i'r cyfleon gwella yma.

**2.3 Datblygu Dogfen Crynhoi Risgiau Neu Olrhain Risgiau fel rhan o'i Gofrestr Risg Gorfforaethol**

2.3.1. Yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu drefn sgorio risgiau newydd.

2.3.2. Fel sy'n gyffredin mewn trefniadau rheoli risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma, sef

- **Effaith** y digwyddiad petai'r risg cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu.

2.3.3. Mae'r Effaith a'r Tebygolrwydd yn cael eu sgorio o 1 i 5, gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio canlynol.

**Effaith**

| Sgôr | Effaith | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Catastroffig | Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion |
| 4 | Dinistriol | Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion |
| 3 | Sylweddol Iawn | Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd ) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion |
| 2 | Arwyddocaol | Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **gweladwy** ar nifer fawr o drigolion |
| 1 | Gweladwy | Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion. |

- Nifer = 10au i 100oedd o drigolion
- Nifer fawr = 1,000oedd i 10,000oedd o drigolion

**Tebygolrwydd**

| Sgôr | Tebygolrwydd | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Digwydd rŵan | Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd) |
| 4 | Tebygol Iawn | Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy |
| 3 | Tebygol | Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim |
| 2 | Annhebygol | Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno |
| 1 | Annhebygol Iawn | Annhebygol iawn o ddigwydd |

2.3.4. Lluosir y Sgôr Effaith a'r Sgôr Tebygolrwydd gyda'i gilydd i roi Sgôr Risg Presennol, sef sgoriau'r risgiau ar sail y rheolaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Diffinnir Sgôr Risg o uchel iawn i isel fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Sgôr 20-25** | **Risg Uchel Iawn** |
| **Sgôr 12-16** | **Risg Uchel** |
| **Sgôr 6-10** | **Risg Ganolig** |
| **Sgôr 1-5** | **Risg Isel** |

2.3.5. Dyma'r gyfundrefn sydd i'w ddefnyddio ar gyfer mesur pob risg sydd i ymddangos ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Fel adroddwyd i gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2018, mae'r Cyngor wedi adnabod 22 o risgiau llywodraethu, ac mae'r rhain eisoes wedi eu sgorio gan ddefnyddio'r weithdrefn yma. Yn yr un modd, mae rhai o adrannau'r Cyngor wedi mabwysiadu'r drefn yma, ac yn asesu eu risgiau yn rheolaidd gan ei ddefnyddio.

2.3.6. Fodd bynnag, anghyson yw'r drefn ar draws y Cyngor ar hyn o bryd. Mae'r sylwadau ar reoli risg yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 28 Mehefin) yn adlewyrchu'r sefyllfa:

**"Mae gwaith diweddar i ddatblygu un Cofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer yr holl awdurdod, ac i wneud hynny law-yn-llaw â threfn ble mae yn unedau busnes yn cofnodi rhwystrau ac yn mynd ati i geisio datrys rheini yn syth, yn dechrau dangos llwyddiant.**

**Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio. Rhan allweddol o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod 2017/18 oedd i'r Grŵp Llywodraethu a'r Uned Yswiriant a Risg sicrhau fod pob risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi cael ei ystyried o berspectif y risg i Bobl Gwynedd, nid o safbwynt mewnblyg y Cyngor.**

**Er hyn, mae perygl yn parhau mai dilyn trefn a wneir, ac mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn parhau ychydig yn anghyson. Felly, mae gwaith yn parhau angen ei wneud i sicrhau fod holl adrannau'r Cyngor yn cynnal y drefn o gofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd.**

**Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol, megis Iechyd a Diogelwch, Diogelu Plant ac Oedolion a Chynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth. Mae tystiolaeth meintiol fod perfformiad yn y meysydd hyn yn gwella - er fod yna enghreifftiau o lefydd i wella ymhellach.**

**Mae arbrofion systemau yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi - mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr. Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni yn maes, er mwyn paratoi'r awdurdod yn well ar gyfer digwyddiadau anrhagweladwy.**

**Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i ddatblygu, a byddant yn esblygu ymhellach wrth i ddiwylliant a Ffordd Gwynedd dreiddio trwy'r Cyngor."**

2.3.7. Er mwyn gwthio'r drefn yn ei blaen ymhellach, gyda'r nod fod pob un o adrannau'r Cyngor yn defnyddio'r drefn mewn modd gyson, rydym wedi adnabod y tasgau canlynol, sydd i'w cwblhau yn ystod 2018/19.

2.3.8. Yn hytrach na defnyddio taenlen *Excel* i gadw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, byddwn yn trosglwyddo'r gofrestr i'r cyfleuster *Sharepoint lists* o fewn iGwynedd. Teg dweud fod y dechnoleg yma yn newydd i swyddogion y Cyngor, ond rydym yn hyderus y bydd ei ddatblygiad yn golygu y bydd cynnal a diweddaru'r gofrestr yn llawer mwy cyfleus, a bydd modd defnyddio'r system i anfon negeseuon atgoffa ayb. Mae'r Uned Risg ac Yswiriant a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cydweithio ar hyn o bryd i ddatblygu'r system, ac anelir i'w gael yn fyw i holl swyddogion y Cyngor erbyn Medi 2018.

2.3.9. Unwaith bydd y system yn fyw, bydd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi cyflwyniad i'r Penaethiaid Adran ac Uwch Reolwyr, a disgwylir i adrannau – gyda chefnogaeth Yswiriant a Risg fel bo'r angen – gael cofrestrau adrannol yn eu lle yn y ffurf newydd erbyn Rhagfyr 2018.

2.3.10. Awgrym yr archwiliwr yw fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ar ôl iddo weld y risgiau i gychwyn, wedyn yn derbyn adroddiad sydd yn crynhoi'r newidiadau i'r gofrestr dros amser. Dyma a ddigwyddodd gyda'r risgiau llywodraethu ym Mehefin 2018 – ymddengys fod hynny wedi gweithio'n effeithiol, a byddwn yn chwilio i ehangu'r trefniant pan fydd risgiau adrannol wedi cael eu cynnwys.

**2.4 Cyflwyno mwy o gysondeb o ran nodi a rheoli risg mewn papurau ac adroddiadau a gyflwynir i Aelodau**

2.4.1. Bydd defnydd llawn o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol – gan ddilyn y drefn a ddisgrifir yn rhan 2.3 uchod – yn golygu y bydd angen i adrannau ystyried beth yw'r risg y mae unrhyw adroddiadau a gyflwynir yn eu lliniaru, a pha risgiau newydd fydd yn cael eu cyflwyno fel canlyniad i'r penderfyniad.

2.4.2. Hynny yw, bydd defnydd parhaus o'r gofrestrau risg yn ddull i adnabod y pethau sydd wirioneddol angen eu blaenoriaethu. O gael hyn yn iawn, bydd rhaid i unrhyw adroddiad sydd yn cael ei gyflwyno am benderfyniad yn egluro'n echblyg pa risgiau mae'r gweithrediad yma am ei ateb, a bydd y cyfle gwella yma yn cael ei weithredu yn naturiol o hynny.

2.4.3. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw newid mewn diwylliant, gall hyn gymryd peth amser i ddigwydd yn naturiol ar draws y Cyngor.

**2.5 Rhoi mwy o ystyriaeth i'r cysyniad o 'ysfa risg' yn ei ddull o reoli risg**

2.5.1. 'Ysfa risg' ("*risk appetite*") yw faint o risg y mae'r Cyngor yn barod i'w gymryd wrth iddo fynd ati i gyflawni ei amcanion. Mae gosod ysfa risg yn sicrhau bod yr adnoddau a roddir i ddeall a rheoli'r risgiau yn gymesur.

2.5.2. Fel nodwyd yn flaenorol, ni ellir fyth gael ysfa cyffredinol ar gyfer y Cyngor gyfan, gan fod cymaint o amrywiaeth mewn gwasanaethau ar draws yr awdurdod. Fodd bynnag, dan y gyfundrefn sydd wedi ei fabwysiadu, bydd risgiau'n cael eu hystyried a'i sgorio'n unigol, a bydd lle i swyddogion ystyried os ydi'r sefyllfa gyfredol yn dderbyniol neu beidio. Lle penderfynir fod risg eisoes wedi cael ei liniaru i lefel derbyniol, gellir ei "archifo", a'i adolygu'r llai aml.

2.5.3. Bydd rôl gan yr Uned Yswiriant a Risg i sicrhau fod unrhyw archifo yn cael ei wneud yn briodol, fel rhan o drefn rheoli ansawdd; bydd hyn yn rhan o'r broses o adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

**2.6 Cyflwyno Strategaeth Risg a Llawlyfr Gweithrediadau i gyd-fynd â threfniadau newydd y Cyngor**

2.6.1. Credwn mai gosod disgwyliad clir i adrannau ddefnyddio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel rhan o'u gwaith blaenoriaethu yw'r "Strategaeth" briodol i'w fabwysiadu a'i weithredu.

2.6.2. O safbwynt Llawlyfr Gweithrediadau, mae perygl y gallai hwn ysgogi "ticio'r blwch" yn hytrach na newid meddylfryd. Mae angen i lawlyfr fod yn syml ac i'r pwynt. Yn hynny o beth, mae'r canllaw sydd wedi cael ei ddatblygu yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi ei nodi yn rhan 2.3 uchod, ac a eglurwyd i'r Pwyllgor ym Mehefin 2017 ac yn dilyn hynny pan yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**2.7 Hyfforddi swyddogion ac Aelodau ar reoli risg fel rhan o fenter ehangach o godi ymwybyddiaeth**

2.7.1. Nodir uchod y bydd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yn rhoi cyflwyniad ar y gyfundrefn newydd i swyddogion. Bydd hyn yn cael ei ehangu trwy ystyried os byddai'n briodol datblygu cwrs perthnasol i swyddogion sydd hefyd yn cwmpasu egwyddorion Ffordd Gwynedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ar y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn manteisio ar y cyfleon i wella a amlinellir yn llythyr Swyddfa Archwilio Cymru.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **19 GORFFENNAF 2018** |
| TEITL | **TREFNIADAU SGORIO RISGIAU A LEFEL SICRWYDD ARCHWILIADAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADDASU FFURF ADRODDIADAU ARCHWILIADAU MEWNOL** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Ar 22 Mehefin 2017, cyflwynodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg adroddiad ar y gyfundrefn newydd ar gyfer sgorio risgiau'r Cyngor i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Roedd y gyfundrefn hon yn ffrwyth llafur gwaith Is-Grŵp o'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.

1.2 Mynegir yn yr adroddiad *"yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd, mae angen i'r drefn sgorio edrych ar y risgiau i'r Cyngor o safbwynt pobl Gwynedd. Mae hefyd angen i'r system fod ddigon hyblyg fel bod modd ei ddefnyddio ar draws y Cyngor – ac ar gyfer risgiau llywodraethu – tra ar yr un pryd yn aros yn ystyrlon."*

## 2. ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Mae fersiwn ddiweddaraf Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn diffinio bwriad Archwilio Mewnol fel *"gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd ar sail risg ac amcanion, cyngor a mewnwelediad*.". I'r perwyl hynny, i fod ar eu mwyaf effeithiol, mae angen i ddulliau Archwilio Mewnol adlewyrchu'r dull mae'r Awdurdod wedi ei fabwysiadu i asesu a mesur ei risgiau.

2.2 Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor wrth sgorio maint y risgiau yma sef:

- **Effaith** – y digwyddiad petai'r risg yn cael ei wireddu
- **Tebygolrwydd** y risg o gael ei wireddu

2.3 Caiff "Effaith" ei sgorio o 1 i 5 gan ddefnyddio'r diffiniadau yn y tabl isod:

| Sgôr | Effaith | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Catastroffig | Effaith **catastroffig** ar unrhyw drigolyn (e.e. colli bywyd) neu effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer fawr o drigolion. |
| 4 | Dinistriol | Effaith **dinistriol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. lle byddai ansawdd bywyd neu les rhywun yn cael ei effeithio i'r graddau fod anghenion dwys ganddynt am gymorth i'w galluogi i fyw eu bywydau) neu **sylweddol iawn** ar nifer fawr o drigolion. |
| 3 | Sylweddol Iawn | Effaith **sylweddol iawn** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith yn golygu y byddai ansawdd ei bywyd neu les yn sylweddol is na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl i un o drigolion Gwynedd) neu **arwyddocaol** ar nifer fawr o drigolion. |
| 2 | Arwyddocaol | Effaith **arwyddocaol** ar fywyd neu les nifer o drigolion (e.e. effaith ar fywyd neu les ond yn disgyn o fewn amrediad disgwyliadwy bywyd dydd i ddydd) neu **weladwy** ar nifer fawr o drigolion. |
| 1 | Gweladwy | Effaith **gweladwy** ar fywyd neu les rai trigolion (e.e. effaith yn weladwy ond ddim yn effaith arwyddocaol i'w lles) neu **ymylol** ar nifer fawr o drigolion. |

2.4 Caiff "Tebygolrwydd" ei sgorio o "A" i "D" gan ddefnyddio'r diffiniadau yn y tabl isod:

| Sgôr | Tebygolrwydd | Diffiniad |
|---|---|---|
| 5 | Digwydd rŵan | Mae'r effaith i'w weld rŵan (h.y. mae o'n digwydd/potensial cryf i ddigwydd) |
| 4 | Tebygol Iawn | Tebygol iawn y bydd yn amlygu ei hun yn y dyfodol gweladwy |
| 3 | Tebygol | Siawns y gallai ddigwydd, ond efallai ddim |
| 2 | Annhebygol | Tebygolrwydd iddo ddigwydd yn isel - ond dal yno |
| 1 | Annhebygol Iawn | Annhebygol iawn o ddigwydd |

2.5 Yna, bydd y Gwasanaeth Archwilio yn lluosi y sgôr "Effaith" a'r sgôr "Tebygolrwydd" gyda'i gilydd i roi sgôr risg cyfredol ar y risgiau a adnabyddir i'w lliniaru a bydd y nifer o risgiau yn cael eu cofnodi yn y blwch sydd yn gyfatebol i'w sgôr risg fel y dengys y tabl isod:

| | | Effaith | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Catastroffig 5** | **Dinistriol 4** | **Sylweddol Iawn 3** | **Arwyddocaol 2** | **Gweladwy 1** |
| **Tebygolrwydd** | **Digwydd rŵan 5** | 25 | 20 | 15 | 10 | 5 |
| | **Tebygol Iawn 4** | 20 | 16 | 12 | 8 | 4 |
| | **Tebygol 3** | 15 | 12 | 9 | 6 | 3 |
| | **Annhebygol 2** | 10 | 8 | 6 | 4 | 2 |
| | **Annhebygol Iawn 1** | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |

2.6 Bydd y sgôr risg cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

| LEFEL RISG | SGOR |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 20 - 25 |
| UCHEL | 12 - 16 |
| CANOLIG | 6 - 10 |
| ISEL | 1 - 5 |

Bydd y sgôr risg a ddarperir yn seiliedig ar farn yr Archwiliwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Archwilio perthnasol a'r Rheolwr Archwilio. Bydd niferoedd y risgiau sydd yn syrthio i bob categori yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu tra bydd y matrics risg cyfredol yn cael ei ddarparu i sylw'r swyddogion perthnasol.

2.7 Yn 2017/18, sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer archwiliadau dilyniant, ble y bu i pob cam gweithredu cytunedig a ddaethpwyd i gytundeb arnynt yn 2016/17 dderbyn sylw trwy ofyn i'r uned/gwasanaeth/sefydliad anfon tystiolaeth i brofi gweithrediad. Byddai defnyddio'r matrics uchod yn golygu y gellid adrodd ymhellach ar ddilyniant a gynhelir yn 2019/20 trwy adrodd ar y camau gweithredu yn unol â'r sgôr risg.

2.8 Yn hanesyddol, rhoddwyd categori barn ar archwiliadau yn amrywio o gategori barn "A" i "Ch".

2.9 Erbyn hyn, tybir y buasai yn fwy priodol i ddarparu lefel sicrwydd ar gyfer pob archwiliad. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

2.10 Bydd lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod

| | |
|---|---|
| **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gyllir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu dderbyn yr adroddiad hwn ynghyd â sylwebu ar y trefniant arfaethedig o ddarparu lefel sicrwydd archwiliadau.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **19 GORFFENNAF 2018** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DULL AWGRYMEDIG AR GYFER ASESU EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR, AC YSTYRIED DULL PRIODOL O'I ROI AR WAITH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, CYNNWYS SYLWADAU ARNO, A PENDERFYNU OS AM GYNNAL HUNANASESIAD** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rôl allweddol o fewn trefniadau llywodraethu'r awdurdod – hwn yw'r Pwyllgor sydd wedi ei ddynodi fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Golyga hyn fod ganddo'r dasg o sicrhau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gadarn.

1.2 Fel canlyniad i'r cyfrifoldeb yma, disgwylir fod y Pwyllgor yn cynnaf hunan-asesiad cyfnodol o'i effeithiolrwydd.

1.3 Cynhaliwyd yr hunan-asesiad tebyg olaf ym Mai 2016. Gan fod y Cyngor cyfredol bellach yn ei ers blwyddyn, a CIPFA wedi cyhoeddi canllawiau newydd y bwyllgorau archwilio ym Mai 2018, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried os yw ymarferiad hunan-asesiad newydd yn amserol rŵan.

**2. CANLLAWIAU CIPFA**

2.1 Yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 (Mehefin 2012), nodir fod y Llywodraeth eisoes wedi cymeradwyo cyhoeddiad CIPFA, "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*", ei fod yn parhau i wneud hynny, a'i fod yn cynghori awdurdodau lleol i fwrw golwg ar y dogfennau hyn fel rhai atodol i'r canllawiau statudol.

2.2 Roedd cyhoeddiad CIPFA wedi ei gyhoeddi yn wreiddiol yn 2005, a nodir yn y canllawiau statudol eu hunain eu bod wedi dyddio erbyn 2012. Cyhoeddwyd fersiwn newydd o "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*" yn 2013, ac mae fersiwn pellach wedi cael ei gyhoeddi yn 2018.

2.3 Cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, "*Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio*", ar 14 Mehefin 2017. Yn y digwyddiad hwnnw, rhannwyd copi o *Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio Mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* gyda'r aelodau. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys Datganiad Sefyllfa newydd; mae copi ohono i'w gael yn Atodiad 1.

**3. CYNNAL HUNANASESIAD**

3.1 Mae canllawiau CIPFA hefyd yn cynnwys arfau er mwyn cynorthwyo aelodau pwyllgorau archwilio i gynnal hunan-asesiad. Yn gyntaf, mae **Hunanasesiad o Ymarfer Da**, sy'n darparu adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA ac yn y canllawiau. Yn ail, ceir tabl ar gyfer **Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio** er mwyn asesu lle mae eu Pwyllgor yn gweithredu yn y ffordd mwyaf effeithiol, a lle mae sgôp i wneud mwy. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn Atodiadau 2 a 3.

3.2 Fel y gwelir, nid yw'r ddogfennau asesu yn faith nac yn gymhleth, ond os am fanteisio ohonynt bydd angen neilltuo amser penodol i ymgymryd â'r gwaith – nid yw cyfarfod pwyllgor ffurfiol yn fforwm addas.

3.3 Gofynnir, felly, i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnal gweithdy o'i aelodau gyda hwylusyddion yn ystod Medi neu Hydref 2018, er mwyn cynnal ei asesiad ei hun o'i effeithiolrwydd.

3.4 Byddai canlyniad yr asesiad yn dystiolaeth ar gyfer cofrestr risg y Cyngor (risg **L18**, *Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli*) ac fel canlyniad i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried os am drefnu gweithdy yn ystod Medi neu Hydref 2018 er mwyn cynnal hunanasesiad o'r effeithiolrwydd, ac os yw'n gytûn, i benderfynu ar leoliad.**

# Datganiad Safbwynt CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu

Mae cwmpas y datganiad hwn yn cynnwys yr holl brif awdurdodau lleol yn y DU, y pwyllgorau archwilio ar gyfer comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid yng Nghymru a Lloegr, a phwyllgorau archwilio awdurdodau tân ac achub.

1. Mae Pwyllgorau Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith lywodraethu awdurdod. Eu swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

2. Pwrpas y Pwyllgor Archwilio yw i ddarparu sicrwydd annibynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu am ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd reolaeth fewnol, a chywirdeb adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Trwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol mae'n gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle.

3. Dylai pwyllgorau archwilio awdurdodau a'r heddlu fabwysiadu model sy'n sefydlu'r pwyllgor fel bod yn annibynnol ac effeithiol. Dylai'r pwyllgor:

   - weithredu fel y prif swyddogaeth anweithredol, ymgynghorol sy'n cefnogi'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
   - mewn awdurdodau lleol, fod yn annibynnol o'r weithrediaeth a swyddogaethau craffu
   - mewn cyrff heddlu, fod yn annibynnol o gyfrifoldebau gweithredol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Brif Gwnstabl.
   - gael hawliau mynediad clir i bwyllgorau/swyddogaethau eraill, er enghraifft craffu a'r gwasanaeth pwyllgorau, byrddau rheoli risg corfforaethol a grwpiau strategol eraill.
   - fod yn atebol yn uniongyrchol i Fwrdd yr awdurdod neu gyrff cyfatebol

4. Swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio yw i:

   - Cael ei fodloni bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn adlewyrchu'n briodol yr amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i'w wella, a dangos sut mae llywodraethu yn cefnogi cyflawniad amcanion yr awdurdod.
   - Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr awdurdod:
     - goruchwylio ei annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb
     - cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol
     - hyrwyddo'r defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.
   - Ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod a'r amgylchedd rheolaeth, gan adolygu proffil risg y sefydliad a'r sicrwydd y cymerir camau ar faterion sy'n ymwneud â risg, gan gynnwys partneriaethau a chydweithio gyda sefydliadau eraill.
   - Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, cefnogi safonau a moeseg ac i reoli amlygiad yr awdurdod i'r risgiau o dwyll a llygredd.
   - Ystyried adroddiadau ac argymhellion archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu a'u goblygiadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.
   - Cynorthwyo cydberthnasau effeithiol rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau arolygu a chyrff perthnasol eraill, ac annog hyrwyddo gwerth y broses archwilio.

- Adolygu'r datganiadau ariannol, barn yr archwilydd allanol ac adroddiadau i aelodau, a monitro camau gweithredu rheolwyr wrth ymateb i'r materion a godwyd gan yr archwilwyr allanol.

5. Gall pwyllgor archwilio hefyd gefnogi ei awdurdod gan ymgymryd â rôl ehangach mewn meysydd eraill gan gynnwys:

   - Ystyried materion llywodraethu, risg neu reolaeth ar gais swyddogion statudol neu bwyllgorau eraill.
   - Gweithio gyda'r pwyllgorau safonau a moeseg lleol i gefnogi gwerthoedd moesegol
   - Adolygu a monitro trefniadau rheolaeth trysorlys yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys CIPFA, *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes* (CIPFA, 2017).
   - Darparu trosolwg o adroddiadau cyhoeddus eraill, megis yr adroddiad blynyddol.

6. Nodweddir pwyllgorau archwilio da gan:

   - Aelodaeth sy'n gytbwys, gwrthrychol, annibynnol o feddwl, yn wybodus ac wedi eu hyfforddi'n briodol i gyflawni eu rôl. Bydd balans gwleidyddol pwyllgor ffurfiol o’r cyngor yn adlewyrchu balans gwleidyddol y Cyngor, ond mae’n bwysig cael y balans cywir o brofiad anwleidyddol.
   - Aelodaeth sy’n gefnogol i egwyddorion llywodraethu da a defnydd ymarferol yr egwyddorion hyn tuag at gyflawni amcanion y sefydliad.
   - Cadeirydd cryf, annibynnol o feddwl sy’n arddangos ddyfnder o wybodaeth, sgiliau a diddordeb.  Mae angen nifer o rinweddau personol i fod yn gadeirydd effeithiol, ond yn allweddol i’r rhain mae:
     - hybu trafodaeth agored, anwleidyddol
     - rheoli cyfarfodydd i gynnwys pob busnes ac annog dynesad didwyll gan bawb sy’n cymryd rhan
     - diddordeb mewn a gwybodaeth am reolaeth ariannol a rheolaeth risg, archwilio, cysyniadau a safonau cyfrifwaith, a’r drefn rheolaethol
   - Agweddau diduedd – yn trin archwilwyr, y weithrediaeth a rheolwyr yn deg.
   - Y gallu i herio’r weithrediaeth ac uwch reolwyr pan fydd angen.

7. Er mwyn ymgymryd â’i rôl yn effeithiol dylai’r pwyllgor:

   - Gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a chael polisi clir ar yr eitemau hynny a ystyrir yn breifat a’r rhai i'w hystyried yn gyhoeddus.
   - Allu cwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwilydd allanol a gyda phennaeth archwilio mewnol.
   - Cynnwys, fel mynychwyr rheolaidd, y prif swyddog(ion) ariannol, y Prif Weithredwr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol.  Gall mynychwyr eraill gynnwys y swyddog monitro (ar gyfer materion safonau) a phennaeth adnoddau (lle mae swydd o'r fath yn bodoli). Dylai'r swyddogion hyn hefyd allu cael mynediad at y Pwyllgor, neu’r Cadeirydd, fel sy'n ofynnol.
   - Gael yr hawl i alw unrhyw swyddogion neu asiantaethau yr awdurdod fel sy'n ofynnol, tra’n cydnabod annibyniaeth y prif gwnstabl mewn perthynas â materion heddlua gweithredol.
   - Adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, ac adrodd o leiaf yn flynyddol ar asesiad o'u perfformiad.  Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol arddangos sut mae’r pwyllgor wedi cyflawni ei dyletswyddau.

## Hunanasesiad o Ymarfer Da

Mae'r atodiad hwn yn darparu adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori’r egwyddorion allweddol a nodir yn *Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio Mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* a'r cyhoeddiad hwn. Lle mae gan bwyllgor archwilio raddfa uchel o berfformiad yn erbyn yr egwyddorion o arfer da, mae’n arwydd bod sail gadarn i’r Pwyllgor ac fod aelodaeth wybodus ganddo. Mae'r rhain yn ffactorau hanfodol wrth ddatblygu pwyllgor archwilio effeithiol.

Gellir defnyddio hunanasesiad rheolaidd i gefnogi cynllunio rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a’i gynlluniau hyfforddi. Gall hefyd lywio’r adroddiad blynyddol.

| | **Cwestiynau Ymarfer Da** | **Ydi** | **Rhannol** | **Na** |
|---|---|---|---|---|
| **Pwrpas a llywodraethu y Pwyllgor Archwilio** | | | | |
| 1 | Oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio penodol? | | | |
| 2 | Ydi’r Pwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i’r Cyngor llawn? (Yn berthnasol i Lywodraeth Leol yn unig.) | | | |
| 3 | A yw’r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â datganiad sefyllfa CIPFA? | | | |
| 4 | A yw rôl a pwrpas y Pwyllgor Archwilio wedi ei ddeall a’i dderbyn ar draws yr awdurdod? | | | |
| 5 | A yw'r Pwyllgor Archwilio yn darparu cefnogaeth i'r awdurdod wrth fodloni gofynion llywodraethu da? | | | |
| 6 | A yw’r trefniadau i ddal y Pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol? | | | |
| **Swyddogaethau’r Pwyllgor** | | | | |
| 7 | A yw cylch gorchwyl y pwyllgor mynd i’r afael yn echblyg â’r holl feysydd craidd a nodwyd yn natganiad sefyllfa CIPFA? | | | |
| | • llywodraethu da | | | |
| | • fframwaith sicrwydd, gan gynnwys trefniadau partneriaeth a chydweithio | | | |
| | • archwilio mewnol | | | |
| | • archwilio allanol | | | |
| | • adrodd ariannol | | | |
| | • rheolaeth risg | | | |
| | • gwerth am arian neu gwerth gorau | | | |
| | • atal twyll a llygredigaeth | | | |
| | • cefnogi’r fframwaith foesegol | | | |
| 8 | A gynhelir gwerthusiad blynyddol i asesu os yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac os rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'r holl feysydd craidd? | | | |
| 9 | A yw’r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y meysydd ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA a p'un a fyddai'n briodol i’r Pwyllgor ymgymryd â hwy? | | | |
| 10 | Lle canfuwyd fod y sylw a roddwyd i feysydd craidd yn gyfyngedig, oes cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn? | | | |
| 11 | Ydi’r Pwyllgor wedi cadw at ei rôl o beidio cynghori drwy beidio ymgymryd ag unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau nad ydynt yn unol â’i bwrpas diben craidd? | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | |
| 12 | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad pwyllgor archwilio effeithiol? Dylai hyn gynnwys:<br>• bod ar wahân o'r weithrediaeth<br>• cymysgedd addas o wybodaeth a sgiliau ymhlith yr aelodau<br>• maint pwyllgor nad yw'n anhylaw<br>• rhoddwyd ystyriaeth i gynnwys o leiaf un aelod annibynnol (lle nad yw hyn eisoes yn fandadol). | | | |
| 13 | Yw'r aelodau annibynnol sydd wedi eu penodi i'r Pwyllgor wedi'u recriwtio mewn ffordd agored a thryloyw a gymeradwywyd gan y cyngor llawn neu PCC a'r Prif Gwnstabl fel y bo'n briodol ar gyfer y sefydliad? | | | |
| 14 | Ydi Cadeirydd y Pwyllgor yn meddu ar yr wybodaeth a sgiliau priodol? | | | |
| 15 | A oes trefniadau ar waith i gefnogi'r Pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | | | |
| 16 | A yw aelodaeth y Pwyllgor wedi eu hasesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd ac wedi'i gael yn foddhaol? | | | |
| 17 | Oes gan y Pwyllgor gysylltiadau gweithio da gyda phobl allweddol a sefydliadau, gan gynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r prif swyddog ariannol? | | | |
| 18 | A ddarperir ysgrifenyddiaeth a chymorth gweinyddol digonol i'r Pwyllgor? | | | |
| **Effeithiolrwydd y Pwyllgor** | | | | |
| 19 | Ydi'r Pwyllgor wedi cael adborth ar ei berfformiad gan y rheini sy'n rhyngweithio gyda'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith? | | | |
| 20 | Yw cyfarfodydd yn effeithiol gyda lefel dda o drafodaeth ac ymgysylltu gan yr holl Aelodau? | | | |
| 21 | Mae'r Pwyllgor yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys trafod darganfyddiadau'r archwiliad, risgiau a chynlluniau gweithredu gyda swyddogion cyfrifol? | | | |
| 22 | Yw'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella llywodraethu, risg a rheolaeth a'r rhain yn cael eu gweithredu? | | | |
| 23 | A yw'r Pwyllgor wedi gwerthuso os yw, a sut, y mae'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad? | | | |
| 24 | Oes gan y Pwyllgor gynllun gweithredu i wella unrhyw feysydd o wendid? | | | |
| 25 | Yw'r Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i gyfrif am ei berfformiad ac egluro ei waith? | | | |

# Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio

## Allwedd i'r Asesiad

5 Mae tystiolaeth glir ar gael o nifer o ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol wrth gefnogi gwelliannau ar draws pob agwedd o'r maes hwn. Mae modd adnabod y gwelliannau a wnaed yn hawdd.

4 Tystiolaeth glir o rai ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol ac yn effeithiol wrth gefnogi gwelliannau ar draws rhai agweddau o'r maes hwn.

3 Mae'r Pwyllgor wedi cael profiad gymysg wrth gefnogi gwelliant yn y maes hwn. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos eu heffaith ond mae bylchau sylweddol hefyd.

2 Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod y Pwyllgor wedi cefnogi'r gwelliannau, ond mae effaith y cymorth hwn yn gyfyngedig.

1 Ni ellir gweld unrhyw dystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi'r gwelliannau yn y maes hwn.

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol: 5 – 1 allwedd uchod |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da a'u cymhwyso i'r drefn o wneud penderfyniadau. | • Cefnogi datblygiad côd llywodraethu lleol<br>• Darparu adolygiad cadarn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r sicrwydd sy'n ei ategu.<br>• Gweithio gydag aelodau allweddol i wella eu dealltwriaeth o'r DLlB a'u cyfraniad iddo.<br>• Yn cefnogi adolygiadau/archwiliadau o'r trefniadau llywodraethu.<br>• Cymryd rhan mewn hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu.<br>• Gweithio gyda pwyllgorau archwilio partneriaid i adolygu trefniadau llywodraethu mewn partneriaethau. | | |
| Cyfrannu at ddatblygu amgylchedd rheolaeth effeithiol. | • Mynd ati i fonitro gweithrediad argymhellion archwilwyr.<br>• Annog perchnogaeth y fframwaith rheoli mewnol gan reolwyr priodol.<br>• Codi pryderon sylweddol dros reolaethau gydag uwch reolwyr priodol. | | |
| Cefnogi sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu risg ac ar gyfer trefniadau effeithiol i reoli risgiau. | • Adolygu trefniadau rheoli risg a'u heffeithiolrwydd, e.e. meincnodi rheolaeth risg.<br>• Monitro gwelliannau.<br>• Dal perchenogion risg i gyfrif am risgiau strategol/mawr. | | |
| Rhoi cyngor ar ddigonolrwydd y fframwaith sicrwydd ac ystyried p'un ai yw sicrwydd yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. | • Wedi pennu ei anghenion sicrwydd, gan nodi bylchau neu orgyffwrdd mewn sicrwydd.<br>• Yn ceisio symleiddio'r drefn o gasglu ac adrodd ar sicrwydd.<br>• Adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd, e.e. archwilio mewnol, rheoli risg, archwilio allanol. | | |

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol: 5 – 1 allwedd uchod |
|---|---|---|---|
| Cefnogi ansawdd y weithgaredd archwilio mewnol, yn arbennig wrth gefnogi ei annibyniaeth sefydliadol | • Adolygu'r siarter archwilio a'r trefniadau adrodd swyddogaethol.<br>• Asesu effeithiolrwydd y trefniadau archwilio mewnol, gan herio'n adeiladol a chefnogi gwelliannau<br>• Mynd ati i gefnogi sicrwydd ansawdd a rhaglen wella archwilio mewnol | | |
| Helpu i gyflawni nodau ac amcanion yr awdurdod drwy helpu i sicrhau trefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd priodol. | • Adolygu sut mae'r trefniadau llywodraethu yn cefnogi cyflawniad canlyniadau cynaliadwy<br>• Adolygu prosiectau a rhaglenni mawr er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar waith.<br>• Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli perfformiad. | | |
| Cefnogi datblygiad trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian. | • Gwneud yn siŵr bod sicrwydd o ran trefniadau gwerth am arian wedi eu cynnwys yn y sicrwydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>• Ystyried sut y bydd perfformiad o ran gwerth am arian yn cael ei werthuso fel rhan o'r DLlB. | | |
| Helpu'r awdurdod i weithredu gwerthoedd llywodraethu da, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau twyll a llygredd. | • Adolygu'r trefniadau yn erbyn y safonau sydd wedi eu gosod allan yn y Côd Ymarfer ar Reoli Risg Twyll a Llygredigaeth (CIPFA, 2014).<br>• Adolygu risgiau twyll ac effeithiolrwydd strategaeth y sefydliad i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.<br>• Asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu moesegol ar gyfer staff a llywodraethwyr. | | |

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol: 5 – 1 allwedd uchod |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol a mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd. | • Gwella sut y mae'r awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer adrodd cyhoeddus; er enghraifft, gwell targedu ar y gynulleidfa, iaith blaen.<br>• Adolygu os yw penderfyniadau a wneir drwy sefydliadau partneriaeth yn parhau i fod yn dryloyw a hygyrch i'r cyhoedd ac yn annog mwy o dryloywder.<br>• Cyhoeddi adroddiad blynyddol gan y pwyllgor. | | |

# Eitem 10

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **19 GORFFENNAF 2018** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MEHEFIN 2018** |
| AWDUR | **CYNGHORYDD RICHARD MEDWYN HUGHES** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 19 Mehefin 2018 gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cynghorydd Richard Medwyn Hughes a'r Cynghorwyr Angela Russell, Alwyn Gruffydd, Cemlyn Williams, Dewi Roberts, Berwyn Parry Jones, Paul Rowlinson, Sion Jones, Charles Wyn Jones, John Pughe Roberts, Aled Evans, Sharon Warnes (Aelod Lleyg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio) a Eva Chan Williams (Arweinydd Archwilio) yn bresennol.

1.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | BARN YR ARCHWILIAD |
|---|---|---|
| Tai â Chefnogaeth | Oedolion, Iechyd a Llesiant | C |
| Y Frondeg | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Dim Categori |
| Modiwl Datblygu Staff | Corfforaethol | C |
| Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau | Corfforaethol | C |
| Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi | Corfforaethol | C |
| Cynlluniau Adeiladu Ysgolion – Ysgol Glancegin | Amgylchedd | B |
| Manddaliadau | Amgylchedd | Ch |

1.3 Mynychodd y swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau

**2.1 Tai â Chefnogaeth**

2.1.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Ymwelwyd â thri tŷ yn ystod yr archwiliad, sef Bryn Afon, Dyffryn Ardudwy a 106 Lôn Abererch, Pwllheli, sydd dan reolaeth Rheolwr Tai â Chefnogaeth, a 4 Bryn Rhos, Caernarfon, sydd dan reolaeth y Rheolwr Gofal Cofrestredig. Yn gyffredinol, gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.*

*Gwelwyd nad oedd profion tân yn cael eu cynnal yn amserol yn 4 Bryn Rhos, ac nad oedd cofnod o ymweliadau a phrofion 'Snowdonia Fire Protection' yn 106 Lôn Abererch. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth iddynt ymweld yn rheolaidd. Yn ogystal, gwelwyd mai Cynllun Rheoli Tân dyddiedig 2008 oedd yn y tai. Anfonwyd y fersiwn gyfredol, ddyddiedig 2017 i'w sylw yn dilyn yr ymweliadau.*

*Gwelwyd nad oedd asesiadau risg yn cael eu harwyddo a'u dyddio yn dilyn adolygiadau, gan roi'r argraff nad oedd adolygiad wedi ei gynnal ers dyddiad creu'r asesiad. Derbyniwyd cadarnhad y caiff hyn ei wneud o hyn ymlaen.*

*Wrth adrodd ar ddamweiniau, nid oes copi o ffurflenni HS11 yn cael eu cadw ar gyfer pob tŷ. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth fod y gwreiddiol yn cael ei anfon at yr Uned Iechyd a Diogelwch, gan adael y tai heb gofnod. Mynegwyd y bydd copi yn cael ei gadw yn y tai o hyn ymlaen.*

*Gwelwyd nad oedd gwiriadau stoc meddyginiaeth yn cael eu cynnal ym Mryn Afon nac yn 106 Lôn Abererch, er y dylid eu cynnal yn wythnosol. Yn yr un modd, nid yw tymheredd yr ystafell yn cael ei fonitro yn 4 Bryn Rhos. Cadarnhaodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig y byddai cofnod yn cael ei gadw o hyn ymlaen.*

*Yn gyffredinol, gwelwyd nad oedd hyfforddiant y Gweithwyr Cefnogol yn gyfredol, gyda 'cymwysterau' rhai wedi dod i ben, ac eraill heb eu hyfforddi mewn meysydd penodol o gwbl. Gwiriwyd cofnodion 15 Gweithiwr Cefnogol, 5 ym mhob tŷ. Gwelwyd mai ond 5 ohonynt oedd gyda hyfforddiant meddyginiaeth a hyfforddiant tân cyfredol. Cadarnhaodd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth ei fod yn anodd cael llefydd ar gyrsiau hyfforddiant tân, gyda'r llefydd yn llenwi yn sydyn.*

*Nid yw ceisiadau imprest yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd. Roedd y Rheolwr Tai â Chefnogaeth eisoes yn ymwybodol o hyn a cadarnhaodd ei bod yn ymdrechu i'w cyflwyno yn fwy aml. Gwelwyd fod cyfrifon 106 Lôn Abererch a Bryn Afon mewn dyled o £640 a £5,000 yn ôl eu trefn ar ddechrau mis Mawrth 2018.*

*Gwelwyd fod cyfraniadau cleientiaid Bryn Afon tuag at gostau bwyd y tŷ yn cael eu talu allan o'r cyfrif imprest, cyn wedyn cael eu had-dalu i'r cyfrif o gyfrifon banc y cleientiaid unigol. Cadarnhaodd y Swyddog Rheoli Cyllid ac Asedau Cleientau fod y drefn yma wedi ei sefydlu gan fod lleoliad y tŷ yn ei wneud yn anymarferol i'r Gweithwyr Cefnogol ymweld â Swyddfeydd y Cyngor ar gyfer casglu arian parod, fel y drefn mewn nifer o dai eraill. Ychwanegodd bod trafodaethau wedi eu cynnal yn y gorffennol ar gyfer agor cyfrif banc personol i bob tŷ, gyda chyfraniadau bwyd yn cael eu talu yn syth iddo. Gall y gweithwyr wedyn ymweld ag unrhyw beiriant arian ar gyfer ei dynnu allan. Nid yn unig buasai hyn wedi hwyluso'r broses i'r Gweithwyr Cefnogol, gan ryddhau mwy o'u hamser ar gyfer gofalu am y cleientiaid, ond y buasai'n golygu fod pob tŷ yn gyson yn eu trefniadau. Cafodd y syniad ei gefnogi gan Reolwyr y tai, fodd bynnag, er trafodaethau a chyfarfodydd gyda'r banc, ni weithredwyd ymhellach.*

*Mynegodd y Swyddog Rheoli Cyllid ac Asedau Cleientau ei awydd i ail-gydio yn y syniad. Cytunodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig i'w drafod gyda'r Rheolwr Darparu a Datblygol Anabledd Dysgu.*
*Gwelwyd fod gorwario sylweddol eleni ar gyllideb lwfans teithio Lôn Abererch, ble mae tanwario yn erbyn y tai eraill. Darganfuwyd fod ceisiadau costau teithio'r Rheolwr Tai â Chefnogaeth a gyflwynwyd drwy hunanwasanaeth i gyd wedi eu talu o god gwariant Lôn Abererch, er bod pob siwrnai i dai eraill. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Cefnogol nad oedd gan hunanwasanaeth y gallu ar hyn o bryd i rannu costau. Cadarnhaodd y Cymhorthydd Cyfrifeg eu bod yn hapus i'r Rheolwr barhau i gyflwyno ceisiadau drwy hunanwasanaeth, ac y byddent yn rhannu'r gost rhwng y tai drwy drosglwyddiadau yn y cyfriflyfr.*

2.1.2 Croesawyd Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, Victoria Williams, Rheolwr Tai â Chefnogaeth a Dylan Owen, Rheolwr Gofal Cofrestredig (Tai â Chefnogaeth) i'r cyfarfod i drafod yr archwiliad.

2.1.3 Mynegodd y Pennaeth bod y gwasanaeth wedi ymdrechu i ymateb i gwestiynau sydd wedi codi yn sgil barn "C" adroddiad yr archwiliad ac eisoes wedi ymdrechu i ymdrin â gwendidau a chryfhau trefniadau. Ategodd bod y categori barn yn adlewyrchiad o beth yn fwy mae'r gwasanaeth angen ei wneud yn hytrach na bod y gwasanaeth yn wael.

2.1.4 Ymholodd Aelod pa mor bwysig oedd hyfforddiant ac os oes amser ar gyfer ei gyflawni. Dywedodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig bod hyfforddiant yn bwysig iawn a bod staff yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant e-ddysgu. Eglurodd y Pennaeth bod y gwasanaeth yn y broses o lunio rhaglen hyfforddiant newydd ac esboniodd nad oedd yn bosibl trefnu i bawb gael eu hyfforddi'n amserol oherwydd nad yw'n hawdd rhyddhau staff oherwydd diffyg adnoddau ac yn aml nid oes llefydd ar gael ar y cyrsiau neu'r ffaith nad yw'r hyfforddiant yn cael ei gynnal yn ddigon rheolaidd.

2.1.5 Ymholwyd y Rheolwr Gofal Cofrestredig beth oedd wedi rhwystro profion tân rhag cael eu cynnal. Eglurodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig nad oedd y profion wedi eu cynnal oherwydd bod y swyddog cyfrifol wedi bod ar wyliau am bythefnos ac nad oedd y dasg wedi cael ei dyrannu yn ei absenoldeb. Eglurodd bod trefniadau dirprwyo bellach wedi eu sefydlu a bod trefniadau i wirio'n wythnosol eisoes mewn lle. Dywedodd bod staff wedi eu hatgoffa o'r trefniadau a bod hyfforddiant tân yn cael ei roi pob dwy flynedd. Yn ogystal, mynegodd bod cyflwyniad "PowerPoint" sydd yn berthnasol i dŷ penodol wedi ei gyflwyno i'r cartrefi fel sesiwn i godi ymwybyddiaeth.

2.1.6 Mynegodd Aelod bod y materion sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad yn rai allweddol ac felly bod angen i'r gwasanaeth wirio eu systemau. Pwysleisiodd y Rheolwr Archwilio bod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ond nad oeddynt wedi eu dyddio a bod damweiniau wedi eu hadnabod a'u hadrodd i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ond nad oedd cofnod i gefnogi hynny yn y tai.

2.1.7 Awgrymodd Aelod oherwydd y nifer bychan oedd yn gweithio yn y tai, bod y Rheolwr yn adnabod trefn syml ar gyfer hyfforddiant. Cytunodd y Pennaeth bod rhaid cael trefn a bod rhaglen hyfforddiant gorfforaethol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn eu galluogi i adnabod y sawl sydd angen hyfforddiant ynghyd â phwy sydd wedi mynychu.

2.1.8 Gofynnodd Aelod am eglurhad am y gorwariant ar gostau teithio. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio nad oedd yn orwariant gwirioneddol ond ymddengys fel gorwariant oherwydd anallu'r system hunanwasanaeth costau teithio i ddyrannu'r costau teithio'n briodol.

2.1.9 I gloi, ymholwyd beth oedd y cynnydd ar y cynllun gweithredu cytunedig. Eglurodd y Rheolwr Gofal Cofrestredig bod yr holl gamau wedi eu gweithredu ac mewn perthynas â hyfforddiant, bod oddeutu 80% o'r staff wedi cael hyfforddiant a bod trefniadau ar y gweill ar gyfer y gweddill a bydd hynny wedi ei gyflawni erbyn yr amserlen gweithredu, sef 1 Rhagfyr, 2018.

**2.2 Y Frondeg**

2.2.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Derbyniwyd copi drafft o'r datganiad o ddiben gan y Rheolwr. Roedd yn cyfarfod gofynion AGGCC o'u hadroddiad (Ionawr 2018) a'r rhan fwyaf o'r gofynion ar gyfer datganiad o ddiben. Nid oedd gwybodaeth wedi'i gynnwys am bolisi 'rheoli ymddygiad' y cartref. Doedd dim gwybodaeth ychwaith am y trefniadau a wneir i ryddhau ymrwymiad person cofrestredig o dan reoliad 12 (4)(b) o Reoliadau Cartrefi Gofal Cymru (2002).*

*Gwiriwyd cynlluniau gofal sampl o 3 preswylydd a gwelwyd bod un wedi ei ddiweddaru ond nad oedd cynlluniau y ddau arall yn gyfredol. Roedd y cynlluniau yn gynhwysfawr ond angen eu diweddaru. Mynegodd y Rheolwr bod staff y cartref yn y broses o ddiweddaru cynlluniau gofal pob preswylydd.*

*Ni welwyd cytundeb rhwng y preswylydd a'r Cyngor ar gyfer y sampl o 3 preswylydd a ddetholwyd.*

*Gwelwyd tystysgrifau hyfforddiant o fewn ffeiliau unigol aelodau o staff. Roedd y rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ond bod rhai wedi dod i ben. Cytunodd y Rheolwr buasai taenlen i fonitro dyddiadau hyfforddiant y staff yn ddefnyddiol ac yn sicrhau bod hyfforddiant gweithwyr y cartref yn gyfredol.*

*Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod yn gweithio tuag at gymhwyster QCF lefel 5. Mae'r lefel yma o gymhwyster perthnasol yn ofynnol i fod yn rheolwr cofrestredig felly bydd 'dim Rheolwr cofrestredig' yn fethiant i gydymffurfio gyda AGGCC nes y bydd y cymhwyster wedi'i ennill.*

*Roedd diffyg goruchwyliaeth yn bryder gan AGGCC a gwelwyd bod diffyg wedi bod yn y maes dros rai misoedd. Roedd y Rheolwr wedi llwyddo i gynnal sesiynau goruchwylio gyda 13 aelod o staff ar adeg yr ymweliad ac roedd sesiynau goruchwyliaeth ar y gweill i weddill y staff.*
*Ni welwyd ffurflenni 'Eitemau Personol' ar gyfer y preswylwyr. Roedd y Rheolwr wedi trefnu i gyfarfod â Rheolwr cartref Tan Y Marian i gael gweld enghreifftiau o ddogfennau cyffelyb.*
*Mae bysellbad ar ddrws y swyddfa ac ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd codau'r ystafelloedd yma wedi eu hysgrifennu a'u rhoi ar y drws fel bod modd i unrhyw un gael mynediad. Mynegodd y Rheolwr nad oedd eisiau cael drws ei swyddfa wedi cloi yn y dyfodol i'r staff gael mynediad at gynlluniau gofal a pholisïau a.y.b.*
*Gwiriwyd dogfennau tân y cartref cedwir yn y bocs glas gan gynnwys y Llyfr Log Tân. Nid oedd cofnodion clir bod y profion yn cael eu cynnal yn unol â'r gofyn. Gwelwyd bod rhai cofnodion heb eu cyflawni gyda llofnod ond dim dyddiad a.y.b.*
*Gwelwyd asesiadau risg ar gyfer y gegin oedd wedi eu hadolygu ym mis Ionawr gan y Cogydd. Ni welwyd asesiadau risg cyffredinol y cartref. O'r sampl o 3 preswylydd, gwelwyd nad oedd asesiadau risg ar gyfer 2 ohonynt yn gyfredol. Mynegodd y Rheolwr bod cynllun ar y gweill i ddiweddaru'r rhain yn ogystal ag ymweliad i'r cartref gan Swyddog Iechyd a Diogelwch i sicrhau safonau.*
*Gwelwyd bod 1 aelod o staff heb gymhwyster o gwbl a bod 5 ble roedd eu hyfforddiant yn hŷn na 3 mlynedd neu yn dod i ben felly angen ei adnewyddu. Gwelwyd bod pob aelod staff o'r sampl wedi mynychu hyfforddiant diogelu ond roedd rhai angen eu hadnewyddu. O ran DBS, roeddent yn gyfredol ar gyfer pob aelod o staff o'r sampl oni bai am un. Gwnaethpwyd y Rheolwr yn ymwybodol o'r achos.*
*Gwelwyd taflen o lofnodion a llofnodion byrion staff ag awdurdod i arwyddo dogfennau meddyginiaeth. Holwyd y Swyddog Mewn Gofal ynglŷn â phrofion cymhwysedd a dywedodd eu bod yn cael eu cynnal weithiau, ymddengys nad oedd trefniant blynyddol fel y disgwylir; gwelwyd mai dau aelod o staff oedd gyda chofnod o brawf cymhwysedd yn eu ffeiliau. Gwelwyd bod copi o'r Polisi Meddyginiaeth ar gael i staff yn yr ystafell feddyginiaeth ond dim ond 4 o'r sawl oedd yn gweinyddu meddyginiaeth oedd wedi arwyddo i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y polisi. Roedd bysellbad wedi ei osod ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth, fodd bynnag mae côd y bysellbad wedi ei gofnodi a'i roi ar flaen y drws fel bod modd i unrhyw un cael mynediad. Gwiriwyd cofnodion tymheredd yr oergell feddyginiaeth a gwelwyd bod cofnodion cyson a chywir yn cael eu cadw. Er hyn, roedd y thermomedr yn arddangos bod tymheredd yr oergell yn 8.6°C yn ystod yr ymweliad, sydd uwch ben y trothwy uchaf o 8°C nodir ym Mholisi Feddyginiaeth y Cyngor.*

2.2.2 Ymunodd Delyth Hughes, Rheolwr Trawsffurfio Llesiant a Llety â'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant i drafod archwiliad y Frondeg.

2.2.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio nad oedd categori barn ar yr adroddiad oherwydd bod y gwaith wedi ei gynnal i gynorthwyo'r Rheolwr Trawsffurfio Llesiant a Llety i greu cynllun gwaith yn sgil y pryderon oedd wedi eu hamlygu. Mynegodd bod yr archwiliad wedi ei dylunio yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion o'r Adran a bod dealltwriaeth beth oedd amcanion yr archwiliad.

2.2.4 Mynegodd y Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant ei fod yn croesawu'r adroddiad ac eglurodd bod trefniadau hanesyddol yn bodoli yn y Frondeg ond bod cyfle erbyn hyn i roi trefniadau newydd ar waith ond na ellir gwneud hynny yn unionsyth.

2.2.5 Adroddodd y Pennaeth bod y materion sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad archwilio hefyd wedi derbyn sylw mewn adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Eglurodd bod newidiadau wedi digwydd, a bod gwelliant, ond bod mwy o waith i'w wneud ond eu bod ar y llwybr cywir.

2.2.6 Ymholwyd beth oedd y trefniadau hyfforddiant gyfer y Rheolwr. Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio at yr adroddiad oedd yn datgan bod "y Rheolwr yn gweithio tuag at gymhwyster QCF lefel 5". Ategodd y Pennaeth y bydd y Rheolwr yn cael ei mentora yn ogystal.

2.2.7 Mynegodd y Rheolwr Trawsffurfio Llesiant a Llety ei bod yn croesawu'r adroddiad a bod y cynllun cytunedig yn gweithredu fel rhaglen waith a bod yr archwiliad wedi bod yn gymorth iddi.

2.2.8 Eglurodd y Rheolwr Archwilio y bydd archwiliad llawn yn cael ei chynnal yn y Frondeg yn ystod 2018/19 a bydd categori barn yn cael ei ddyrannu bryd hynny yn ogystal â gwirio bod argymhellion yr Arolygiaeth Gofal Cymru wedi derbyn sylw.

2.2.9 Diolchwyd i'r Pennaeth a'r Rheolwr Trawsffurfio Llesiant a Llety am fynychu'r cyfarfod.

**2.3 Modiwl Datblygu Staff**

2.3.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Derbyniwyd copi o'r brîff prosiect yn ogystal â dogfennaeth eraill ynglŷn â rheoli'r prosiect megis cais prosiect a rhestr 'backlog'. Roedd gwybodaeth gyflawn am amcanion cychwynnol y prosiect a'r tasgau technegol oedd angen eu cwblhau a phryd. Roedd diffyg tystiolaeth o gynllunio tymor hir ar gyfer y prosiect. Nid oedd yn rhan o gynllun swyddogol ond mynegwyd mewn cyflwyniad i ran-ddeiliaid y prosiect buasai 'SIDD (System Integredig Dysgu a Datblygu) llawn yn fyw erbyn Haf 2017'. Gwelwyd amserlenni/cynlluniau am gyfnodau o dri (Medi - Tachwedd 2017) a phum mis (Hydref 2017 - Chwefror 2018) ond prin oedd tystiolaeth bod y prosiect yn ymlynu at yr amserlenni hyn neu gofnod yn nodi methiant a rhesymeg dros hynny. Yn yr amserlen Medi - Tachwedd, roedd y system i fod 'yn fyw' rhwng y 6ed a'r 17eg o Dachwedd.*

*Erbyn hyn, mae swyddogion TG yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda swyddogion y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Ar amser cynnal yr archwiliad, nid oedd elfennau craidd rheoli prosiect wedi eu sefydlu megis cofrestr risgiau a materion arwyddocaol - er bod log "issue" yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth TG, doedd risgiau'r prosiect yn ei gyfanrwydd heb eu hadnabod; log gwersi a ddysgwyd, nac unrhyw ddogfennaeth monitro cyllid.*

*Pwysleisiodd y Swyddog Dysgu a Datblygu a'r Swyddog Datblygu Busnes a Chydlynydd Hyfforddi bod y MoDS yn system i bawb nid i'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn unig. Mae felly'n bwysig i'r system gyfarfod anghenion pob adran o fewn y Cyngor. Ar y cyfan mae'r MoDS yn cyfarfod rhan helaeth o anghenion bob adran gyda rhai adrannau megis YGC a Phriffyrdd a Bwrdeistrefol yn awyddus i lansiad y modiwl.*

*Cafodd nodweddion ychwanegol a gwelliannau eu hychwanegu yn sgil ymgynghori ag adrannau, yn arbennig o safbwynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Serch y ffaith bod y modiwl am gwrdd anghenion y mwyafrif, eglurodd swyddogion y Gwasanaeth Datblygu Gweithlu, (o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) bod llawer o unigolion nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor yn derbyn hyfforddiant gan y Cyngor ac nad oes modd eu cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth staff. Erbyn hyn, mae trefniadau ar y gweill i alluogi cofnodi hyfforddiant gweithwyr asiantaethau allanol ond bydd hyn yn cael ei wneud gan swyddogion y Gwasanaeth Datblygu Gweithlu (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant). Ni dderbyniwyd cais am hyn ar gychwyn "bywyd" y prosiect gan nad oedd cyfathrebiad wedi bod gyda'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynglŷn â'r prosiect ar yr adeg. Mae trefniadau ar y gweill gan y Gwasanaeth Cefnogol i gofrestru gweithwyr maes y Cyngor ar y system Hunanwasanaeth staff a fydd yn galluogi mynediad at y MoDS.*

*Eglurwyd yn ystod yr archwiliad bod ymgynghorydd TG allanol wedi ei gyflogi drwy asiantaeth i ymgymryd â'r prosiect. Bu i'r ymgynghorydd derfynu gyda'r Cyngor ar 17 Tachwedd 2017. Echdynnwyd manylion o'r cyfriflyfr ariannol a gwelwyd bod cyfanswm o oddeutu £90k heb gynnwys TAW wedi ei dalu i'r asiantaeth am y cyfnod o 12 mis. Cytundeb 6 mis a sefydlwyd yn wreiddiol gyda dau estyniad pellach o 3 mis. Ariannir y prosiect gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Mae'r cyfrifoldeb am ddatblygiad gweithredol y prosiect wedi ei drosglwyddo'n ôl i Wasanaeth TG y Cyngor yn dilyn terfynu gwasanaeth yr Ymgynghorydd TG allanol. Eglurwyd bod llawer o amser yr ymgynghorydd wedi ei dreulio yn casglu gwybodaeth a manylion oherwydd diffyg briff clir a phendant o anghenion a chyfeiriad y prosiect yn hytrach na chanolbwyntio ar yr elfennau technegol.*

*Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad ar y defnydd o'r MoDS ar draws y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.*

2.3.2 Croesawyd Ian Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol ac Alun Williams, Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu i'r Gweithgor.

2.3.3 Rhoddwyd cyd-destun yr archwiliad gan y Rheolwr Archwilio ac eglurodd bod hyfforddiant yn dod i'r amlwg dro ar ôl tro mewn archwiliadau ac y dylai'r datrysiad corfforaethol hwn fod o gymorth i gwrdd ag anghenion dysgu a datblygu.

2.3.4 Mynegodd yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol bod newidiadau wedi digwydd ers cyhoeddi'r adroddiad. Eglurodd yn hanesyddol bod prosiectau yn cael eu gweithredu ar wahân ond yn y 6 mis diwethaf bod bwrdd wedi ei sefydlu i gael trosolwg o'r anghenion. Eglurodd bod y prosiectau sydd yn derbyn sylw gan y Bwrdd Systemau Adnoddau Dynol yn cynnwys y Modiwl Datblygu Staff, costau teithio, adrodd damweiniau, salwch, cydraddoldeb, amserlenni a thaliadau staff. Eglurwyd bod aelod o'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth hefyd yn eistedd ar y Bwrdd ac mai'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth sydd yn blaenoriaethu'r gwaith.

2.3.5 Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad am y diffyg briff clir ar gyfer y datblygiad. Mynegodd yr Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu nad oedd y briff a luniwyd o bosibl yn ddigon manwl ar gyfer yr elfen Technoleg Gwybodaeth ond yn ddigonol ar y pryd i baratoi achos busnes clir gyda amcangyfrif o arbedion dros amser.

2.3.6 Ymholwyd o ble cafwyd y £90K i gyflogi ymgynghorydd allanol ar gyfer y prosiect. Eglurodd yr Uwch Reolwr bod yr arian wedi ei ddyroddi gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Ymholodd Aelod os y gwariant hwn yn gost heb fuddion. Ymatebodd yr Uwch Reolwr ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i asesu ond dylai bod buddion yn y cyfnod hir. Eglurodd pan luniwyd y prosiect yn 2014, roedd £134K o wariant unwaith ac am byth a £33K yn barhaol i gyflogi datblygwr a bod y £90K wedi ei wario i gyflogi ymgynghorydd allanol er mwyn cwblhau'r system yn gyflymach oherwydd diffyg capasiti gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth.

2.3.7 Eglurodd yr Uwch Reolwr bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad ar y prosiect. Gofynnodd Aelod beth oedd y rhesymeg dros ddatblygu system fewnol yn hytrach na chynnyrch "off the shelf". Mynegodd yr Uwch Reolwr bod y penderfyniad wedi ei wneud i ddatblygu system yn fewnol oherwydd anghenion ieithyddol.

2.3.8 Ymholodd Aelod os yw amser wedi derbyn ystyriaeth yn yr arbedion/amser i gyrraedd cost niwtral. Ymatebodd yr Uwch Reolwr nad oedd hynny wedi ei ystyried o fewn yr arbedion.

2.3.9 I ddiweddu, cyfeiriwyd at y cynllun gweithredu cytunedig a chadarnhaodd yr Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu bod amserlen glir bellach wedi ei sefydlu a bydd dosbarthiad y MoDS ar gael i ddefnyddwyr erbyn Hydref 2018. Mynegodd y Rheolwr Archwilio y bydd yn cynnal archwiliad dilynol ar y Modiwl Datblygu Staff yn 2018/19.

2.3.10 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu am fynychu'r cyfarfod.

## 2.4 Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gwelwyd bod trefniadau mewn lle ond nid ydynt yn derbyn y sylw angenrheidiol. Mae swyddogion wedi eu penodi i weinyddu'r drefn ond mae'n hanfodol bod holl swyddogion y Cyngor yn cydweithio â hwy.*

*Mae'r ohebiaeth cadarnhau dyddiad ac amser cyfweliad yn nodi ei fod yn hanfodol bod yr ymgeisydd yn dod ag unrhyw dystysgrifau neu dystiolaeth o gymwysterau y gofynnir amdanynt yn y 'Manylion Person' yn ogystal â phrawf o'u hunaniaeth gyda hwy i'r cyfweliad. Cyfrifoldeb y Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol yw sicrhau bod y dystiolaeth yn briodol, fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn y mwyafrif o achosion.*

*Cymhorthyddion Adnoddau Dynol sydd yn gyfrifol am wneud cais am dystlythyrau i'r Canolwyr, hwy hefyd sydd yn eu derbyn cyn eu cyflwyno i'r Rheolwyr perthnasol.*

*Mewn rhai achosion nid ydynt yn derbyn tystlythyrau ac mae angen dilyn y rhain i fyny a all fod yn drafferthus. Os oes cyfnod yn mynd heibio heb dderbyn tystlythyr yna maent yn gofyn i'r Rheolwr cael gair gyda'r ymgeisydd ac efallai yn gofyn iddynt am Ganolwr arall. Os yw'n ymgeisydd allanol, bydd angen i'r Rheolwr gwblhau asesiad risg ar eu cyfer hyd y derbynnir y tystlythyr. Gweinyddir yr un drefn ar gyfer swyddogion mewnol, ond un tystlythyr yn unig sydd ei angen gan y Rheolwr cyfredol. Yn ogystal, os yw'r swyddog yn derbyn dyrchafiad nid oes angen tystlythyr gan mai'r un Rheolwr fydd ganddynt.*

*Detholwyd sampl o 20 unigolyn oedd wedi derbyn swydd newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwiriwyd eu ffeiliau personél am dystiolaeth o'u cymwysterau, tystlythyrau a phrawf o'u hunaniaeth a darganfuwyd y canlynol:*

*a) tystiolaeth o gymwysterau ar gyfer 10 yn y sampl ond nid oedd cofnod yn ffeiliau'r gweddill a all olygu bod swyddogion mewn swydd heb y cymwysterau gofynnol;*

*b) tystlythyrau wedi eu derbyn ar gyfer 10 yn y sampl ond nid oedd angen tystlythyrau ar gyfer 7 arall yn y sampl oherwydd ymddengys mai dyrchafiad neu secondiad oeddynt wedi derbyn. Ni welwyd unrhyw dystlythyrau ar gyfer y 3 arall yn y sampl. Yn ogystal gwelwyd bod un o'r tystlythyrau a wiriwyd ddim yn briodol ac wedi cael ei gwblhau gan Gyfrifydd yr unigolyn.*

*c) prawf o hunaniaeth wedi ei gynnal ar gyfer 13 unigolyn yn y sampl.*

*Mae trefniadau newydd wedi dod i rym ers dechrau 2018. Yn dilyn penodiad bydd yr unigolyn yn derbyn cais gan Cymhorthyddion Adnoddau Dynol i ddod i Siop Gwynedd gyda thystiolaeth o'u hunaniaeth a'u cymwysterau os yn berthnasol. Yn ogystal, bydd y swyddogion yn derbyn ffurflenni DBS yr unigolion (os yn berthnasol) ar yr un pryd, fel bod modd symud y broses ymlaen yn gynt. Roedd yn anorfod dod â'r trefniadau yma yn i rym oherwydd methiant ar ran rheolwyr i dderbyn tystiolaeth.*

*Holwyd sampl o Reolwyr ar draws Adrannau'r Cyngor ynglŷn â'u trefniadau derbyn tystlythyrau ac os ydynt yn dilyn unrhyw ganllaw penodol. Mynegwyd nad oes ganddynt ganllaw ffurfiol i'w ddilyn ond roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o'r angen i dderbyn tystlythyrau.*

*Darganfuwyd wrth wirio mewnrwyd y Cyngor, yn benodol safle Tystlythyrau (FAQ) - mynegir os na dderbynnir tystlythyrau o fewn cyfnod o fis i'r penodiad bydd gan y Cyngor yr hawl i dynnu'r swydd yn ôl.*

*Fodd bynnag, ym mholisi '1.6 Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol', mynegir yn rhan 1.11 "bydd y Cyngor yn caniatáu i unigolyn ddechrau yn y swydd mewn sefyllfa ple na dderbyniwyd tystlythyrau ond cyfyngir y cyfnod ar gyfer derbyn y tystlythyrau i ddau fis yn dilyn dyddiad cychwyn y gweithiwr yn y swydd". Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol bod y wybodaeth yn anghyson a bod angen ei addasu fel ei fod yn gyson gyda'r Polisi Datgelu Troseddau. Mae'r FAQ's hefyd yn nodi mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod y Cyngor yn derbyn tystlythyrau o fewn cyfnod o fis o'u penodiad sydd hefyd ddim yn gywir. Fodd bynnag, dylid nodi bod y dudalen yma yn y broses o gael ei datblygu.Nid yw categori barn yr archwiliad yn adlewyrchiad ar waith Gwasanaeth Cefnogol y Cyngor ond yn hytrach diffyg gweithrediad priodol o safbwynt Rheolwyr y Cyngor.*

2.4.2 Ymunodd Mari Powell Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol â Ian Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol i drafod yr adroddiad.

2.4.3 Cyflwynwyd cyd-destun o'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio gan egluro mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau bod tystiolaeth o gymwysterau yn cael eu derbyn a'u gwirio a bod y Gwasanaeth Cefnogol yn gyfrifol am wneud cais am dystlythyrau.

2.4.4 Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol bod trefniadau newydd bellach wedi eu sefydlu ac nad oedd y Gwasanaeth Cefnogol, o dan yr hen drefniadau, yn derbyn tystiolaeth o gymwysterau oherwydd mai'r rheolwyr sydd yn penodi sydd yn gyfrifol am wirio'r dogfennau yn ystod cynnal cyfweliadau. Erbyn hyn, mae rheolwyr yn derbyn e-bost pob 3/6 mis i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â recriwtio a phenodi.

2.4.5 O dan y trefniadau newydd, eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol, yn dilyn unrhyw benodiad, anfonir llythyr at yr ymgeisydd yn gofyn iddynt gyflwyno'r dogfennau perthnasol i un o Siopau Gwynedd cyn y bydd dyddiad cychwyn yn cael ei ryddhau iddynt. Mynegodd y Rheolwr yr ymddengys bod y trefniadau hyn yn gweithio.

2.4.6 Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio mai trefn gorfforaethol yw hyn ond nad yw'r un trefniadau yn cael eu gweitheredu ar gyfer Addysg, Gwaith Bwrdeistrefiol a Gofal Cymunedol.

2.4.7 Mynegodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol nad yw'r trefniadau yma yn cael eu dilyn ar gyfer penodiadau ar frys, e.e. glanhawyr ysgol. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol y bydd y staff o dan oruchwyliaeth hyd y derbynnir eu dadleniad "DBS".

2.4.8 Mynegodd Aelod bryder nad oedd prosesau ffurfiol yn cael eu dilyn ac y gall arwain at benodiad cyn gwirio unrhyw dystiolaeth a thystlythyrau. Mynegodd y dylai bod proses i sicrhau bod y Cyngor fel cyflogwr yn cael ei warchod ynghyd â'r ymgeisydd.

2.4.9 Cafwyd trafodaeth am benodiadau dros dro ar frys, y nifer a phwy sydd yn eistedd ar banel cyfweld, pa hyfforddiant sydd wedi ei roi ynghyd â'r gwaith papur sydd i'w gwblhau yn ystod ac yn dilyn cyfweliadau.

2.4.10 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod angen ymlynu at egwyddorion Ffordd Gwynedd a bod Rheolwyr wedi eu grymuso i gyflawni eu dyletswyddau ac mai ym mhenodiadau prif swyddogion yn unig mae rôl i Aelodau.

2.4.11 Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogol a'r Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol am fynychu'r cyfarfod.

**2.5 Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi**

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Ymwelwyd â nifer o sefydliadau er mwyn trafod wyneb i wyneb gyda gweithwyr maes, gan holi ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o bolisi'r Cyngor a'i gynnwys. Yn ogystal, holwyd ynglŷn â'r mathau o gamdriniaeth y buasent yn adrodd arno ac i bwy. Llwyddwyd i gasglu 63 o ymatebion gan weithwyr heb gyfeiriad e-bost Cyngor Gwynedd drwy ymweld â chyfarfodydd bro Gofalwyr Cymunedol, yn ogystal â Chartrefi Preswyl, Canolfannau Hamdden a Depos.*

*Dengys canlyniadau'r trafodaethau bod 76% o staff, allan o'r sampl o 63, yn ymwybodol bod gan y Cyngor Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Roedd y canlyniad yma yn ddisgwyliedig gan nad yw gweithwyr maes yn derbyn gymaint o gyswllt o gymharu â gweithwyr sydd â chyfeiriad e-bost Gwynedd.*

*Eglurwyd i'r gweithwyr mai polisi Cyngor Gwynedd yw'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus a'i fod yn wahanol i bolisïau allanol megis Polisi POVA (Protection of Vulnerable Adults). Er bod sawl gweithiwr wedi mynegi eu bod yn ymwybodol o'r polisi, nid oedd y trafodaethau cafwyd yn awgrymu bod hyn yn wir ym mhob achos. Yn ogystal, wrth drafod agweddau o'r Polisi, megis ei fod yn berthnasol i fywyd tu allan y gwaith, rôl y Rheolwyr Dynodedig Adrannol ayyb, darganfuwyd fod rhai oedd wedi mynegi eu bod yn ymwybodol o'r cynnwys efallai ddim mor gyfarwydd ohono wedi'r cwbl.*

*Mynegodd sawl un ohonynt eu bod wedi cwblhau modiwl diogelu ar e-ddysgu ac eraill yn nodi eu bod angen ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ond eu bod yn cael trafferth cael mynediad i'r system.*

*Trafodwyd y mathau gwahanol o gamdriniaeth a'u harwyddion fel y nodir yn y Polisi, ac roedd y rhan helaeth o weithwyr yn ymwybodol ohonynt. Serch hyn, nid yw'n golygu eu bod yn ymwybodol o'r polisi a gweddill ei gynnwys. Trafodwyd petai'r gweithwyr yn poeni bod unigolion, boed yn y gweithle neu ddim, yn dioddef o gamdriniaeth yna holwyd a fuasent, ac i bwy, y byddent yn cyfeirio eu pryderon.*

*Roedd yr ymatebion yn amrywio, ond nododd mwyafrif o'r gweithiwr mai at eu Rheolwr Llinell buasent yn mynd yn gyntaf i fynegi eu pryderon ac i gael cyngor, er bod yr Archwilwyr yn atgyfnerthu bod y polisi yn cwmpasu bywyd a phryderon tu allan i waith yn ogystal. Derbyniwyd ymatebion eraill megis, cysylltu gyda AGGCC, dilyn canllawiau POVA, Childline neu gysylltu yn syth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol. Mynegodd un gweithiwr y buasai'n cael gair gyda'r teulu petai ganddo bryderon ynglŷn â chamdriniaeth ariannol. Yn ogystal, petai ganddo bryderon ynglŷn ag unigolyn yn cael ei gam drin yn emosiynol, buasai'n siarad gyda'r unigolyn sydd yn achosi'r pryder.*

*Yn dilyn pwysleisio bod y polisi yn cwmpasu bywyd tu allan i waith hefyd, mynegodd sawl un buasent yn un ai yn cysylltu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu. Ond wrth holi ymhellach ynglŷn â chamdriniaeth megis sefydliadol, ariannol ac emosiynol roedd rhai unigolion yn ansicr o beth oedd hyn yn ei olygu.*

*Eglurwyd er ei fod yn rhesymol i drafod pryderon gyda'u Rheolwyr Llinell, nid yw hyn yn 'cyfeirio' yn y gwir ystyr, ac nid yn ymarferol petai'r pryder am rywbeth tu allan y gwaith. Trafodwyd rôl y Rheolwr Diogelu Dynodedig Adrannol a bod modd siarad gyda'r Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Plant, y Tîm Cynghori ac Asesu Gwasanaeth Oedolion, neu Tîm Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01766 772577 neu Uned Amddiffyn y Cyhoedd - yr Heddlu (rhif ffôn - 101), ac eglurwyd os ydynt yn meddwl bod y plentyn neu oedolyn mewn perygl yn syth, yna dylid ffonio'r Heddlu. Mynegodd sawl gweithiwr nad oeddynt yn ymwybodol o'r rhif ffôn cyfeirio.*

*Yn ystod y trafodaethau gyda'r gweithwyr, dosbarthwyd pamffledi diogelu'r Cyngor yn ogystal â'r cardiau gwybodaeth. Eglurwyd bod y pamffledi yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â mathau o gamdriniaeth, y rhif cyfeirio a beth fyddai'r camau nesaf. Mynegodd rhai o'r sampl nad oeddynt yn ymwybodol o'r llun llaw diogelu tra bod eraill yn dweud eu bod eisoes wedi derbyn pamffled a cherdyn gwybodaeth. Dosbarthwyd y rhain i'r gweithwyr ac i'r Rheolwyr Llinell/Goruchwylwyr yn ystod ein cyfarfodydd.*

2.5.2 Croesawyd Janet Roberts, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol i'r cyfarfod yn ei swyddogaeth fel aelod o'r Panel Gweithredol Diogelu.

2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y Panel Gweithredol Diogelu wedi comisiynu gwaith gan Archwilio Mewnol i adrodd ar ymwybyddiaeth staff o'r polisi. Esboniodd mai yn y gorffennol bod yr archwiliadau wedi pwysleisio ar ymwybyddiaeth staff mewn swyddfeydd, h.y. gyda chyfeiriad e-bost, ond bod yr archwiliad a wnaethpwyd yn 2017/18 wedi rhoi sylw i weithwyr maes.

2.5.4 Rhoddwyd cefndir y Panel Gweithredol Diogelu i'r Gweithgor gan yr Uwch Reolwr a mynegodd ei gwerthfawrogiad am waith Archwilio Mewnol a nododd bod dull gwahanol wedi ei gymryd i fesur ymwybyddiaeth gweithwyr maes.

2.5.5 Ymholodd Aelod am fanylion pellach am y canrannau yn yr adroddiad ac oeddynt yn ddisgwyliedig. Ymatebodd yr Uwch Reolwr drwy egluro bod ymwybyddiaeth yn uchel o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a bod yr Adran wedi darparu sticeri pwrpasol ar gyfer cerbydau'r Adran a bod y gweithwyr hyn, am eu bod yn weladwy i'r cyhoedd, yn bwysig iawn.

2.5.6 Ymholodd Aelod sut y gellir sicrhau bod y gweithwyr yn deall eu goblygiadau a sut i ymateb. Ymatebodd yr Uwch Reolwr bod y wybodaeth yn cael ei roi i'r gweithwyr a bod trafodaethau ar ystadegau cwblhau hyfforddiant yn derbyn sylw yn y Panel Gweithredol Diogelu. Eglurodd yr Uwch Reolwr y gobeithir gweithredu ar system i adnabod ac atgoffa gweithwyr sydd angen hyfforddiant.

2.5.7 I gloi, eglurodd y Rheolwr Archwilio y bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad yn y maes diogelu yn 2018/19 – Trais yn y Cartref fydd testun yr archwiliad.

2.5.8 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr am fynychu'r Gweithgor.

**2.6 Cynlluniau Adeiladu Ysgolion – Ysgol Glancegin**

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae'r cytundeb gwreiddiol werth £4,439.000. Gwelwyd fod trefniadau cadarn ar y cyfan er mwyn rheoli'r prosiect ond fod posib tynhau ar rai agweddau ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.*

*Gwahoddwyd 6 o'r cwmnïau a oedd ar Fframwaith Contractwyr Gogledd Cymru (NWCF) i gyflwyno tendr am y gwaith ond dau yn unig a gyflwynodd dendr. Nid yw'r fframwaith wedi cael yr effaith ddisgwyliedig yng Ngwynedd hyd yma ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nid oedd Gwynedd yn fodlon â'r telerau cychwynnol ar gyfer yr ail fersiwn o'r fframwaith ond yn dilyn trafod a negodi, penderfynwyd parhau yn rhan o'r fframwaith. Y nòd yw rhannu arbenigedd o fewn y sector a datblygu buddion cymunedol o fewn Gwynedd gan hefyd gynnwys cwmnïau/contractwyr llai.*

*Y Rheolwr Datblygu Eiddo yn unig oedd wedi arwyddo'r ddogfen sgorio terfynol. Disgwylir i bob unigolyn sy'n rhan o'r broses lofnodi'r dogfennau/cofnodion yma. Fodd bynnag, cynhaliwyd y broses sgorio yn ôl yn Rhagfyr 2015 ac mae'r Rheolwr Prosiect eisoes wedi cytuno i weithredu ar y cam yma yn dilyn archwiliad a gwblhawyd yng Ngorffennaf 2016. Yn ystod archwiliad dilyniant eleni, gwelwyd ddogfen sgorio, dyddiedig Chwefror 2017 yn cadarnhau fod y cam cytunedig yma yn cael ei weithredu.*

*Roedd rhai o'r taliadau ar gyfer yr 'interim valuations' yn hwyr o gymharu â'r dyddiad cyhoeddi a dyddiad dyledus ar y 'valuations'. Fodd bynnag gwelwyd nad oedd y 'valuations' wedi eu derbyn gan Wynedd am nifer o ddyddiau wedi'r dyddiad cyhoeddi. Gwelwyd fod addasiad wedi ei wneud i'r cytundeb i adlewyrchu'r sefyllfa a'r telerau ynglŷn â dyddiad talu a oedd yn nodi y dylai'r taliadau gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod o dderbyn y 'valuations' yn hytrach na erbyn y dyddiad dyledus.*

*Roedd rhaid addasu'r cynlluniau a chynnal gwaith ychwanegol gan nad oedd rhai elfennau o'r cynlluniau gwreiddiol a dyluniadau'r pensaer yn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch. O ganlyniad mae rhai elfennau o'r adeiladu wedi gorfod cael eu hail wneud a Gwynedd yn gyfrifol am y costau ychwanegol. Buasai ymgynghori yn gynharach yn y broses a derbyn mewnbwn cyson gan Iechyd a Diogelwch yn osgoi sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol. Amlygwyd fod prosiectau eraill cyfredol wedi cychwyn y broses yma o ymgynghori a chydweithio eisoes. Y bwriad yw un ai osgoi problemau neu eu darganfod yn gynharach yn ystod yr adeiladu er mwyn lleihau'r oblygiadau ar gyllideb ac amser/cynnydd y prosiect.*

2.6.2 Croesawyd Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol i'r cyfarfod.

2.6.3 Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad archwilio ac yn benodol at y ddogfen sgorio a'r disgwyliad bod unigolyn yn arwyddo'r ddogfen. Eglurodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol mai camgymeriad oedd y methiant i arwyddo sgorio'r tendrau yn yr achos yma ond bod tystiolaeth i ddangos bod tri person wedi eu sgorio ond y bu methiant i arwyddo'r ffurflen i gadarnhau hynny ond nad oedd hyn wedi amharu ar degwch y tendr. Ymholodd aelod sut y bydd yr Adran yn sicrhau na fydd digwyddiad fel hyn yn digwydd eto. Eglurodd yr Uwch Reolwr bod y gwasanaeth yn derbyn adborth gan bob rheolwr ar ddiwedd pob cynllun fel gwersi a ddysgwyd wrth symud ymlaen i'r cynllun nesaf.

2.6.4 Cyfeiriodd Aelod at yr elfen iechyd a diogelwch oedd yn yr adroddiad a gofynnwyd am eglurhad dros y methiant i fodloni gofynion iechyd a diogelwch. Eglurodd yr Uwch Reolwr bod haenau gwahanol o iechyd a diogelwch yn cael eu pasio wrth i'r cynllun symud yn ei flaen a bod llawer o reoliadau yn bodoli yn y maes.

2.6.5 Esboniodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol bod anghenion newydd wedi codi gyda chynllun Ysgol Glancegin yn sgil peidio ymgynghori â'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a phwysleisiodd bod hyn yn un o'r gwersi a ddysgwyd a chadarnhaodd na fydd yn digwydd eto.

2.6.6 Mynegodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol bod dyluniad pob ysgol yn unigryw a bod yr achos yn Ysgol Glancegin yn unigryw.

2.6.7 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol am fynychu'r cyfarfod a chytunwyd bod y materion wedi cael eu hateb.

**2.7 Manddaliadau**

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Mae trefniadau ar y gweill i osod manddaliadau dan drefn reolaeth newydd gyda chyllideb "ring-fenced" o'r flwyddyn ariannol 2018/19 ac i'r perwyl hynny, cytunwyd y buasai'n ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau Archwilio Mewnol i ailymweld â'r maes drwy gynnal archwiliad o'r gyfundrefn newydd maes o law. I'r perwyl yma, cyfyngwyd yr archwiliad yma at y broses incwm. Echdynnwyd o'r cyfriflyfr drafodion incwm manddaliadau dros sawl blwyddyn, gan wirio bod anfonebau wedi eu creu yn rheolaidd a bod trefniadau mewn lle ar gyfer monitro a derbyn yr incwm yn brydlon.*

*Dengys y cyfriflyfr bod y Cyngor yn codi anfonebau drwy filio cylchol, 'recurring billing', sy'n golygu cynhyrchir anfonebau yn awtomatig ar amser penodol o'r flwyddyn, a hynny am nifer penodol o flynyddoedd yn unol â'r les cyfredol, ond roedd rheolaethau o fewn y system ariannol yn cyfyngu nifer y blynyddoedd y gellid gwneud hyn. Er bod bilio cylchol yn rheolaeth dda er mwyn sicrhau caiff anfonebau eu codi, efallai bod gormod o ddibyniaeth wedi cael ei roi ar y drefn i edrych ar ôl ei hun, a bod methiannau ddim yn cael eu darganfod. Gwelwyd anfoneb am £7,500 a godwyd ar y 25/06/13, sef taliad cronnus am rent tair blynedd am Uned 5255 (rhif job), gan fod y bilio cylchol rhwng 11/01/10 a 12/01/14 heb ddigwydd. Gwelwyd hefyd anfoneb am £20,700 ar 30/10/17 ar gyfer Uned 5309 oherwydd methiant i godi anfonebau am £6,900 ar 28/05/15 a 28/05/16. Mae'r cwsmer wedi bod yn talu £575 y mis, ond bellach yn talu £625, sy'n golygu ar y raddfa yma bydd yn cymryd 23 mlynedd i dalu'r ôl-ddyled o £13,800.*

*Ymddengys bod y bilio cylchol wedi methu oherwydd bod y cyfnod caiff anfonebau eu codi drwy bilio cylchol, oedd yn gyfyngedig o fewn y system ariannol, wedi dod i ben, ac yn anffodus nid oedd trefniadau monitro'r Gwasanaeth Eiddo na'r Adran Gyllid wedi darganfod hyn. Yn sgil hyn, dechreuodd yr Uned Incwm gynhyrchu adroddiadau cyfnodol er mwyn adnabod pryd mae bilio cylchol manddaliadau (ynghyd ag eraill) yn dod i ben, a'u hadnewyddu yn unol â termau'r les gyfredol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau fel rhan o'r archwiliad yma, darganfuwyd ei fod yn bosib ehangu'r cyfnodau bilio cylchol yn y system ymhell i'r dyfodol ac felly mae trefniadau mewn llaw i gynyddu cyfnodau bilio cylchol manddaliadau yn unol â hynny. Bydd hyn yn lliniaru'r risg o fethiant i godi bil ar denant.*

*Gwelwyd nodyn credyd am £4,800 ar 30/03/11 gan fod y tenant wedi gadael Uned 5332 ers Mawrth 2009, a nodiadau credyd am gyfanswm o £19,500 ar 27/05/15 gan fod y tenant wedi gadael Uned 5260 ers 27/05/13. Mae'r methiant i ganslo'r biliau cylchol a'r angen i godi nodiadau credyd yn awgrymu bod gwendidau yn y broses monitro tenantiaeth. Fodd bynnag, eglurodd yr Uned Incwm bod rhai trefniadau bilio cylchol wedi cael eu rhaglennu am gyfnodau hirach na'r les, er mwyn sicrhau bod anfonebau yn cael eu codi, gan ei bod yn haws codi nodyn credyd fel yr angen yn hytrach na chreu risg o fethu codi anfoneb. Oherwydd bod modd ehangu cyfnodau bilio cylchol ymhell i'r dyfodol, mae bwriad gweithredu fel hyn ar gyfer pob prydles.*

*Petai anfoneb yn hwyr yn cael ei thalu, yna bydd trefniadau adennill arferol y Cyngor yn ymgyrchu i adennill y ddyled. Fodd bynnag, dengys adroddiadau'r cyfriflyfr a chofnodion yr Uned Incwm bod oediadau hir yn gallu digwydd rhwng codi anfoneb a derbyn taliad, gyda phrydlondeb talu'r tenantiaid wrth reswm yn amrywio o un i'r llall.*

*Mae rhai anfonebau yn gorfod cael eu hysgrifennu i ffwrdd, gan gynnwys nifer o anfonebau am ôl-rhent rhwng 25/03/09 a 25/03/11 ac un achos ble fydd dyled gronnus o £38k dros nifer o flynyddoedd yn cael ei ddileu, a hynny oherwydd methiant i ail-feddiannu Uned 5329 gan nad oedd les mewn lle, er gwaethaf ymdrechion Cyfreithiol i'w hadennill. Fodd bynnag, gosodwyd y trefniant yma dan broses hanesyddol a ni ddisgwylir i'r un methiannau ail-ymddangos yn y dyfodol.*
*Ymddengys felly bod angen cryfhau trefniadau monitro incwm yn y gyfundrefn newydd, drwy sicrhau bod anfonebau yn cael eu cynhyrchu yn unol â'r cytundeb ac ymgorfforï statws a phrydlondeb talu anfonebau i'r drefn monitro, er mwyn gallu delio gyda drwg-dalwyr cyn i'r ddyled gronni yn ormodol. Wrth gwrs, mae rhai tenantiaid yn well na'i gilydd, ond ymddengys nad yw'r drefn o dalu mewn rhandaliadau yn creu yr un trafferth.*

2.7.2 Ymunodd Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg a Stephen Williams, Rheolwr Incwm â Dafydd Gibbard, Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol i drafod yr adroddiad Manddaliadau. Croesawyd y swyddogion i'r cyfarfod.

2.7.3 Ymholodd Aelod beth oedd cyfrifoldebau'r cwsmer a phwy oedd wedi delio â'r cwsmer a chaniatáu taliadau bychain oedd yn golygu y bydd yn cymryd 23 mlynedd i dalu'r ddyled. Ymatebodd y Rheolwr Incwm mai cyfrifoldeb y Gwasanaeth Incwm oedd trefnu taliadau ond yn yr achos yma, y cwsmer oedd wedi cynnig talu'r symiau.

Eglurodd y Rheolwr Incwm nad oedd y ddyled wedi mynd drwy achos llys oherwydd mai camgymeriad y Cyngor oedd y methiant i godi'r ddyled. Ategodd nad oes cytundeb talu ffurfiol wedi ei sefydlu ac y byddent yn cysylltu â'r cwsmer gyda'r gobaith y bydd y cwsmer mewn sefyllfa i wneud taliadau uwch yn y dyfodol.

2.7.4 Ymholodd Aelod beth oedd y rheswm dros beidio codi anfoneb. Eglurodd y Rheolwr Incwm bod y system wedi methu codi anfoneb oherwydd bod y dyddiad ar gyfer biliau cylchol heb ei ymestyn yn gywir ym mharamedrau'r system ac ategodd bod y mater yma bellach wedi ei ddatrys a cadarnhaodd na fydd yr un peth yn digwydd yn y dyfodol.

2.7.5 Mynegodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol serch y ffaith bod yr adroddiad wedi derbyn barn "Ch", roedd yn croesawu'r adroddiad gan fod gwelliannau eisoes wedi eu gwneud a bod cydweithio wedi digwydd i ddatrys y broblem yn hawdd.

2.7.6 Ymholodd Aelod pam nad oedd dyled gronnus o £38K wedi ei hadennill. Eglurodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol bod yr achos wedi mynd i'r llys ac ymddengys na gyflwynwyd y wybodaeth gyflawn i'r Archwiliwr yn ystod yr archwiliad. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg y pwysigrwydd i reolwyr wirio geiriad adroddiadau drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n derfynol.

2.7.7 Ymholodd Aelod pa drefniadau gwella sydd wedi eu rhoi mewn lle ers rhyddhau'r adroddiad. Eglurodd yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol mai'r Uned Stadau sydd yn rheoli'r manddaliadau a bod manddaliadau eisoes wedi ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu a bydd y gwasanaeth yn edrych ar yr adnodd a'r gwaith yn fanylach gyda'r Pwyllgor Craffu.

2.7.8 Ymholodd y Cadeirydd beth oedd y cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu Cytunedig. Eglurodd y Rheolwr Incwm bod y tri cham cytunedig eisoes wedi eu gweithredu.

2.7.9 Gofynnodd Aelod am dderbyn diweddariad o'r sefyllfa ymhen 6 mis ond mynegodd y Rheolwr Archwilio y bydd archwiliad dilynol yn cael ei chynnal i fonitro cynnydd yn y drefn arferol a bydd canlyniadau'r archwiliadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.